




Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

Ymateb i'r ymgynghoriad ymgyngoriad 'Parod at y dyfodol: Trawsnewid Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd'





Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

Ymateb i'r ymgynghoriad 'Parod at y dyfodol: Trawsnewid Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd'

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Rhagarweiniad a manylion cyswllt	1
Rhagair	2
Cefndir	4
Ymatebion i gwestiynau penodol.....	9
Egwyddorion Ymgynghori	39
Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr.....	40
Atodiad B – Rhestr o’r cwestiynau	42
Atodiad C – Adolygiad Annibynnol o’r Dadansoddiad o Strategaeth Ystadau GLITEM	43
Atodiad D – Datganiad Cydraddoldeb	46

Rhagarweiniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r ymateb ar ôl ymgynghori i'r papur ymgynghori, 'Parod at y dyfodol: Trawsnewid Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd'

Bydd yn trafod:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gallwch gael rhagor o gopiau o'r adroddiad hwn neu gopi o'r papur ymgynghori trwy gysylltu â Thîm yr Ymgynghoriad Ystadau yn y cyfeiriad isod:

Estates Consultation

Post Point 1.42

Her Majesty's Courts & Tribunals Service

102 Petty France

Llundain SW1H 9AJ

E-bost: estatesconsultation@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Gellir gwneud cais am fformatau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn trwy anfon neges e-bost i estatesconsultation@justice.gov.uk.

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y cyfeiriad uchod.

Rhagair

Ar 18 Ionawr 2018, mi wnaethon ni ddatgan y byddai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyhoeddi 'Parod at y Dyfodol: trawsnewid ystâd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd'; papur ymgynghori sy'n amlinellu ein strategaeth a'n dull yn y dyfodol i ddiwygio ystâd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Amlinellodd yr ymgynghoriad hwn y tair egwyddor graidd y tu ôl i'n dull - sicrhau mynediad at gyfiawnder, darparu gwerth am arian i'r trethdalwr a sicrhau effeithiolrwydd yn yr hirdymor - a sut dylwn ni fynd ati i'w cyflawni wrth i'r broses foderneiddio fynd rhagddo. Bu iddo bennu ein dull arfaethedig ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol ar newidiadau i'r ystâd wrth i fentrau diwygio GLITEM parhau i gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol.

Cafwyd 249 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'n glir o amrywiaeth a manylder yr ymatebion a gafwyd fod y rhai hynny sy'n defnyddio ac yn gweithio yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ddarllen yr ymgynghoriad a chyflwyno ymateb. Er mwyn i ni gael ein hegwyddorion ystadau yn iawn ar gyfer y dyfodol, rydym wedi neilltuo amser ers i'r ymgynghoriad ddod i ben ym mis Mawrth i ystyried yn ofalus yr holl sylwadau a chynigion a gawsom yn ymateb i'r amrywiaeth o themâu a'r cwestiynau a godwyd.

Bydd y cynigion hyn, ynghyd â'r newidiadau ehangach a ddaw o'n rhaglen foderneiddio, yn golygu y bydd yna newidiadau mawr i'r ffordd y mae cyfiawnder yn cael ei ddarparu. Mae ein hegwyddorion craidd eisoes wedi'u pennu: mae'n rhaid i'r system fod yn gyfiawn, yn gymesur ac yn hygyrch i bawb. Fodd bynnag, er mwyn iddynt adlewyrchu bywyd yn yr 21ain ganrif, mae angen inni edrych ar y dechnoleg, yr arferion gwaith a'r cyfleoedd a gynigir gan y byd modern i greu llwybrau hollol newydd, mwy cyfleus a chyflym i gyfiawnder. Mae'r Llywodraeth

a'r farnwriaeth wedi cytuno i ymrwymo i raglen ddiwygio gwerth £1 biliwn a fydd yn defnyddio technoleg a ffyrdd o weithio modern i drawsnewid ein system cyfiawnder, fel ei bod yn parhau i arwain ac ysbrydoli'r byd. Rhan bwysig o'r trawsnewidiad hwn yw cydnabod y bydd rhaid defnyddio ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn wahanol yn y dyfodol.

Wrth i ni weithredu ac ymgymryd â rhagor o gyfleoedd i setlo a symud achosion yn eu blaenau y tu allan i'n ystad llysoedd - un ai ar-lein neu drwy ddefnyddio cysylltiadau a thechnolegau o bell - rydym yn disgwyl y bydd y galw am fynediad at ystafell wrandawiadau draddodiadol mewn adeiladau llys neu dribiwnlys yn lleihau. Byddwn wastad angen seilwaith llysoedd a thribiwnlysoedd ac rydym eisieu gwella a buddsoddi yn yr adeiladau hynny sydd, a fydd yn parhau i fod, yn hanfodol ar gyfer ein cefnogi i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder. Bydd y cynigion sy'n sail i'n strategaeth newydd yn ein galluogi i feddwl yn wahanol am le mae angen adeiladau llys ac adeiladau tribiwnlys, a thargedu ein buddsoddi fel bod yr arian yn mynd yn bellach. Rhagwelwn y bydd hyn yn golygu cael llai o adeiladau, ond rhai sydd mewn gwell cyflwr, mewn lleoliadau da ac sydd â chysylltiadau da, sy'n groesawus, yn hawdd i'w defnyddio ac sydd mewn cyflwr da. Cydnabyddwn fod gan ormod o'n adeiladau llys a'n adeiladau tribiwnlys ddiffygion y mae angen inni fynd i'r afael â hwy.

Rydym yn cydnabod gwerth gwrandawiadau llys traddodiadol, a'r angen i ddiffynyddion, dioddefwyr a thystion allu teithio i'r llys pan fydd angen. Mae



technologau newydd yn cyflwyno cyfleoedd i wella'r gwasanaethau a gynigir yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd a bydd yn galluogi ffyrdd newydd ac arloesol o gael mynediad at, a sicrhau cyfiawnder. Yn aml iawn, cyfoethogi ein gwasanaethau fydd technoleg ac nid eu disodli. Ein gwas fydd technoleg ac nid ein meist, a bydd yn galluogi ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd i ddatrys anghydfodau'n gyflymach ac yn rhatach.

Gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi edrych yn ofalus ar y cwestiwn allweddol o fynediad at gyfiawnder ac amseroedd teithio i'r llys ac o'r llys. Cafodd yr agwedd hon ar yr ymgynghoriad yr ymateb mwyaf; roedd gan lawer o'r rhai oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad bryderon sylweddol am feincnod nad oedd yn ddigon penodol. Felly, rydym wedi gwneud ymrwymiad cryf o fewn ein hegwyddorion ystadau, sef, wrth ystyried unrhyw gynigion ar gyfer rhesymoli'r ystad, bydd y gallu i gael mynediad at gyfiawnder trwy deithio i adeilad llys neu adeilad tribiwnlys yn parhau i gael ei ystyried yn benodol wrth asesu a pharatoi'r achos i newid yr ystad. Yn bwysig iawn, byddwn yn ystyried y gwahanol fathau o ddefnyddwyr a natur yr achosion sy'n cael eu heffeithio gan yr adeilad dan sylw; rydym yn cydnabod na fydd defnyddio'r un dull ar gyfer pob sefyllfa yn gweithio.

Rydym wedi amlinellu yn yr ymateb i'r ymgynghoriad yr egwyddorion newydd a fydd yn cyfarwyddo ein prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Mae sylwadau, beirniadaethau a phryderon wedi gwneud i ni feddwl yn

ofalus ac yn ddifrifol am ein dull ac rydym wedi gwrandao ar yr hyn rydych wedi'i ddweud. Bydd y cynigion yn y ddogfen hon yn sicrhau bod ein strategaeth ystadau yn ategu ein rhaglen ddiwygio a moderneiddio ehangach ac yn symud ymlaen gyda'r rhaglen hon. Rwy'n hyderus y bydd yr egwyddorion newydd hyn a'r strategaeth rydym wedi'i mabwysiadu ar gyfer ein ystad llysoedd a thribiwnlysoedd yn sicrhau system gyfiawnder a fydd yn addas i'r 21ain ganrif ac yn sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen i'w gwneud yn gynaliadwy

***Y Gwir Anrhydeddus David
Gauke AS
Arglwydd Ganghellor ac
Ysgrifennydd Gwladol dros
Cyfiawnder***

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Parod at y dyfodol: trawsnewid ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd' ar 18 Ionawr 2018. Roedd yr ymgynghoriad yn cydnabod y bu newidiadau sylweddol i ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ers 2010. Yn ystod y cyfnod hwnnw, lleihawyd ôl troed ein hystad er mwyn gwella'r defnydd a wnawn o'n hadeiladau. Fe'n harweiniwyd gan set o egwyddorion ystad GLLTEM - cynnal mynediad at gyfiawnder, sicrhau gwerth am arian, a sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon..

Effaith Diwygio'r Llysoedd

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae ein rhaglen ddiwygio yn newid y ffordd y mae gwasanaethau'r llysoedd a thribiwnlysoedd yn cael eu darparu. Rydym yn adeiladu system sy'n defnyddio technoleg i alluogi pobl i gael mynediad at gyfiawnder mewn ffyrdd symlach, haws a chyflymach. Rydym yn cydnabod y bydd darpariaeth ar gyfer gwrandawiaidau mewn ystafelloedd llys yn parhau'n hanfodol ar gyfer gweinyddu cyfiawnder, a bod arnom angen ystad o lysoedd a thribiwnlysoedd addas i'r diben hwnnw. Wrth i ni ddechrau ar gam nesaf y rhaglen ddiwygio, bydd llai o ryngweithio â'r system llysoedd a thribiwnlysoedd yn digwydd mewn ystafell llys. Yn hytrach, wrth i bobl gysylltu â'r llysoedd drwy wasanaethau digidol, gwrandawiaidau fideo a cheisiadau ar-lein, rydym yn rhagdybio y bydd arnom angen llai o ystafelloedd llys.

Wrth i ni foderneiddio ein prosesau, mae'n briodol ailfeddwl am yr egwyddorion priodol wrth ystyried unrhyw leihad yn yr ystad. Er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion diweddaraf hyn yn adlewyrchu anghenion ein defnyddwyr orau, rydym wedi gwrandao ar y rhai sy'n defnyddio ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd ac yn gweithio ynddynt cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Mae angen inni ystyried cau rhagor o lysoedd yng nghyd-destun moderneiddio, a fydd yn sicrhau ein bod yn darparu mynediad teg a chymesur at gyfiawnder. Rydym yn disgwyl cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r llys o bell a bydd hynny'n lleihau'r

defnydd o adeiladau llys a thribiwnlys yn y dyfodol. Rydym yn ymrwymo i beidio â gweithredu ar y rhagdybiaeth honno a chynnig cau llysoedd oni bai fod gennym dystiolaeth gadarn bod y diwygiadau mewn gwirionedd yn lleihau'r defnydd o'r adeiladau hynny.

Yn naturiol, gydag ystad o'r maint hwn gall fod newidiadau yn digwydd am resymau ar wahân i'r defnydd o wasanaethau digidol, ac o dan yr amgylchiadau hynny, gall fod yn synhwyrol cau neu uno llysoedd. Yn ogystal, nid yw'r ymgynghoriad hwn yn effeithio ar benderfyniadau blaenorol i gau llysoedd a fydd yn mynd yn eu blaenau yn ôl y bwriad.

Rydym am wella cyfiawnder, nid ei leihau. Rydym wedi gwrandao'n ofalus ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym wedi amlinellu yma y negeseuon allweddol a glywsom.

Beth a glywsom yn yr ymgynghoriad

Yn ein hymgynghoriad, clywsom mai'r hyn a boenai fwyaf ar atebwyr oedd y ffordd yr ydym yn asesu siwrneiau defnyddwyr i lysoedd a thribiwnlysoedd. Yn yr ymgynghoriad, cynigiom y dylai'r bobl y mae angen iddynt fod yn bresennol mewn gwrandawriad fod yn gallu mynychu'r llys a dod adref ar yr un diwrnod. Roedd yn amlwg o'r ymatebion a gawsom nad oedd hyn yn ddigon penodol a bod llawer yn pryderu y gallai hyn gynnwys siwrneiau hir iawn neu siwrneiau anghyfleus.

Felly, rydym wedi gwella ein hegwyddorion er mwyn ei gwneud yn glir ein bod yn disgwyl i siwrneiau i'r llys fod yn rhesymol, a nodi y byddai taith resymol i'r mwyafrif llethol o ddefnyddwyr yn caniatáu iddynt adael y cartref ddim cynt na 7.30am, mynychu eu gwrandawriad, a dychwelyd adref erbyn 7.30pm yr un diwrnod, a gyda chludiant cyhoeddus lle bo angen. Rydym hefyd wedi nodi'n llawer mwy manwl sut y byddwn yn mesur hyn, pa ffactorau eraill y byddwn yn eu hystyried - er enghraifft amgylchiadau defnyddwyr, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed, a'r mesurau lliniaru y gallwn eu defnyddio pan fydd defnyddwyr yn profi anhawster wrth fynychu'r llys.

Clywsom hefyd fod pobl yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch ein cynigion o ran ein hadeiladau llys a thribiwnlys. Roedd neges glir bod angen i ddiogelwch y rhai sy'n defnyddio ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd ac yn gweithio ynddynt fod o'r pwys mwyaf, ynghyd â sicrhau cyfleusterau addas ar gyfer defnyddwyr sy'n agored i niwed. Rydym wedi gwneud yn siŵr bod canllaw dylunio'r llys a'r tribiwnlys (a gyhoeddir gyda'r ddogfen hon yn www.gov.uk/government/publications/court-and-tribunal-

design-guide yn darparu cynllun ystafell hyblyg sy'n cynnwys safonau diogelwch gwell ac yn darparu ar gyfer anghenion dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed.

Roedd cefnogaeth eang i'n gwaith i gyflwyno swyddogion cymorth digidol – a fydd yn cefnogi cyflwyno cymorth hirdymor i wasanaethau digidol mewn llysoedd lleol – yn ogystal â chymorth a fydd yn cynorthwyo defnyddwyr nad ydynt yn dymuno defnyddio gwasanaethau ar-lein a'r rhai na all gael mynediad atynt. Rydym wedi gwrandao ar y pryderon o ran darparu adnoddau ar gyfer y gwasanaethau hyn, a byddwn yn sicrhau bod y nifer cywir o staff yn cefnogi'r gweithgareddau hyn.

Cawsom adborth pwysig hefyd ar natur ymgynghoriadau yn y dyfodol: clywsom fod angen inni fod yn ofalus iawn wrth ystyried amseriad ymgynghoriadau yn y dyfodol, a sicrhau ein bod yn siarad â'r bobl iawn ar yr adeg iawn wrth inni ddatblygu ein cynlluniau. Rydym yn cytuno, ac mae'r ymateb hwn yn amlinellu gyda phwy a phryd y byddwn yn ymgynghori ynghylch cau llysoedd. Rydym yn disgwyl y bydd y defnydd cynyddol o wasanaethau digidol yn golygu y bydd angen llai o wrandawiaid llys a thriwlynlys mewn llysoedd traddodiadol, ac felly bydd angen llai o adeiladau. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i gael tystiolaeth glir bod y gostyngiadau hyn yn digwydd cyn inni benderfynu cau unrhyw safleoedd pellach.

Ein hegwyddorion hystadau diwygiedig

O ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi ystyried a diweddarau ein hegwyddorion. Mae'r egwyddorion diwygiedig yn gryfach, ac yn rhoi mwy o sicrwydd ein bod, wrth wneud newidiadau i'n hystad, yn cynnal mynediad effeithiol at gyfiawnder, yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr a sicrhau bod ein llysoedd a'n triwlynlys mor effeithlon ag y bo modd.

Mae'r newidiadau i'r egwyddorion yn ceisio sicrhau'r canlynol.

- Dylai pawb y mae angen iddynt gael mynediad at ystad y llys a'r triwlynlys allu gwneud hynny. Dylai amserau siwrneiau i'r llys fod yn rhesymol a dylid ystyried gwahanol anghenion ac amgylchiadau'r rheini sy'n defnyddio'r llysoedd. Mae mesurau lliniaru ar gael i'r rheini sy'n cael anhawster wrth fynd i'r llys.
- Rydym eisieu gwneud yn siŵr bod ein hadeiladau yn y cyflwr gorau posibl i'r rhai sy'n eu defnyddio ac y gellir eu cynnal ar gost resymol i'r trethdalwr.

- Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu canolfannau amlawdurdodaethol sy'n gallu darparu mynediad hyblyg i'r bobl sy'n defnyddio ein llysoedd a'n triwlynlys. Byddwn yn harneisio pŵer technoleg i wella hygyrchedd a mwy o hyblygrwydd.

Drwy'r ddogfen hon ar ei hyd rydym wedi nodi lle y gwnaed newidiadau i'r egwyddorion, a'r sail resymegol drostynt. Isod rydym wedi darparu egwyddorion ein hystadau - a gyhoeddwyd yn 2015 - cyn y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â'n hegwyddorion newydd ar gyfer ein hystadau.

Bwriedir i'r egwyddorion ystadau newydd hyn gryfhau ac arwain ein dadansoddiad a'n hasesiad pan fyddwn yn ystyried newidiadau yn y dyfodol i'r ystad llysoedd a thriwlynlys. Fe'u cymhwysir gan Fwrdd GLITEM a'r Arglwydd Ganghellor drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas ag ystad llysoedd a thriwlynlys. Bydd penderfyniadau ynglŷn â'n hystad ar brydles, a ddefnyddir yn bennaf gan driwlynlys, hefyd yn cael eu llywio gan yr egwyddorion newydd, gan gynnwys pan fyddwn yn ystyried peidio ag ymestyn ein meddiannaeth o safle ar brydles. Drwy'r ddogfen hon ar ei hyd rydym wedi cynnwys egwyddorion newydd a ychwanegwyd a nodi pam rydym o'r farn bod angen y newid.

Roedd yr egwyddorion a'r dull gweithredu diwygiedig a amlinellir yn y ddogfen hon yn sail i'n ffordd o feddwl a chynllunio yn achos busnes diweddaraf y rhaglen ddiwygio.

Egwyddorion Newydd	Egwyddorion Blaenorol
Sicrhau mynediad at gyfiawnder i bawb	
<p>Dylai fod pawb sydd angen cael mynediad at ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn gallu gwneud hynny.</p> <p>Er mwyn sicrhau mynediad parhaus at gyfiawnder, dylai amseroedd teithio i'r llys fod yn rhesymol a byddwn yn ystyried yn ofalus yr effaith debygol ar amseroedd teithio ym mhob cynnig, gan gydnabod bod gan ddefnyddwyr gwahanol anghenion gwahanol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Wrth bennu p'un a yw taith yn rhesymol ai peidio, byddwn yn ystyried gallu defnyddwyr i fynychu gwrandawriad ar amser a dychwelyd adref, ar gludiant cyhoeddus os bydd angen, a fydd yn cynnwys ystyried y pwyntiau canlynol: - hyd y daith mewn car ac ar gludiant cyhoeddus, gan ddisgwyl y byddai'r nifer helaeth o ddefnyddwyr yn gallu cychwyn o adref dim cynt na 07:30 i ymweld â'u llys lleol a dychwelyd erbyn 19:30 gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus; - anhawster y daith, gan gynnwys amllder cludiant cyhoeddus a'r nifer o newidiadau sydd angen eu gwneud yn ystod y daith; - cost teithiau posibl - y mathau o achosion a wrandewir yn y llys neu'r tribiwnlys; - oriau agor y llys neu'r tribiwnlys; - nghanion defnyddwyr bregus; ac - a yw prosesau lliniaru ar gael i leihau'r effaith ar ddefnyddwyr sydd ag amseroedd teithio hirach, os yw niferoedd y defnyddwyr o'r fath yn isel. - Lle bo'n berthnasol, gall prosesau lliniaru gynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig) i'r canlynol: - Amrywio amseroedd cychwyn neu amseroedd gorffen gwrandawriadau, yn amodol ar gael caniatâd barnwrol a p'un a yw'r math o achos yn addas (a all hefyd gynnwys newid y lleoliad). Byddai hyn yn lliniariad effeithiol ar gyfer y bobl sy'n gallu cyrraedd y llys erbyn 10:00 (a dim yn gynharach), neu'r rhai sydd angen gadael y llys yn gynnar; - Darparu cysylltiadau fideo lleol; ac - Ystyried darpariaeth amgen sy'n briodol ar gyfer y math o achos/y baich gwaith, a gyda chytundeb farnwriaeth. 	<p>Sicrhau mynediad parhaus at gyfiawnder wrth asesu effeithiau posibl cau adeiladau ar ddefnyddwyr proffesiynol a defnyddwyr lleig y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, gan ystyried yr amseroedd teithio ar gyfer defnyddwyr, heriau o ran cael mynediad mewn ardaloedd gwledig, ac unrhyw weithredu lliniarol. Bydd hyn yn cynnwys lleoli cyfleusterau mewn canolfannau dinesig ac adeiladau lleol eraill i sicrhau mynediad yn lleol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebiadau modern a phrosesau rhestru mwy hyblyg, a fydd yn lleihau amseroedd teithio yn sylweddol.</p> <p>Ystyried anghenion defnyddwyr, dioddefwyr, tystion ac unigolion bregus</p>
<p>Asesu effaith cau llysoedd ar amseroedd teithio trwy ddulliau modelu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac enghreifftiau byd go iawn o amseroedd a chostau teithio arferol ar gyfer y llysoedd hynny sy'n cael eu cynnig fel rhai i'w cau, gan ddefnyddio gwybodaeth leol.</p>	
<p>Cynnal ac ymestyn presenoldeb GLITEM mewn lleoliadau strategol allweddol i ddiwallu anghenion cyfran fwy o'r boblogaeth, wrth ystyried anghenion defnyddwyr ac yn enwedig dioddefwyr, tystion ac unigolion bregus.</p>	

Egwyddorion Newydd	Egwyddorion Blaenorol
Lle mae'n cael ei defnyddio, rhaid i ddarpariaeth amgen, sy'n golygu darparu gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd y tu allan i ystad GLITEM, fod yn ddiogel ac yn hygyrch ynghyd ag adlewyrchu urddas ac awdurdod y llys. Wrth archwilio cyfleoedd i ddefnyddio darpariaeth amgen, a fwriedir i fod yn fuddiol i ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd trwy gynyddu hygyrchedd a hyblygrwydd, byddwn yn sicrhau bod achosion priodol yn cael eu gwrandio yn lleoliadau o'r fath.	
Deall a chefnogi ein rhanddeiliaid, gan gynnwys asiantaethau eraill y llywodraeth megis Gwasanaeth Eryl y Goron, gwasanaethau cymdeithasol, heddluoedd. Awdurdodau lleol a Cafcass.	Cefnogi gofynion asiantaethau eraill, fel Gwasanaeth Eryl y Goron, gwasanaethau cymdeithasol, heddluoedd a Cafcass.
<i>Darparu gwerth am arian</i>	
Heb gyfaddawdu mynediad at Gyfiawnder i bawb, sicrhau ein bod yn lleihau cost rhedeg yr ystâd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a buddsoddi'n briodol mewn ffyrdd eraill o weinyddu cyfiawnder; sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr a lleihau'r costau i'r trethdalwr o ran cynnal yr ystad, gan weithio ar y cyd â phartneriaid allweddol ar draws y sector cyhoeddus.	Lleihau costau rhedeg yr ystad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
Sicrhau bod ein hadeiladau yn y cyflwr gorau posibl a bod modd eu cynnal mewn ffordd sy'n fforddiadwy.	
Canolbwyntio ein buddsoddi ar yr adeiladau hynny a fydd yn gallu darparu mynediad at gyfiawnder orau a diwallu anghenion ein defnyddwyr orau.	
Cydnabod bod adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio yn cynrychioli dychweliad gwael ar yr arian sy'n cael ei fuddsoddi a dylid cael gwared ar yr adeiladau hynny yn yr ystad y byddai naill ai'n anodd neu'n ddrud i'w haddasu neu i'w diweddarau.	
Gwneud y mwyaf o'r arian cyfalaf a geir o'r ystad yn sgil gwerthu adeiladau er mwyn ei ail-fuddsoddi yn GLITEM.	Gwneud y mwyaf o'r arian cyfalaf a geir o'r ystad yn sgil gwerthu adeiladau er mwyn ei ail-fuddsoddi yn GLITEM.
<i>Sicrhau effeithiolrwydd yn yr hir dymor</i>	
Symud tuag at ystad sydd ag adeiladau mwy sy'n hwyluso'r gwaith o restru busnes y llys a'r tribiwnlys yn fwy effeithlon a hyblyg, a hefyd yn rhoi rhagor o sicrwydd i ddefnyddwyr y llys o ran pryd fydd eu hachosion yn cael eu gwrandio.	Symud tuag at ystad sydd ag adeiladau mwy sy'n hwyluso'r gwaith o restru busnes y llys a'r tribiwnlys yn fwy effeithlon a hyblyg, a hefyd yn rhoi rhagor o sicrwydd i ddefnyddwyr y llys o ran pryd fydd eu hachosion yn cael eu gwrandio.
Er mwyn cefnogi'r cynigion ystadau, byddwn yn casglu tystiolaeth o'n cynnydd wrth i ni wneud newidiadau fel rhan o'n rhaglen ddiwygio. Byddwn yn defnyddio ein profiadau blaenorol pan fyddwn yn profi prototeipiau neu'n asesu rhaglenni treigl.	
Cynyddu'r gallu i ddefnyddio'r ystad mewn modd hyblyg ar draws yr awdurdodaeth droseddol, ac ar wahân ar draws yr awdurdodaethau sifil, teulu a'r tribiwnlys.	Symud tuag at ystad sy'n darparu canolfannau gwrandawiadau un pwrpas, gan edrych am gyfleoedd i grynhoi swyddogaethau swyddfa cefn lle gallant gael eu cyflawni'n fwyaf effeithlon.
Symud tuag at ystad sy'n darparu canolfannau gwrandawiadau un pwrpas, gan edrych am gyfleoedd i grynhoi swyddogaethau swyddfa cefn lle gallant gael eu cyflawni'n fwyaf effeithlon.	Gwella'r defnydd effeithlon a wneir o'r ystad drwy geisio gwella effeithlonrwydd y system yn gyfan gwbl, gan fanteisio ar ddulliau cyfathrebu modern (wi-fi a chyswllt fideo) a mabwysiadu prosesau busnes i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Egwyddorion Newydd	Egwyddorion Blaenorol
Buddsoddi mewn moderneiddio'r ystad trwy fanteisio ar y dulliau cyfathrebu diweddaraf (wi-fi a chyswllt fideo), a defnyddio gwasanaethau ar-lein a systemau digidol yn amlach i gefnogi'r broses o drefnu a rhestru achosion.	Gwella'r defnydd effeithlon a wneir o'r ystad drwy geisio gwella effeithlonrwydd y system yn gyfan gwbl, gan fanteisio ar ddulliau cyfathrebu modern (wi-fi a chyswllt fideo) a mabwysiadu prosesau busnes i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
Gwella'r ffordd yr ydym yn gwneud gwaith cynnal a chadw dyddiol yn ein hadeiladau trwy ddefnyddio ein pencampwyr adeiladau.	Lleihau'r ddibyniaeth ar adeiladau sydd â chyfleusterau gwael a chael gwared ag adeiladau sy'n anodd neu'n ddrud naill ai i'w haddasu neu i'w diweddarau.
Sicrhau bod adeiladau hanesyddol pwysig yn cael eu diogelu a'u cynnal yn briodol.	
Sicrhau bod ein ystad mor effeithiol, effeithlon a hyblyg ag sy'n bosib ni waeth beth yw'r ffiniau awdurdodaethol a chanolbwyntio ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau, gan gynnwys gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi dioddefwyr a thystion, oherwydd y rôl allweddol maent yn ei chwarae yn y broses o weinyddu cyfiawnder.	Cynyddu'r defnydd effeithlon o'r ystad lle bynnag y bo'n bosibl, ni waeth beth yw'r ffiniau awdurdodaethol presennol.
Wrth i ni wneud newidiadau ledled ein ystad, byddwn yn defnyddio'r Canllaw Dylunio newydd ar gyfer y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'n buddsoddiad a bod ein dyluniadau yn ein helpu i ddarparu adeiladau llys ac adeiladau tribiwnlys modern.	
Cefnogi ein canolfannau llys a'n canolfannau tribiwnlys trwy ddarparu staff rheng flaen sy'n wybodus, yn hyfforddedig ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr proffesiynol y llys. Bydd y staff hyn yn cael hyfforddiant parhaus i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio technolegau newydd.	

1. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad 'Parod at y Dyfodol: Trawsnewid Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd'

- 1.1. Cafwyd 249 o ymatebion unigol ac mae GLITEM yn ddiolchgar iawn am yr holl gyfraniadau a'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad.
- 1.2. Mae'r 249 o ymatebion wedi'u rhannu yn ôl y math o ymatebydd, fel a ganlyn:
 - 40 o ymatebion gan aelodau o'r farnwriaeth
 - 11 o ymatebion gan sefydliadau barnwrol
 - 55 o ymatebion gan ynadon
 - 53 o ymatebion gan ddefnyddwyr proffesiynol
 - 59 o ymatebion gan aelodau o staff, cyrff undebau llafur a sefydliadau trydydd sector
 - 31 o ymatebion gan aelodau unigol o'r cyhoedd
- 1.3. O ystyried graddfa'r broses ddiwygio a'r penderfyniadau fydd angen eu gwneud ynghylch dyfodol ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, roedden ni eisiau rhoi cyfle i ymatebwyr allu rhoi ymatebion mor gyflawn ac mor agored â phosib ynghylch yr amrywiaeth eang o bynciau a drafodir yn yr ymgynghoriad. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau agored gyda'r bwriad o ennyn ymatebion manwl ac adeiladol. O ganlyniad i hyn, ni allwn ddarparu dadansoddiad ystadegol o'r rhai sydd "o blaid" neu'r rhai sy'n "gwrthwynebu'r" cynigion mewn ffordd ddeuol, fel y byddai'n digwydd gydag ymgynghoriad ar gau llys penodol.

Mae rhestr lawn o'r cwestiynau wedi'i chynnwys yn Atodiad B er gwybodaeth.

Ymatebion i gwestiynau penodol

2. Mynediad at gyfiawnder yn GLITEM sydd wedi'i ddiwygio

C1: Beth yw eich barn chi ar ein meincnod arfaethedig y dylai bod y mwyafrif o ddefnyddwyr yn gallu mynychu gwrandawriad ar amser a dychwelyd o fewn diwrnod, a gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen?

C3: Beth yw eich barn chi ar sut fydd ein dadansoddiad o'r amseroedd teithio yn cael effaith ar ein cynigion? A oes yna unrhyw ddulliau amgen dylem eu hystyried?

Summary

- 2.1. Roedd rhan gyntaf y cynigion yn y papur ymgynghori yn canolbwyntio ar sicrhau mynediad at gyfiawnder yn yr adeiladau llys a'r adeiladau tribiwnlys. Bu inni drafod sut byddai lleoliad yn cael ei ystyried wrth ddatblygu cynigion yn y dyfodol ynghylch ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Rydym wedi dod â'n crynodebau o'r ymatebion i gwestiynau 1 a 3 at ei gilydd yn olynol yn y rhan hon, gan fod yna gorgyffwrdd yn themâu'r ymatebion, a oedd yn canolbwyntio'n fawr ar deithio:
- 2.2. Yn y ddogfen ymgynghori, bu inni gynnig y dylai fod defnyddwyr yn gallu dod i'r llys neu'r tribiwnlys ar amser a dychwelyd o fewn yr un diwrnod, gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen. Gan adeiladu ar yr egwyddor hon, a gwrandawrio sylwadau'r ymatebwyr i fod yn fwy penodol, rydym wedi pennu beth rydym yn ei ystyried yn daith resymol i'r mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd - sef, wrth ystyried y posibilrwydd o gau llys, byddwn yn asesu gallu defnyddwyr i deithio i'r llys ac yn ôl adref rhwng 7.30am a 7.30pm. Ni ddisgwylir y bydd y mwyafrif o ddefnyddwyr yn cychwyn a gorffen eu teithiau ar yr union amseroedd hyn, ond ei fod yn rhesymol disgwyl y byddai teithio i'r llys a theithio'n ôl adref yn digwydd o fewn yr oriau hyn, ac felly bydd y paramedrau hyn yn cael eu defnyddio yn ein proses ddadansoddi yn y dyfodol.
- 2.3. Roedd sawl ymateb yn tynnu sylw at amrywiaeth o ystyriaethau pwysig a pherthnasol eraill. Rydym wedi gwrandawrio ar y safbwyntiau hyn ac rydym wedi ymrwymo o fewn ein hegwyddor ddiwygiedig i ystyried amrywiaeth o ffactorau eraill wrth asesu effaith amseroedd teithio, sef: anhawster y daith, gan gynnwys pa mor aml mae cludiant cyhoeddus yn rhedeg a'r nifer o newidiadau sydd angen eu gwneud; cost teithiau posibl; y mathau o achosion a wrandawrio yn y llys neu'r tribiwnlys, oriau agor y llys neu'r tribiwnlys ac anghenion defnyddwyr bregus. Rydym yn ystyried bod y paramedrau amseroedd teithio, sef 7.30am - 7.30pm, yn angenrheidiol ond nid ydynt yn ddigonol ar gyfer ein hasesiad cyffredinol o'r effaith. Yn olaf, fel rhan o'n hasesiad, byddwn yn ystyried pa brosesau lliniaru sydd ar gael i leihau effeithiau amseroedd teithio ar ddefnyddwyr sy'n wynebu teithiau hirach neu anoddach, ac rydym wedi pennu'r hyn byddwn yn eu hystyried wrth lunio cynigion a gwneud penderfyniadau.
- 2.4. Wrth gyflwyno cwestiwn 3 yn yr ymgynghoriad, bu inni amlinellu ein bwriad i wella'r dull dadansoddi a ddefnyddiwyd yn y cynigion blaenorol ar gyfer cau llysoedd. Yn yr ymgynghoriadau diwethaf ar gau llysoedd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, bu inni ddarparu enghreifftiau o amseroedd teithio mewn car ac ar gludiant cyhoeddus o nifer o drefi a lleoliadau allweddol yn nalgylch y llys oedd yn destun ymgynghoriad, ynghyd â'r amseroedd teithio o'r 'llys fydd yn cau i'r llys fydd yn cael gwaith y llys sy'n cau.' Bwriadwn ehangu ar y dadansoddiad hwn yn y dyfodol, gan barhau i ddarparu enghreifftiau o amseroedd teithio a chostau teithio arferol a gwirio'r rhain trwy ddefnyddio gwybodaeth leol ein pobl.
- 2.5. Yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwn, a'r egwyddor ychwanegol sy'n cael ei thrafod yn y bennod nesaf, mae ein hegwyddorion ystadau newydd, a fydd yn llywio ein hasesiad o effaith cynigion yn y dyfodol ar fynediad at gyfiawnder, fel a ganlyn
 - Dylai fod pawb sydd angen cael mynediad at ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn gallu gwneud hynny.
 - Er mwyn sicrhau mynediad parhaus at gyfiawnder, dylai fod amseroedd teithio i'r llys yn rhesymol, a byddwn yn ystyried yn ofalus yr effaith debygol o amseroedd teithio ar unrhyw gynnig, gan gydnabod fod gan ddefnyddwyr gwahanol anghenion gwahanol.
 - Wrth bennu p'un a yw taith yn rhesymol, byddwn yn ystyried gallu defnyddwyr i fod yn bresennol ar gyfer gwrandawriad yn brydlon a theithio adref o fewn yr un diwrnod, a gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen, a fydd yn cynnwys ystyried y pwyntiau canlynol:
 - o hyd y daith mewn car ac ar gludiant cyhoeddus, gan ddisgwyl y byddai'r nifer helaeth o ddefnyddwyr yn gallu gadael adref ar ôl 07:30 i ymweld â'u llys lleol a dychwelyd erbyn 19:30, gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen;
 - o to anhawster y daith, gan gynnwys pa mor aml mae cludiant cyhoeddus yn rhedeg a'r nifer o newidiadau sydd angen eu gwneud;
 - o cost teithiau posibl;

- o y mathau o achosion a wrandewir yn y llys neu'r tribiwnlys;
 - o oriau agor y llys neu'r tribiwnlys;
 - o anghenion defnyddwyr bregus, a
 - o p'un a oes prosesau lliniaru ar gael i leihau'r effaith ar ddefnyddwyr sydd ag amseroedd teithio hirach, os yw niferoedd y defnyddwyr o'r fath yn isel.
-
- o Lle bo'n berthnasol, gall lliniariadau gynnwys (er nid ydynt yn gyfyngedig) i'r hyn a ganlyn (ceir rhestr lawn o'r lliniariadau yn Rhan 9):
 - o Amrywio amseroedd cychwyn neu amseroedd gorffen gwrandawiaid, yn amodol ar gael caniatâd barnwrol a lle bo'r math o achos yn briodol (a allai hefyd gynnwys newid y lleoliad). Byddai hyn yn lliniariad effeithiol ar gyfer y bobl sy'n gallu cyrraedd y llys erbyn 10:00 (ond dim yn gynharach), neu'r rhai hynny sy'n gorfod gadael yn gynnar;
 - o Ystyried darpariaeth amgen (h.y. lleoliadau nad ydynt yn rhai GLITEM, fel neuaddau trefi) lle bo'n briodol o ran natur yr achos/baich gwaith, a gyda chytundeb y farnwriaeth
-
- Asesu effaith cau llysoedd ar amseroedd teithio trwy ddulliau modelu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac enghreifftiau byd go iawn o amseroedd a chostau teithio arferol ar gyfer y llysoedd hynny sy'n cael eu cynnig fel rhai i'w cau, gan ddefnyddio gwybodaeth leol.
 - Cynnal ac ymestyn presenoldeb GLITEM mewn lleoliadau strategol allweddol i ddiwallu anghenion cyfran fwy o'r boblogaeth, gan ystyried anghenion defnyddwyr ar yr un pryd ac yn enwedig dioddefwyr, tystion ac unigolion bregus.
 - Egwyddor arall sy'n berthnasol i fynediad at gyfiawnder, ond sy'n cael ei thrafod dan y pennawd 'darparu gwerth am arian', yw:
- 2.6. Egwyddor arall sy'n berthnasol i fynediad at gyfiawnder, ond sy'n cael ei thrafod dan y pennawd 'darparu gwerth am arian', yw:
- Canolbwyntio ein buddsoddi ar yr adeiladau hynny a fydd yn gallu darparu mynediad at gyfiawnder orau a diwallu anghenion y defnyddwyr orau.

Cwestiwn 1

Beth yw eich barn chi ar ein meincnod arfaethedig y dylai bod y mwyafrif o ddefnyddwyr yn gallu mynychu gwrandawriad ar amser a dychwelyd o fewn diwrnod, a gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen?

- 2.7. O gyfanswm o 249 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mi wnaeth 231 ohonynt ateb y cwestiwn hwn. O'r rheiny, roedd 55 o blaid y meincnod arfaethedig, roedd un ynad yn ystyried y cynnig yn "feincnod da a chall", tra nododd Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol:

...bydd pennu'r nod hwn, sef defnyddwyr yn gallu mynychu gwrandawriad ar amser a dychwelyd o fewn yr un diwrnod, trwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen, yn galluogi ystyriaeth fwy o anghenion defnyddwyr llys gwahanol.

Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol

- 2.8. Ymysg y rhai hynny oedd yn cefnogi'r meincnod, roedd yna feysydd a amlygwyd fel rhai oedd angen rhagor o fanylder, fel esbonio'r hyn a olygir wrth ddweud 'diwrnod.' Er enghraifft, gwnaeth Cymdeithas yr Ynadon, er nad oedd yn cefnogi'r cynigion, y sylw canlynol:

Mae Cymdeithas yr Ynadon yn credu nad yw'r meincnod hwn yn ddefnyddiol gan nad yw'n ddigon penodol. Er enghraifft, nid yw'n esbonio pa nifer o bobl byddai "bron pob defnyddiwr" yn ei gynrychioli, ac mae'r geiriad "o fewn yr un diwrnod" yr un mor aneglur yn y cyd-destun hwn (h.y. a yw'n golygu o fewn oriau golau dydd, o fewn cyfnod o 24 awr, o fewn amseroedd rhedeg cludiant cyhoeddus mewn diwrnod neilltuol, ac ati)

Cymdeithas yr Ynadon

Bu i Gomisynydd Heddlu a Throsedd Gorllewin Mersia hefyd wneud sylw:

Nid yw'r mesur arfaethedig ar gyfer amser rhesymol ar gyfer teithio i'r llys a dychwelyd adref ynghyd â mynychu'r gwrandawriad, sef diwrnod, yn feincnod defnyddiol. Nid yw'n eglur p'un a ydych yn cynnig cyfnod o 24 awr, diwrnod gwaith safonol, sef saith awr a hanner, neu drefniant arall.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gorllewin Mersia

- 2.9. Respondents (both positive and negative towards the proposal) generally felt that a benchmark was needed, but some questioned how fair the proposed standard would be for the disabled, elderly, those relying on public transport or living in rural areas.
- 2.10. Awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol ar dystion a dioddefwyr. Roedd llawer o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau ar sut mae'r seilwaith trafniadaeth a mynediad at gludiant cyhoeddus yn amrywio'r fawr ledled y wlad. Mynegwyd pryderon y byddai hyn yn cael effaith anghymesur ar ferched, y rhai hynny sydd â chyfrifoldebau gofal ac unigolion sydd ar incwm isel.
- 2.11. Mynegwyd pryder hefyd y byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn codi gwarantau methu â mynychu, gan wastraffu amser y llys a'r heddlu. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr, er enghraifft, nad yw diffynyddion yn cael eu rhoi ar remand yn y ddalfa mewn rhai ardaloedd ac y gallai hyn olygu bod "llawer o ddiffynyddion sy'n methu â mynychu'r llys yn cael eu harestio a'u hebrwng i'r llys gan yr heddlu ar achlysur dilynol.
- 2.12. Roedd y ddadl yn codi tro ar ôl thro bod y gymhariaeth â'r Alban a mabwysiadu cynnig tebyg i'r un a ddefnyddir gan Wasanaeth Llysoedd yr Alban yn broblemus, gan fod gan Yr Alban ddaearyddiaeth wahanol iawn a strwythur democrataidd gwahanol iawn i Gymru a Lloegr. Roedd llawer o'r ymatebion yn trafod anaddasrwydd y meincnod ar gyfer Cymru, gan ddadlau fod yna ddirywiad wedi bod o ran nifer y bysiau yn rhedeg a nifer yr ardaloedd lle'r oedd gwasanaethau bysiau ar gael. Cyflwynwyd dadleuon tebyg gan y rhai hynny gyda gwybodaeth am amgylchiadau lleol eraill
- 2.13. Un pwynt a gododd tro ar ôl thro oedd y pryder y byddai'r rhai hynny oedd yn ymweld â'r llys yn profi rhagor o straen a phryder petai'r amseroedd teithio yn cynyddu. Dadleuwyd y byddai hyn yn effeithio ar blant a phobl ifanc yn enwedig, gan na fyddent yn gallu fforddio talu am deithiau hirach. Dywedodd aelod o'r Panel Teulu

....rydym yn disgwyl i blant dan 18 oed dreulio diwrnod cyfan, weithiau heb oruchwyliaeth oedolyn, a theithio ar ben eu hunain i adeilad llys sydd filltiroedd i ffwrdd. Dylai fod plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn fregus ac nid wyf yn credu bod y meincnod hwn yn briodol ac nid oes modd ei wireddu ar gyfer nifer fawr o ddiffynyddion a thystion ifanc

Ynad sy'n Aelod o Banel Ieuencid Swydd Northampton

- 2.14. Yn yr un modd, dadleuwyd y byddai'r cynnig yn cael effaith ar farnwyr, a allai orfod teithio'n bellach

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn dadlau bod y meincnod arfaethedig yn fympwyol, gydag eraill yn awgrymu y byddai 90 munud yn amserlen fwy priodol. Mewn llawer o achosion, roedd ymatebwyr yn cwestiynu p'un a oedd GLITEM wedi ystyried yr ymarferoldeb o ran pryd byddai gwrandawriad yn cychwyn. Gwnaethpwyd awgrymiadau y dylwn ystyried ffactorau fel cost (a oedd yn gyffredin iawn ymysg yr ymatebion), y pellter rhwng safleoedd bysiau a gorsafoedd trenau, barn pobl anabl a'r ffaith bod cludiant cyhoeddus yn annibynadwy ac yn anodd i'w ddefnyddio ar gyfer pobl anabl. Roedd y sylwadau isod gan Wasanaeth Anableddau Swydd Buckingham yn tynnu sylw at y pwynt olaf:

Mae llawer o ddulliau cludiant cyhoeddus yn anhygyrch neu'n anymarferol i bobl anabl. Gall amseroedd teithio fod yn llawer hirach ar gyfer llawer o bobl anabl, ni waeth pa fath o drafniadaeth a ddefnyddir, gan fod angen cymryd seibiant yn rheolaidd. Hefyd, yn gyffredinol, mae gan bobl anabl llai o stamina ar gyfer teithiau hir na phobl nad ydynt yn anabl

Gwasanaeth Anableddau Swydd Buckingham (Buckinghamshire Disability Service - BuDS)

- 2.15. Hefyd, roedd rhai yn ystyried bod y geiriad "bron pob defnyddiwr" yn rhy gyffredinol. Awgrymwyd y dylai hwn fod yn ymrwymiad ar gyfer yr holl ddefnyddwyr, neu y dylid nodi cyfran benodol o ddefnyddwyr
- 2.16. Cafwyd ymatebion gan rai sefydliadau, fel Cymdeithas y Gyfraith, a oedd yn dadlau y byddai meincnod yn cynrychioli camwerthusiad sylfaenol o hawl allweddol defnyddwyr i fod yn bresennol yn y llys yn bersonol. Roedd rhai ymatebwyr yn honni y byddai'r meincnod yn golygu symud i ffwrdd o'r gwerth allweddol, cyfiawnder lleol, gan grybwyll effaith buddiol gweinyddu cyfiawnder yn lleol ar gymunedau ac ar gyfraddau aildroseddu a chyfraddau adsefydlu
- 2.17. Yn olaf, cafwyd sylwadau gan ymatebwyr eraill a oedd yn teimlo fod yna ddiffyg tystiolaeth fel sail i'r farn y byddai gwrandawriadau rhith, gwasanaethau ar-lein a gwneud defnydd mwy o dechnoleg ddigidol yn lleihau'r angen i ddefnyddwyr ymweld â'r llys yn bersonol.

Cwestiwn 3

Beth yw eich barn chi ar sut fydd ein dadansoddiad o'r amseroedd teithio yn cael effaith ar ein cynigion? A oes yna unrhyw ddulliau amgen dylem eu hystyried?

2.18. O'r cyfanswm o 249 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mi wnaeth 201 ohonynt ateb y cwestiwn hwn. Nid oes modd adnabod yn iawn ymatebion cadarnhaol ac ymatebion negyddol, gan fod llawer wedi defnyddio'r cwestiwn i ailadrodd eu pryderon ynghylch amseroedd teithio. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebion yn gadarnhaol o ran y ffyrdd y byddwn yn eu defnyddio i gyfrifo effeithiau amseroedd teithio. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r ffaith y byddwn yn ystyried yr amser teithio o ddalgylch y lleoliad oedd yn cau i'r lleoliad a gynigir i ymgymryd â gwaith y llys sy'n cau, yn hytrach na'r amser teithio o'r llys sy'n cau ei hun i'r llys a fydd yn ymgymryd â gwaith y llys sy'n cau. (Mewn gwirionedd, mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer ymgynghoriadau diweddar, felly nid yw'n fenter newydd. O bosib, camddehongliad o sut mae effeithiau amseroedd teithio yn cael eu cyfrifo yw hyn). Er enghraifft, gwnaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron y sylw canlynol:

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron [CPS] yn croesawu'r newid o ddefnyddio amseroedd teithio 'o'r llys sy'n cau i'r llys a fydd yn derbyn y gwaith' i ddefnyddio 'amseroedd teithio i'r llys sy'n derbyn y gwaith ar gyfer y rhai hynny sy'n byw yn nalgylch y llys sy'n cau' gan fod hyn yn asesu'r effaith ar ddefnyddwyr yn well.

Gwasanaeth Erlyn y Goron

2.19. Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r fethodoleg arfaethedig, ond yn gyffredinol y farn oedd nad oedd y fethodoleg yn ystyried ffactorau pwysig ychwanegol, gyda rhai o'r rhain wedi'u crybwyll yng nghwestiwn 1, sef: cost, ffactorau ymarferol ymweld â'r llys (fel yr angen i fod yn bresennol awr cyn amser cychwyn y gwrandawriad); hyd y treial (gall bara am sawl diwrnod); a'r posibilrwydd y byddai defnyddwyr yn anghyfarwydd â'r ardal roeddynt yn teithio iddi. Mi wnaeth un aelod o'r cyhoedd adrodd am eu profiadau o deithio i'r llys:

... nid amseroedd teithio yw'r unig ffactor. Cafodd nifer o fy gwrandawiadau eu gohirio, a finnau wedi gwneud trefniadau a thalu am docynnau i deithio i'r llys yn barod. Hefyd, doeddwn i ddim yn gallu cyfarfod â [sic] ar sail pro bono oherwydd costau teithio, roedd gen i ddau wrandawriad yn yr un wythnos, felly doeddwn i ddim yn gallu fforddio talu am gynrychiolaeth.

Aelod o'r cyhoedd

2.20. Bu i'r Public Law Project (PLP), elusen genedlaethol, wneud y sylw canlynol:

...Nid yw edrych ar amseroedd teithio yn unig yn ddigonol ar gyfer yr ymarfer hwn. Rhaid cynnal ymchwil trylwyr ar faterion fel effaith amseroedd teithio hirach ar barodrwydd defnyddwyr llys, gan gynnwys hawlwr, diffynyddion a thystion, i ddod i'r llys yn bersonol...Mae angen archwilio i faterion eraill, fel costau, yn ofalus hefyd. Trwy gydol y ddogfen ymgynghori, nid oes sôn am effaith costau teithio ar ddefnyddwyr llys...

...er enghraifft, mae PLP yn nodi yn yr arolwg 'Life Opportunities' a gynhaliwyd yn 2011 gan y Swyddfa dros Faterion Anabledau, fod 29% o oedolion gydag anhwylderau wedi nodi bod cludiant cyhoeddus yn rhwystr i gyflogaeth, a bod rhwystrau yng nghyswllt defnyddio bysiau a threnau yn cynnwys costau ariannol, y gwasanaethau oedd ar gael yn lleol, ac anawsterau gyda cheisio cyrraedd gorsafoedd neu safleoedd.

Public Law Project

2.22. Maes allweddol arall i ymatebwyr oedd yr angen i ddefnyddio gwybodaeth leol o amseroedd teithio a mynediad. Er enghraifft, dywedodd un aelod o'r farnwriaeth:
"Pleased to hear that you propose to check your model with people who have local knowledge".

Barnwr

2.21. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylid sefydlu grwpiau defnyddwyr pan fydd cynigion i gau llysoedd yn cael eu cyflwyno, i drafod mynediad ac amseroedd teithio a chanfod unrhyw ffactorau byd go iawn perthnasol. Honnwyd fod Google Maps yn ffynhonnell wybodaeth annibynadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a defnyddiwyd Cymru fel enghraifft:

Mae amseroedd teithio yng Nghymru yn aml yn hirach nac yn rhannau eraill o'r wlad oherwydd y

ddaeryddiaeth ac oherwydd bod cludiant cyhoeddus yn rhedeg yn anaml mewn llawer o ardaloedd, sy'n gwneud y dasg o gyfrifo amseroedd teithio yn anodd. Mae ystyried elfennau ymarferol trafndiaeth yn hanfodol, yn hytrach na thrafod posibiliadau damcaniaethol.

Cymdeithas Barnwyr Cymru

Ymateb – cwestiynau 1 a 3 gyda'i gilydd

Travel time benchmark

- 2.22. Mae'r pwyntiau a wnaed gan lawer o ymatebwyr, sef gofyn am ragor o eglurder yng ngeiriad y meincnod, yn bwyntiau dyls. Wrth ystyried mesur a fyddai'n cynnwys y boblogaeth i gyd, rydym wedi adeiladu ar, ac addasu ein hegwyddor wreiddiol o ran teithio i'r llys ac yn ôl o fewn diwrnod. Mae'r egwyddor nawr yn cydnabod fod rhaid i deithiau i'r llys ac yn ôl fod yn rhesymol. Wrth bennu beth sy'n rhesymol, rydym yn cynnig cychwyn gyda diffiniad mwy penodol, sef y dylai fod y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr yn gallu teithio i ac o'r llys trwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus, gan gychwyn o adref dim cynharach na 7.30am, a dychwelyd adref dim hwyrach na 7.30pm. Ar gyfer y mwyafrif o ddefnyddwyr, ac ar gyfer llawer o fathau o wrandawiadau, disgwyliwn y bydd amseroedd cychwyn yn hwyrach a bydd amseroedd gorffen yn gynharach. Bwriad y paramedrau hyn yw cynnwys amrywiaeth eang o fathau o wrandawiadau a gwahanol fathau o ddefnyddwyr.
- 2.23. Nid ydym wedi mynd mor bell â dweud y dylai fod pob un defnyddiwr yn gallu teithio i bob un math o wrandawiad o fewn yr amseroedd cychwyn a gorffen hyn, oherwydd bydd yna rai amgylchiadau penodol iawn lle gwyddwn na fydd hynny'n digwydd – gan gynnwys rhai o'r bobl hynny sy'n mynychu gwrandawiadau mewn awdurdodaethau arbenigol, lle mae nifer cyfyngedig o leoliadau gwrandawiadau yn genedlaethol; a'r rhai hynny sy'n byw mewn lleoliadau anghysbell.
- 2.24. Bydd ein proses o fesur amseroedd teithio ond yn ymwneud ag amseroedd teithio i lysoedd lleol a ni fydd yn ystyried pobl fydd yn teithio tu hwnt i'w dalgylch arferol. Er enghraifft, gall hyn ddigwydd oherwydd eu bod wedi'u cyhuddo o gyflawni trosedd pan oeddynt i ffwrdd o gartref, wedi bod yn dyst i drosedd i ffwrdd o gartref, neu lle mae dau barti i achos yn byw mor bell i ffwrdd o'i gilydd nad oes llys sy'n lleol i'r ddau barti. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio tuag at ddefnyddio technoleg cyswllt fideo yn amlach i allu cynnig opsiynau ychwanegol mewn achosion o'r fath i leihau'r angen i deithio pan fydd barnwyr yn cytuno ei fod yn addas
- 2.25. Wrth ymateb i'r awgrym i bennu "lefel dderbyniol" ar gyfer y boblogaeth a all gyrraedd y llys, credwn y byddai unrhyw ffigur a ddewisir yn fympwyol a bydd yn ein tynnu i ffwrdd o'n prif bwynt cychwyn, sef, oni bai am yr amgylchiadau a'r eithriadau a nodir uchod, dylai fod pawb yn gallu cael mynediad at lys neu dribiwnlys.
- 2.26. Mae'n bwysig amlygu bod ein hystad llysoedd yn parhau i fod yn hygyrch i'r mwyafrif o bobl. Mae agosrwydd adeiladau GLITEM i leoliad GLITEM arall - o'r 332 o adeiladau llys a thribiwnlys gweithredol sy'n darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb, mae 245 o fewn 5 milltir, mae 280 o fewn 10 milltir, ac mae 304 o fewn 15 milltir o leoliad GLITEM arall - sy'n golygu na fydd y mwyafrif o ddefnyddwyr yn wynebu teithiau hirfaith. Mae symud at ganolbwyntio ar leoliadau strategol allweddol yn golygu y bydd gan yr ardaloedd sydd â phoblogaethau mwy fynediad gwell at adeiladau llys ac adeiladau tribiwnlys o ansawdd gwell.
- 2.27. 2.29. Ar ôl sefydlu ein safbwynt o ran terfynau rhesymol ar gyfer asesu effeithiau amseroedd teithio, rydym wedi cynnal asesiad o'r hyn mae'n ei olygu ar gyfer defnyddwyr cyfredol ystad y llysoedd. Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddata amseroedd teithio gan Google ac ar ardaloedd poblogaeth (yn seiliedig ar ddata cyfrifiad) ardal gynnyrch ehangach haen ganol (MSOA), gan edrych ar y gyfran o bobl yng Nghymru a Lloegr sy'n gallu teithio i'w llys lleol ac yn ôl (ar ôl cyhoeddiadau am gau llysoedd) mewn car neu ar gludiant cyhoeddus. Mae'r tabl isod yn dangos, fesul awdurdodaeth, y gyfran o'r boblogaeth sy'n gallu cyrraedd y llys erbyn 9.30am, 10.30am a 11.30am yn genedlaethol ar gludiant cyhoeddus, gan adael eu cartrefi ddim cynharach na 7.30am. Ceir cyfrannau hefyd ar gyfer amseroedd dychwelyd gartref erbyn 7.30pm, wrth gychwyn adref am 3.30pm, 4.30pm a 5.30pm.

Cludiant cyhoeddus	Llys Ynadon	Llys Sirol	Llys y Goron	Tribiwnlysoedd
9:30am	95%	95%	92%	93%
10:30am	98%	98%	97%	97%
11:30am	98%	98%	98%	98%

Cludiant cyhoeddus	Llys Ynadon	Llys Sirol	Llys y Goron	Tribiwnlysoedd
3:30pm	98%	98%	98%	98%

4:30pm	98%	98%	97%	97%
5:30pm	95%	96%	93%	93%

- 2.28. Mae'r ffigyrau hyn yn dangos byddai ein diffiniad o daith resymol yn berthnasol i'r mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae ein hegwyddor newydd yn cydnabod na ddylai ein hasesiad o effaith newidiadau i ystad y llysoedd yn y dyfodol ar fynediad at gyfiawnder ganolbwyntio ar hyd teithiau ac amseroedd cychwyn a gorffen yn unig. Mae angen ystyried ffactorau eraill hefyd (gweler isod), a gall y ffactorau hyn effeithio ar yr hyn a ystyrir yn rhesymol..
- 2.29. Mewn ymateb i'r awgrym y dylwn ni bennu terfyn amser ar gyfer teithio, megis 90 munud, mae mynychu gwrandawriad llys neu wrandawriad tribiwnlys yn achlysur anghyffredin i'r mwyafrif o ddefnyddwyr, ac mae yna amrywiaeth fawr o awdurdodaethau a sefyllfaoedd posibl, a bydd ein hasesiad o'r hyn sy'n rhesymol yn cael ei effeithio gan hyn. Byddai'n anghymesur i gymryd yn ganiataol y byddai unrhyw un sy'n teithio i wrandawriad yn gallu gwneud hynny o fewn 90 munud. Bwriedir i'n paramedrau bennu ffin allanol rhesymol ar gyfer ystyried effeithiau amseroedd teithio ar draws yr amrywiaeth o fathau o achosion posibl.

Ffactorau eraill yn yr asesiad o'r effeithiau ar fynediad at gyfiawnder

- 2.30. Rydym yn cytuno â'r dadleuon a wnaed, sef y dylai ein hegwyddor ystyried amrywiaeth o ffactorau perthnasol eraill. Mae ein hegwyddor newydd yn cydnabod nad yw ein hasesiad o effaith y newidiadau i ystad y llysoedd ar fynediad at gyfiawnder wedi'i gyfyngu i ddadansoddi amseroedd teithio ac amseroedd cychwyn a gorffen. Rhaid hefyd ystyried cost a chymhlethdod y daith (er enghraifft, nifer y newidiadau sydd angen eu gwneud) ac amgylchiadau'r gwahanol fathau o achosion a'r defnyddwyr sy'n rhan o'r achos (er enghraifft, yr effaith ar ddefnyddwyr anabl). Felly, byddwn yn cynnal asesiadau manwl o'r cynigion ar sail bob llys unigol, gan gydnabod amgylchiadau ac anghenion gwahanol ddefnyddwyr posib.
- 2.33. *Byddwn yn ystyried y mathau o achosion a wrandawir yn yr adeilad a gynigir i'w gau, a fydd yn ei dro yn effeithio ar y posibilrwydd o orfod gwneud yr un daith sawl gwaith ar gyfer treial dros sawl diwrnod (pwynt a godwyd yn rhai o'r ymatebion), o'i gymharu â mathau o wrandawriadau sy'n fyrrach, neu'n cael eu cwblhau o fewn yr un diwrnod. Bydd oriau agor yr adeilad a gynigir i'w gau hefyd yn cael ei ystyried. Bydd ein hasesiad hefyd yn ystyried y mathau o ddefnyddwyr a fydd yn cael eu heffeithio, er enghraifft, p'un a oes Llys Ieuentid yn weithredol yn yr adeilad neu a yw gwrandawriadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant yn cael eu cynnal yn yr adeilad. Bydd agosrwydd yr adeiladau a gynigir i ymgymryd â gwaith y llys neu'r tribiwnlys sy'n cau, a'r cyfleusterau sydd ar gael ynddynt, yn cael eu hystyried. Hefyd, byddwn yn ystyried p'un a fydd yn briodol ymdrin â'r gwrandawriadau dan sylw mewn ffordd wahanol yn y dyfodol, efallai gan ddileu'r angen i deithio; bydd hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o newid, a ni fydd yn cael ei gymryd yn ganiataol. Bydd anghenion defnyddwyr bregus yn cael eu hystyried yn benodol fel rhan o'n hasesiad, ac mae ein hymrwymiad i hyn wedi'i nodi o fewn ein hegwyddor newydd, fel y'i pennir uchod ym mharagraff 3.5.*

Asesiadau byd go iawn

- 2.31. I gefnogi ein hystyriaeth o sut all cynnig i gau llys effeithio ar amseroedd teithio, byddwn yn cynnal asesiadau amseroedd teithio 'byd go iawn' wrth ystyried cau llys. Bydd y rhain yn defnyddio meddalwedd sy'n cynnal dadansoddiad cyfanredol o amseroedd teithio go iawn (gan gynnwys oedi ar gyfartaledd, amseroedd cysylltu (e.e. o un trê'n i'r trê'n nesaf, ac ati) sy'n berthnasol i'r amseroedd priodol mewn diwrnod neilltuoel. Yn y dyfodol, bydd y rhain yn ystyried ystod ehangach o drefi a phentrefi lleol o fewn dalgylch y llys a gynigir i'w gau (o leiaf 20) a byddant yn cael eu rhestru yn ôl maint poblogaeth. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cymhlethdod teithiau ar gludiant cyhoeddus (gwahanol ddulliau o drafndiaeth) a'u cost. Er enghraifft, bydd gwahaniaethau o ran pryd mae gwasanaethau bysiau ar gael ledled y wlad yn cael eu cynnwys yn y dull hwn. Byddwn yn cynnal asesiad o'r teithiau hyn i amlygu meysydd sy'n peri pryder ynghyd ag esboniad o ddulliau lliniaru posibl y gallwn eu rhoi ar waith mewn achosion o'r fath. Bydd ein hasesiadau yn parhau i ddibynnu ar wybodaeth leol, fel y pwysleiswyd gan nifer o ymatebwyr. Mae'r dull hwn wedi'i gynnwys o fewn ein hegwyddor ystadau newydd fel a ganlyn:

Asesu effaith cau llysoedd ar amseroedd teithio trwy ddefnyddio dulliau modelu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac enghreifftiau byd go iawn o amseroedd a chostau teithio arferol ar gyfer y llysoedd hynny a gynigir fel rhai i'w cau, gan ddefnyddio gwybodaeth leol.

- 2.32. S2.35. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu nad oedd defnyddio amseroedd teithio o ffynhonnell ar-lein fel Google yn adlewyrchu'r byd go iawn. Ein safbwynt ni yw bod y data yn cynnwys cyfraniadau gan filoedd o ddefnyddwyr go iawn ac mae'n cynrychioli amcangyfrif rhesymol a chymesur o amseroedd teithio. Bu i'r Adran Drafndiaeth ddileu eu gwefan cynllunio teithiau yn 2014, gan fod cymaint o ffynonellau amgen dibynadwy ar gael (gan gynnwys Google Maps) ar y we. Roedd y penderfyniad i ddileu'r dudalen yn ganlyniad i waith a wnaed gan y Llywodraeth i annog gweithredwyr trafndiaeth i ddarparu eu data amserlenni am ddim i ddatblygwyr gwefannau. Credwn y bydd ein dadansoddiad fesul llys o effeithiau

amseroedd teithio yn darparu asesiad cadarn.

- 2.33. Yn y lleoliadau hynny lle bo asesiad yn dod i'r casgliad y gallai fod nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn gorfod teithio'n bellach na'r meincnod a bennir gennym (neu lle mae teithiau yn ymddangos yn afresymol gymhleth neu'n gostus) petai adeilad yn cau, byddwn un ai'n peidio â chau'r adeilad, neu'n trefnu darpariaeth amgen o safon (os oes rhesymau dilys eraill dros gau'r adeilad). Mewn lleoliadau lle mai nifer bychan iawn o ddefnyddwyr fyddai'n gorfod teithio'n bellach na'r meincnod a bennir gennym, ond mae'r rhesymau o blaid cau yn rhai cadarn ar y cyfan, byddwn yn ystyried dulliau lliniaru i leihau'r effaith posibl. Er enghraifft, lle nad oes modd i ddefnyddiwr llys gyrraedd y llys erbyn 10am, byddai amser gwrandawriad hwyrach yn cael ei gynnig (gyda chytundeb barnwr)..
- 2.34. Bu i lawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gwestiynu'r effaith byddai ein hegwyddor yn ei chael ar bobl anabl, neu unigolion sy'n cael anawsterau'n teithio; er enghraifft, y rhai hynny sydd â chyfrifoldebau gofal, yr henoed ac unigolion sydd ar incwm isel. Yn ogystal ag ystyried amseroedd teithio o fewn ein paramedrau newydd, sef 7.30am - 7.30pm, yn ein hasesiad, bydd ein hegwyddorion newydd ar fynediad at gyfiawnder hefyd yn ystyried yr effeithiau ar gost a chymhlethdod y daith (er enghraifft, nifer y newidiadau sydd angen eu gwneud). Ochr yn ochr â'r ffactorau hyn, byddwn yn edrych ar ba dulliau lliniaru sydd ar gael ac sy'n berthnasol i ddefnyddwyr a effeithir gan y llys sy'n cau. Mae dulliau lliniaru, sydd hefyd yn cael eu trafod yn y datganiad cydraddoldeb (Atodiad D), yn cynnwys::
- darparu arweiniad ar y lleoliad, cyfarwyddiadau i gyrraedd y lleoliad, a'r cyfleusterau a'r darpariaethau sydd ar gael yn y ganolfan wrandawriadau. Os nad yw'r cyfleusterau priodol ar gael, yna gellir gwneud trefniadau trwy gysylltu â'r llys i bennu addasiadau rhesymol, gan gynnwys, lle bo angen, defnyddio lleoliad amgen.
 - darparu gwybodaeth ar sut i gychwyn hawliad, apêl neu wneud cwyn, a darparu gwybodaeth am wasanaethau ar-lein (e.e. Hawlio Arian Ar-lein a Hawliadau Meddiannu Ar-Lein), i gynorthwyo mynediad hyd at y gwrandawriad a helpu i leihau'r angen i deithio a all fod yn angenrheidiol fel arall, a
 - rhoi addasiadau rhesymol yng nghyswllt anabled ar waith; er enghraifft:
 - adnabod meysydd parcio bathodyn glas sy'n agos at y llys a fydd yn ymgymryd â gwaith y llys sy'n cau
 - caniatáu defnyddwyr gydag anabledau i ddefnyddio'r maes parcio staff lle bo angen
 - ystyried lleoliad amgen lle bo mynediad at yr adeilad yn peri problemau
 - ystyried amseroedd cychwyn hwyrach
 - Darparu Gwasanaethau Digidol â Chymorth i gefnogi defnyddwyr nad ydynt yn gallu delio â gwasanaethau ar-lein yn dda, i ddiwallu eu hanghenion mynediad at wasanaethau digidol. Byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer defnyddwyr sydd ag anabledau trwy sianelau amgen, gan gynnwys gwasanaethau wyneb yn wyneb, gwasanaethau dros y ffôn neu sianelau eraill (yn enwedig ar gyfer namau gweledol, namau medrusrwydd a namau ar y clyw).
- 2.35. Wrth ymateb i bryder ynghylch sut byddai cynigion yn y dyfodol yn effeithio ar blant a phobl ifanc, mae ein hegwyddor newydd yn ymrwymo'n benodol i ystyried yr effaith ar ddefnyddwyr bregus, a fydd yn cynnwys ystyried plant a phobl ifanc. Bydd ein hasesiad yn ystyried y mathau o achosion a'r gwaith a wrandewir mewn llys a gynigir i'w gau ac ystyried cyflwr y cyfleusterau sydd ar gael yn y llys sy'n cau a'r lleoliad(au) a gynigir i ymgymryd â gwaith y llys sy'n cau. Byddwn yn edrych yn ofalus ar leoliadau amgen ac amseroedd teithio lle byddai cynigion i gau llys yn golygu y byddai llys ieuencid yn cau, ac asesu'r effaith ar deithio yn ofalus. Bydd cost teithiau hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad hwn, fel y nodir yn ein hegwyddor newydd.

Lleoliadau strategol

- 2.36. Mae lleoliadau cyfredol ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd ledled y wlad yn glytwaith o adeiladau sydd wedi ehangu ac esblygu dros y blynyddoedd. Wrth asesu ble yw'r lleoliadau gorau ar gyfer ein hadeiladau yn yr 21ain ganrif, mae angen inni ystyried ein hystad presennol, ond ystyried hefyd lle byddai unigolyn rhesymol yn lleoli'r llysoedd petai'r llysoedd yn cael eu sefydlu am y tro cyntaf. Yn seiliedig ar asesiad o'r fath, byddwn yn canolbwyntio ar leoliadau strategol lle gall y nifer mwyaf o bobl gael y mynediad gorau at gyfiawnder
- 2.37. 2.40. Deallwn fod ymatebwyr yn pryderu am yr hyn maent yn ei ystyried yn symudiad i ffwrdd o gyfiawnder lleol. Mae'r ffigyrau a ddarperir ym mharagraff 3.28 uchod yn dangos y bydd y mwyafrif (74%) o'n hadeiladau o fewn pum milltir i leoliad GLITEM arall. Nid ydym yn ystyried y dylai 'cyfiawnder lleol' wastad olygu cadw llys mewn lleoliad lle, yn hanesyddol, mae llys wastad wedi'i lleoli yno. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y dylai cyfiawnder parhau i gael ei ddarparu'n lleol, a chredwn y bydd pennu paramedrau amseroedd teithio i asesu effaith cynigion yn y dyfodol yn cefnogi hyn.

2.41. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn teimlo bod angen rhoi ystyriaeth arbennig i ddiodefswyr a thystion. Rydym wedi cynnwys geiriad yn ein hegwyddor ar leoliadau strategol sy'n cadarnhau ein hymrwymiad i ystyried anghenion diodefswyr, tystion a defnyddwyr bregus, fel a ganlyn:

- Cynnal ac ymestyn presenoldeb GLITEM mewn lleoliadau strategol allweddol i ddiwallu anghenion cyfran fwy o'r boblogaeth, gan ystyried anghenion defnyddwyr ac yn enwedig diodefswyr, tystion ac unigolion bregus

2.38. Rydym yn deall, wrth i ni ddatblygu cynigion ar gyfer y posibilrwydd o gau llysoedd, fod yn rhaid i ni ystyried y goblygiadau y gall cau llysoedd ei gael ar bartneriaid sector cyhoeddus. Yn benodol, pan fyddwn yn datblygu cynnig unigol i gau llys, byddwn yn ystyried a oes angen cynnal asesiad beichiau newydd er mwyn rhoi ystyriaeth i'r goblygiadau posibl i'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol. Cydnabyddwn hefyd bwysigrwydd ein gwaith a phartneriaethau ag asiantaethau eraill sy'n darparu gwasanaethau'n lleol i ddefnyddwyr. Rydym wedi datblygu'r egwyddor ganlynol i ddangos ein hymrwymiad i wneud hyn:

- Deall a chefnogi ein rhanddeiliaid, gan gynnwys asiantaethau eraill y llywodraeth megis Gwasanaeth Erlyn y Goron, gwasanaethau cymdeithasol, heddluoedd, awdurdodau lleol a Cafcass.

Methu â bod yn bresennol

2.39. Gan mai ein strategaeth yw cyfuno ein hystad o fewn canolfannau strategol, mae'n addas cydnabod y cwestiynau a godwyd gan rai yn holi p'un a oes cydberthynas rhwng cau llysoedd a chynnydd yn nifer y gwarantau methu â bod yn bresennol a godir. Mae gan GLITEM ddata sy'n dangos cyfraddau'r diffynyddion sydd wedi methu â bod yn bresennol yn erbyn nifer y llysoedd a thribiwnlysoedd sydd wedi cau ym mhob blwyddyn. Nid oes cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y gwarantau methu â mynychu a godir mewn gwrandawliadau yn dilyn y rhaglen fawr i gau llysoedd yn 2011/12. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth inni ddatblygu cynigion pellach ar gyfer ystad y llysoedd.

Llysoedd Ynadon – Gwarantau Methu â Bod yn Bresennol (FTA)¹

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Cenedlaethol	115,490	109,521	95,234	94,540	92,983	92,862	93,317

Canolbwyntio ein buddsoddi

2.40. Ein bwriad yw sicrhau bod ein hadeiladau yn addas i'r pwrpas ac yn galluogi pawb i gael mynediad at wasanaethau cyfiawnder. Mae'r arian sydd gennym ar gyfer cynnal a gwella ein hadeiladau yn gyfyngedig ac felly byddwn yn wynebu dewisiadau anodd o dro i dro o ran lle y dylwn ei fuddsoddi. Felly, rydym wedi ychwanegu egwyddor arall dan y pennawd 'darparu gwerth am arian', sydd hefyd yn berthnasol i fynediad at gyfiawnder, i ddangos, lle bo'n briodol ac yn unol ag egwyddorion eraill, byddwn, fel rheol, yn dymuno buddsoddi mewn, a moderneiddio'r lleoliadau hynny a fydd yn darparu'r opsiynau mynediad orau ac yn diwallu anghenion yr holl ddefnyddwyr. Mae'r egwyddor newydd fel a ganlyn:

- Canolbwyntio ein buddsoddi ar yr adeiladau hynny a fydd yn gallu darparu mynediad ar gyfiawnder orau a diwallu anghenion defnyddwyr orau.

Sylwadau eraill

2.41. Codwyd pwynt pellach gan rai o'r ymatebwyr ynghylch y sail dystiolaeth ar gyfer ein honiad y byddai moderneiddio yn arwain at leihad yn nifer y gwrandawliadau sy'n gofyn i unigolion fod yn bresennol yn yr adeilad llys neu'r adeilad tribiwnlys. Wrth gynnig cau llys lle rydym yn rhagweld y bydd y mentrau diwygio yn cael eu rhoi ar waith (a'r newid cysylltiedig o ran y baich gwaith yn y llys neu ymddygiad cwsmeriaid) byddwn yn darparu manylion a thystiolaeth o hyn o fewn y cynigion ymgynghori. Mae ein dull tuag at ymgynghori yn cael ei grybwyll bellach ymlaen yn yr ymateb hwn, yn Rhan 8.

2.42. Rydym wedi gwrandao ar y pryderon a godwyd ynghylch amseroedd teithio a sut y dylwn asesu eu heffaith yn y dyfodol. Credwn fod ein hegwyddorion newydd ar gyfer mynediad at gyfiawnder yn ein galluogi i gynnal archwiliad llymach

1 Figures are for warrants issued in Criminal Proceedings for failing to attend Court, as well as those issued for failing to comply with the requirements of a Community Order. Figures are based on cases rather than defendants which means that where a defendant has more than one case for which a warrant is issued, each instance will be counted. Data is based on the most serious offence type on a case when it is registered on the HMCTS Libra Case Management system, and where a warrant is issued at different hearings for the same case, each issuance will be counted

sydd wedi'i ddiffinio'n well, i asesu effaith amseroedd teithio o ganlyniad i'r posibilrwydd y bydd llys yn cau, gan ystyried yn benodol amrywiaeth o ffactorau fel mater o egwyddor a chydabod y profiadau a'r problemau amrywiol mae ein defnyddwyr yn eu hwynebu.

- 2.43. Wrth gynnig cau llys, byddwn yn cynnal asesiadau cydraddoldeb i bennu'r effaith ar yr henoed ac unigolion sydd ag anableddau ac asesu'r graddau y gallwn roi prosesau lliniaru ar waith i gefnogi defnyddwyr lle bo angen, fel pennu amseroedd cychwyn hwyrach ar gyfer gwrandawiadau. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth leol o'r ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig i gau'r llys, i sicrhau bod gennym yr wybodaeth fwyaf cywir, cyfredol a pherthnasol ynghylch profiadau byd go iawn o deithio. Ceir rhagor o fanylder am ein gwaith ar effeithiau ar gydraddoldeb yn Rhan 9 yr ymateb hwn.
- 2.44. Mae cryfder yr ymatebion a gafwyd yn dangos, bydd dadansoddi a phennu effeithiau newid amseroedd teithio ar ddefnyddwyr o ganlyniad i gynnig i gau llys, yn parhau i fod yn hollbwysig ar gyfer ein hasesiad o unrhyw gynnig i gau llys. Bydd rhaid ystyried yr effaith ar y farnwriaeth leol, ynadon a staff ynghyd ag ystyried anghenion y cyhoedd a defnyddwyr proffesiynol. Credwn fod ein hegwyddorion newydd ar gyfer mynediad at gyfiawnder, ynghyd â'r egwyddorion hynny a fydd yn cael eu hesbonio ym mhennod nesaf yr ymateb hwn, yn sicrhau ein bod yn parhau i gynnal asesiad cynhwysfawr, gwrthrychol a theg o effaith cynigion ar fynediad at gyfiawnder yn y dyfodol.

3. Lleoliadau eraill a darpariaeth amgen i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd

Summary

- 3.1. Yn y ddogfen ymgynghori, bu inni esbonio, ynghyd â'n lleoliadau strategol, bod arnom angen trefnu darpariaeth i gefnogi lleoliadau eraill, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sydd â phoblogaethau llai, i sicrhau bod mynediad at gyfiawnder yn cael ei gynnal mewn ardaloedd lle gall cysylltiadau trafniadaeth fod yn wael. Bu inni fanylu ar sut all hyn gael ei gyflawni, trwy gadw rhai o'n llysoedd a'n tribiwnlysoedd sydd mewn lleoliadau anghysbell, er mae'n bosib nad ydynt yn cael eu defnyddio llawer, neu fod ganddynt llai o gyfleusterau o'u cymharu â'n llysoedd a'n tribiwnlysoedd mwy.
- 3.2. Bu inni nodi hefyd y byddwn, fel dewis arall, yn ystyried darpariaeth amgen i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd trwy ddefnyddio adeiladau nad ydynt yn rhan o ystad GLITEM i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion defnyddwyr lle mae ffactorau fel diffyg mynediad at gludiant cyhoeddus, diffyg symudedd neu galedi ariannol yn golygu na allant deithio i adeilad llys neu dribiwnlys. Mewn rhai achosion, bydd darpariaeth amgen yn cynnwys defnyddio adnodd cyswllt fideo, gan alluogi dioddefwyr a thystion i fod yn bresennol o leoliad arall trwy gyswllt fideo i gymryd rhan mewn gwrandawriad. Ambell waith, gall y cysylltiadau fideo hyn gael eu cynnal mewn lleoliad nad yw'n adeilad GLITEM.
- 3.3. Bu inni roi enghreifftiau o sut oedd darpariaeth amgen wedi cael ei ddefnyddio mewn prosiectau penodol hyd yma, ynghyd â phennu'r meini prawf a gynigir gennym i asesu addasrwydd lleoliad ar gyfer ei ddefnyddio i gynnis darpariaeth amgen. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys:
 - sicrhau bod y lleoliad wedi'i alinio ag egwyddorion y Canllaw Dylunio ar gyfer y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd; sef ei bod yn briodol, yn effeithiol, yn hyblyg, yn gynaliadwy ac yn hygyrch ar gyfer y gwrandawriadau a gynhelir yno;
 - sicrhau bod y lleoliad yn bodloni safonau diogelwch pobl ac eiddo, gan ddarparu amgylchedd diogel;
 - sicrhau bod y lleoliad yn gost-effeithiol, a;
 - sicrhau bod gan y lleoliad yr adnoddau TG iawn ar gyfer y math o wrandawriad dan sylw.
- 3.4. Tra bod rhestru achosion i'w cynnal mewn lleoliad darpariaeth amgen yn ddibynnol ar gyfarwyddyd gan farnwr, disgwyliwn y bydd gan ddarpariaeth amgen rôl i'w chwarae i sicrhau bod ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn hygyrch.
- 3.5. Felly, roedd yr ail gwestiwn yn y ddogfen ymgynghori yn ceisio barn yng nghyswllt defnyddio adeiladau llys a thribiwnlys amgen, nad oedd yn eiddo GLITEM na'n cael eu prydlesu yn barhaol gan GLITEM. Darperir dadansoddiad o'r barnau a gafwyd, ynghyd â'n ymateb, yn y bennod hon..
- 3.6. Wedi'i chyfarwyddo gan ein dadansoddiad o'r adborth ar yr ymgynghoriad, mae ein hegwyddor newydd ar gyfer defnyddio darpariaeth amgen, sy'n syrthio dan y pennawd, Mynediad at Gyfiawnder, fel a ganlyn:
 - Lle'i ddefnyddir, mae'n rhaid i ddarpariaeth amgen, sy'n golygu darparu gwasanaethau llys a thribiwnlys y tu allan i ystad llysoedd GLITEM, fod yn ddiogel ac yn hygyrch ac adlewyrchu urddas ac awdurdod y llys. Wrth archwilio i bosibiliadau ar gyfer darpariaeth amgen, trwy gynyddu hygyrchedd a hyblygrwydd er budd defnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, byddwn yn sicrhau bod mathau o achosion priodol yn cael eu gwrandawrio mewn lleoliadau o'r fath.

Cwestiwn 2

Beth yw eich barn chi ar ddarparu gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd y tu allan i adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd traddodiadol? A oes gennych chi farn ar y dulliau yr ydym yn bwriadu eu mabwysiadu ac a oes yna gamau eraill y gallwn eu cymryd i wella hygyrchedd ein gwasanaethau?

- 3.7. O'r 249 o ymatebion a gafwyd, bu i 232 ohonynt ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r ymatebion wedi ystyried sawl agwedd ar y cynnig, ond roedd rhai eraill yn tueddu canolbwytio ar un maes penodol. Er enghraifft, roedd nifer o ymatebion yn canolbwytio'n benodol neu'n bennaf ar y problemau technolegol a all godi, tra roedd rhai eraill yn canolbwytio ar y defnydd, mewn egwyddor, o ddefnyddio adeiladau nad ydynt yn adeiladau llys a thribiwnlys traddodiadol. Roedd y cwestiwn yn ceisio canolbwytio ar ddefnyddio darpariaeth amgen, fe'i ddiffinnir fel dewis amgen neu ofod ychwanegol lle gellir cynnal neu gefnogi gwrandawriadau traddodiadol, trwy ddefnyddio dulliau gwaith cyfredol, ac nid ceisio defnyddio dulliau amgen newydd fel gwrandawriadau fideo, gwrandawriadau dros y ffôn, neu lysoedd ar-lein. Fodd bynnag, roedd nifer o'r ymatebion yn trafod gwrandawriadau dros y ffôn neu wrandawriadau drwy fideo, ac rydym wedi ymateb i'r pwyntiau hyn.
- 3.8. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd o blaid y cynnigion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori yn amrywio o ran pa agwedd ar y cynnig roeddynt yn ei chefnogi. Roedd rhai yn cefnogi cynnig gwasanaethau ar-lein gyda rhai eraill o blaid defnyddio

adeiladau nad oedd yn rhai traddodiadol, ac roedd rhai eraill eto yn gefnogol o'r ddau beth. Er enghraifft, dywedodd Age UK:

Mae Age UK yn cydnabod yr arbedion a'r buddion posibl i ddefnyddwyr llys trwy symud tuag at gynnal gwrandawiadau llys a thribiwnlys trwy gyswllt fideo. Gan ystyried y materion trafniadaeth a chyfeirir atynt uchod, mae'n debygol y byddai darparu gwasanaethau digidol yn cael ei groesawu gan rai defnyddwyr sy'n cael trafferth teithio i adeilad llys neu dribiwnlys.

Age UK

- 3.9. Bu i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Northampton ymateb yn gadarnhaol i'r cynnig i ddefnyddio adeiladau nad ydynt yn adeiladau llys traddodiadol

Rwy'n cefnogi'r cynnig i geisio gweinyddu cyfiawnder ar lefel mwy lleol trwy gynnal gwrandawiadau mewn adeiladau nad ydynt yn rhai traddodiadol. Dylid defnyddio adeiladau cymunedol i leoli cyfiawnder yn lleol cyn belled ag y bo modd, gan leihau effaith amseroedd teithio hir ar ddiodefwyr a thystion bregus, a symud i ffwrdd o ddefnyddio adeiladau a all fod yn frawychus i'r rhai hynny sydd erioed wedi ymweld â llys neu dribiwnlys o'r blaen.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Northampton

- 3.10. Roedd yr ymateb ar y cyd gan LawWorks a'r Partneriaid Strategaeth Cefnogi Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain yn gefnogol ar y cyfan o symud i ddefnyddio adeiladau nad ydynt yn rhai traddodiadol a defnyddio gwasanaethau ar-lein fwy::

Rydym yn cefnogi ffocws y Strategaeth ar ddarpariaeth amgen y tu hwnt i adeiladau llys traddodiadol a gwella hygyrchedd gwasanaethau GLITEM trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu o bell a defnyddio sianeli digidol.

LawWorks a'r Partneriaid Strategaeth Cefnogi Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain (ymateb ar y cyd)

- 3.11. Roedd rhai ymatebwyr o lysoedd ieuencid wedi awgrymu y byddai lleoliadau amgen yn fwy effeithiol ar gyfer achosion ieuencid gan eu bod yn llai brawychus, fel yn yr ymateb isod:

Byddem yn cefnogi'r defnydd o leoliadau amgen ar gyfer achosion ieuencid, yn enwedig lle byddai hyn yn osgoi'r angen i deithio'n bell i adeiladau llys. Byddai ystafelloedd addas mewn adeilad y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (YOS) yn un opsiwn...mae'n bwysig nodi y byddai'n well i achosion ieuencid fod yn fwy anffurfiol nag achosion yn y llys teulu, a all ei wneud yn haws i ddod o hyd i leoliadau addas.

Mainc Gorllewin Llundain

- 3.12. Roedd safbwynt rhai ymatebwyr eraill yn groes i hyn, a theimlwyd fod ymddangos yn y llys yn ffordd effeithiol i leihau cyfraddau aildrosedd gan bobl ifanc:

...ar gyfer troseddau ieuencid ac unigolion sydd gerbron y llys am y tro cyntaf, mae'r ymateb i sefyll gerbron mainc yn ffordd effeithiol iawn i leihau aildrosedd.

Aelod o'r cyhoedd

- 3.13. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn am ddarpariaeth amgen yn gefnogol mewn egwyddor, ond roedd amheuaeth o ran yr agweddau ymarferol o'i roi ar waith. Roedd nifer bychan o ymatebwyr yn negyddol iawn. Y thema fwyaf cyson ymysg yr ymatebwyr oedd yr angen i sicrhau bod unrhyw adeilad a ddefnyddir yn cynnal urddas, pwysigrwydd a mawredd adeilad llys. Defnyddiwyd y gair 'gravitas' yn aml gan ymatebwyr, ac roedd llawer yn teimlo bod y profiad gweledol o'r llys yr un mor bwysig ar gyfer darparu cyfiawnder ac o ran effeithiolrwydd y system gyfiawnder. Roedd pryderon y byddai hyn yn cael ei golli petai adeiladau nad ydynt yn rhai traddodiadol yn cael eu defnyddio.

- 3.14. 4.14. Y maes arall a oedd yn achos pryder i lawer oedd sicrhau y byddai unrhyw adeiladau yn ddiogel ac yn hygyrch ar gyfer yr holl bartion, gyda thechnoleg a chyfleusterau priodol mewn lle. Safbwynt a rannwyd gan lawer o'r ymatebwyr oedd y byddai lleoliadau amgen yn anaddas ar gyfer rhai mathau o achosion, er roedd barnau yn amrywio o ran y mathau o achosion y byddai'n dderbyniol. Roedd yn ymddangos fod yna gytundeb y dylai treialon gael eu cynnal mewn adeiladau llys traddodiadol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na ddylai achosion troseddol gael eu cynnal mewn lleoliadau amgen ac roedd y nifer helaeth yn derbyn bod gwaith teulu diwrthwynebiad a gwaith tribiwnlys yn fwy addas ar gyfer cyd-destun anffurfiol fel adeilad anhraddodiadol. Gwnaethpwyd sylw yn cyfleu'r safbwyntiau hyn gan ynad sydd wedi'i leoli'n Lerpwl:

Nid wyf yn credu y byddai'n briodol cynnal achosion troseddol mewn lleoliad o'r fath am nifer o resymau, gan

gynnwys:

- Diogelwch
- Mynediad at gyfleusterau gwarchodol/cludo troseddwy
- Cynnal urddas a threfn y llys
- Darparu ardaloedd addas i barhau i gadw dioddefwyr, tystion, diffynyddion a rheithwyr ar wahân.

Is-gadeirydd Mainc, Canolfan QEII Lerpwl

- 3.15. O ran mynediad a diogelwch, roedd llawer o feysydd i'w hystyried, fel yr angen i sicrhau bod gan unrhyw leoliad amgen fynediad llawn at dechnoleg gwybodaeth (TG) a chyfleusterau fideo gynadledda, ynghyd â chyfleusterau priodol i sicrhau bod gan ddiodeffwyr, tystion, apelyddion a rheithwyr ystafelloedd preifat, ar wahân, gan alluogi cynrychiolwyr cyfreithiol i roi cyngor yn gyfrinachol. Dadleuwyd y byddai'n rhaid i hyn gynnwys mynedfaoedd ac allanfeydd ar wahân ar gyfer y partion gwahanol a'r angen i sicrhau bod gan unrhyw leoliad amgen ddigon o staff. Nododd Cyngor ar Bopeth mai un o'r rhesymau mwyaf cyffredin pam y bydd unigolion yn cysylltu â'u Gwasanaeth Cefnogaeth i Dystion yw oherwydd bod partion yn teimlo'n bryderus am ddod ar draws yr unigolion maent yn rhoi tystiolaeth eu herbyn. Bu i lawer o ymatebwyr godi'r pwynt y byddai diffyg dociau diogel a manau dal diogel yn peri problem sylfaenol ar gyfer achosion penodol, a nodwyd y byddai'n rhaid cael rhwystr rhwng y barnwr a'r ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Nododd Cymdeithas y Gyfraith y byddai cael mynediad at ddogfennau a chadw dogfennau mewn lleoliadau pell yn broblem sylweddol.
- 3.16. Roedd pwyntiau eraill a godwyd yn canolbwyntio ar anhyblygrwydd darpariaeth amgen. Er enghraifft, nid yw lleoliadau o'r fath yn addas ar gyfer delio â chynnydd yn y llwyth gwaith a byddai'n rhaid rhoi gwybod ymlaen llaw am ddefnyddio cysylltiadau diogel. Honnwyd y byddai risg o oedi gyda rhestru achosion ar gyfer barnwyr a leolir yn y llysoedd lloeren neu'r llysoedd "dros dro", ynghyd ag aneffeithlonrwydd posibl o ganlyniad i symud barnwyr i ffwrdd o'r staff gweinyddol sy'n eu cefnogi. Er enghraifft:

...gall darparu gwasanaethau tribiwnlys i ffwrdd o'r adeiladau llys ac adeiladau tribiwnlys traddodiadol arwain at ddryswch a chostau ychwanegol ar gyfer unigolion sy'n mynychu'r tribiwnlys yn rheolaidd a staff GLITEM, gan arwain at debygiaeth uwch y byddai oedi ac aneffeithlonrwydd.

Sefydliad Siartredig o Weithredwyr Cyfreithiol / Chartered Institute of Legal Executives

Cysylltiadau fideo a thechnoleg

- 3.17. Ynghylch TG, gwrandawiaadau fideo a thechnoleg, mynegwyd pryderon ynghylch mynediad a sicrhau bod y rhai hynny nad ydynt yn gyfarwydd â gwasanaethau digidol yn cael y cymorth, bod ganddynt y sgiliau a'r offer maent eu hangen i ymwneud â'r system newydd trwy ddefnyddio'r dechnoleg newydd. Awgrymwyd y dylai defnyddwyr gael gwrandawiaadau fideo mewn lleoliad dynodedig, megis gorsaf heddlu. Er bod GLITEM yn gwneud hyn yn aml, roedd rhai ymatebwyr wedi dadlau na ddylid cynnal gwrandawiaadau fideo hyd nes bod y seilwaith angenrheidiol wedi'i sefydlu. Rhaid profi pob prosiect technolegol a chynnal cynllun peilot i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac er mwyn asesu eu heffaith ar gynnal a phrosesu achosion. Dywedodd Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai:

Rydym yn annog y llywodraeth i gynnal asesiad trylwyr o effaith llysoedd digidol ac ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid, gan gynnwys diffynyddion a charcharorion, cyn penderfynu p'un a fydd yn bwrw ymlaen â'r cynigion hyn.

Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai / Prison Reform Trust

- 3.18. Heb ddarparu gwybodaeth ategol, honnodd rhai o'r ymatebwyr na fyddai gwrandawiaadau fideo yn gyffredin iawn a ni fyddai'n cymryd lle bod yn bresennol yn bersonol, o ystyried yr anawsterau y byddai rhai defnyddwyr yn eu cael i gael mynediad at y rhyngwyd; hyd yn oed os oedd modd dyfeisio system oedd yn galluogi i ymgyfreithwyr dros ei hunain ddefnyddio'r gwasanaeth yn eu cartrefi.
- 3.19. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch effaith gwrandawiaadau fideo ar achosion. Roedd ymatebwyr eraill yn honni y byddai gan y rhai hynny oedd yn bresennol yn y llys yn bersonol fantais dros y rhai oedd yn bresennol trwy gyswllt fideo ac na fyddai defnyddwyr bregus yn cael cynrychioli eu hunain yn effeithiol trwy gyswllt fideo. Honnodd rai y byddai gwrandawiaadau fideo yn fwy costus na llysoedd traddodiadol.

Ymateb

- 3.20. Defnyddiodd yr ymatebwyr amrywiaeth o derminoleg wrth drafod technoleg fideo a darpariaeth amgen. Rydym wedi ystyried yr ymatebion o fewn dau faes ar wahân:
- Yr hyn rydym yn cyfeirio ati fel 'darpariaeth amgen', gwasanaeth a ddarperir o adeilad nad yw'n adeilad llys neu adeilad tribiwnlys traddodiadol. Gall hyn olygu cynnal gwrandawriad "traddodiadol" lle mae'r partïon yn bresennol mewn ystafell yn yr adeilad nad yw'n eiddo GLITEM neu nad yw wedi'i brydlesu gan GLITEM ar sail amser llawn, neu gall gynnwys defnyddio cyswllt fideo, sy'n galluogi i unigolyn fod yn bresennol o bell, i ffwrdd o'r llys neu'r tribiwnlys
 - Gwrandawriadau fideo, gwrandawriadau dros y ffôn a gwrandawriadau a gynhelir yn gyfan gwbl trwy gyswllt fideo, sy'n cael eu profi yn GLITEM ar hyn o bryd fel rhan o'r Rhaglen Ddiwygio Ehangach, ac sy'n golygu bod yr holl bartïon yn bresennol trwy gyswllt fideo. Er nad oedd y cwestiwn a ofynnwyd yn y rhan hon yn ceisio barn ar y maes hwn, mae'n amlwg o'r amrywiaeth o ymatebion a gafwyd fod ymatebwyr yn awyddus i ddeall mwy am wrandawriadau fideo a gwrandawriadau dros y ffôn. Felly, rydym wedi darparu ymateb i'r pwynt hwn.

Darpariaeth amgen

- 3.21. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o blaid yr egwyddor o ddarparu gwasanaethau penodol y tu allan i adeiladau llys ac adeiladau tribiwnlys traddodiadol, lle bo'n briodol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch sicrhau bod trefniadau diogelwch priodol mewn lle yn unrhyw leoliad a ddefnyddir, bod y lleoliad yn hygyrch a'i fod yn cynnal urddas ac awdurdod y llys. Cydnabyddwn y pryderon hyn ac ein polisi bydd sicrhau bod y cyfleusterau mwyaf priodol yn cael eu darparu ar gyfer y gwrandawriadau a gynhelir, a bod unrhyw leoliad a ddefnyddir yn cynrychioli urddas y llys mewn ffordd briodol
- 3.22. Ystyriwn mai rhai mathau o achosion tribiwnlys ac achosion teulu diwrthwynebiad fydd y mathau o achosion mwyaf priodol i'w hystyried i'w cynnal mewn adeiladau amgen. Mae hyn oherwydd y cyd-destun eithaf anffurfiol sydd ei angen i gynnal mathau penodol o achosion; ac weithiau gall lleoliad anffurfiol fod yn fanteisiol a lleihau lefelau straen a phryder mae'r bobl sy'n mynychu yn ei brofi. Mae rhai tribiwnlysoedd wedi bod yn defnyddio adeiladau y tu allan i ystad GLITEM yn llwyddiannus, a dymunwn i hyn barhau. Rydym hefyd yn agored i weithio'n agos â phartneriaid i ganfod lleoliadau addas ar gyfer mathau eraill o achosion lle all darpariaeth amgen fod yn addas.
- 3.23. Cytunwn nad yw gwrandawriadau lle mae'r diffynnydd yn y carchar yn gyffredinol yn addas i'w gwrandawro mewn adeiladau amgen. Er y byddai ambell i achos troseddol lefel isel o bosib yn addas i'w wrandawro trwy ddarpariaeth amgen, yn amodol ar gael y cyfleusterau priodol ac ymgynghori â'r farnwriaeth, efallai byddai modd delio ag achosion o'r fath ar-lein yn y dyfodol. Er enghraifft, ar hyn o bryd gallwch gofnodi ple ar-lein ar gyfer troseddau troseddol lefel isel, fel osgoi talu am docyn teithio Transport for London ac osgoi talu trwydded deledu. Mae'n bosibl y byddai modd ymestyn y drefn hon i droseddau eraill, yn amodol ar basio deddfwriaeth berthnasol. Wrth ystyried gwerth darpariaeth amgen i ddefnyddwyr, mae angen inni edrych ar ba waith a pha fathau o achosion sydd angen cael eu gwrandawro.
- 3.24. Gall ddarpariaeth amgen ein cynorthwyo i ddarparu system gyfiawnder effeithiol a hygyrch ac mae eisoes wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus mewn nifer o ardaloedd. Er enghraifft, fel yr amlygwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae Neuadd y Dref Cyngor Bwrdeistref Tunbridge Wells wedi bod yn cael ei defnyddio ar gyfer gwrandawriadau sifil bob dydd Mawrth ers Rhagfyr 2016. Defnyddir siambr y Cyngor i wrandawro achosion sifil megis achosion meddiannu ac achosion eraill sydd wedi cael eu pennu'n addas gan y farnwriaeth i'w gwrandawro yn y lleoliad hwn, gan gynnwys ceisiadau sifil syml. Roedd rhaid gwneud ychydig o addasiadau i'r lleoliad cyn ei ddefnyddio, er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion diogelwch eiddo a phobl GLITEM. Dros gyfnod o chwe mis rhwng mis Ebrill a mis Medi 2018, gwrandawwyd 46 achos ar gyfartaledd pob mis, gyda 41 ohonynt wedi'u trefnu ymlaen llaw.
- 3.25. Sefydlwyd darpariaeth amgen yn Neuadd Dref Kendal fel rhan o'r Prosiect Uno Ystadau. Mae'r lleoliad ar gael am un diwrnod y mis ar gyfer gwrandawriadau sifil ac un diwrnod y mis ar gyfer gwrandawriadau llys ynadon lle nad yw'r diffynnydd yn y carchar, fel troseddau traffig a thrwyddedau pysgota. Dros gyfnod o chwe mis rhwng mis Ebrill a mis Medi 2018, rhestrwyd achosion troseddol ar 2 o'r 6 diwrnod oedd ar gael, gan nad oedd digon o achosion addas wedi'u hadnabod ar gyfer eu rhestru. Cafodd achosion sifil eu rhestru ar 4 o'r 6 diwrnod oedd ar gael, ond ar gyfartaledd, nid oedd yr achosion yn para am y 5 awr a neilltuwyd iddynt.
- 3.26. 4.26. Mae Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Yr Alban yn gweithredu o leoliad darpariaeth amgen yng Nghirkaldy; mae GLITEM yn llogi Volunteer House yng Nghirkaldy, Fife, ac mae'n cael ei isosod gan y Sector Gwirfoddol. Mae GLITEM yn llogi ystafell benodol ac ystafell aros ar gyfer gwrandawriadau tribiwnlys yn unig. Mae modd defnyddio'r lleoliad hwn am hyd at bum diwrnod yr wythnos, yn amodol ar y galw, ac nid yw'n cael ei logi i ddefnyddwyr eraill ar yr un pryd. Mae'r lleoliad hwn yn gwrandawro achosion Apeliadau Nawdd Cymdeithasol ond ni ddefnyddir ef ar gyfer Apeliadau Cynnal Plant neu Apeliadau

Meddygol. Gwrandewir yr achosion hyn yng Nghaeredin gan fod angen ystafell asesu feddygol ar gyfer Apeliadau Meddygol ac ystafell aros ychwanegol ar gyfer achosion Cynnal Plant. Cynhaliwyd 161 o sesiynau yn y lleoliad hwn rhwng 1 Ebrill 2017 ac 31 Awst 2017 sy'n profi ei bod yn ganolfan brysur ac o werth.

3.27. Yn 2016, bu i GLITEM gynnal cynllun peilot mewn nifer o leoliadau darpariaeth amgen i brofi'r egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio i asesu eu defnydd yn y dyfodol ac unrhyw derfynau neu gyfyngiadau ar hyn. Gan ddefnyddio'r dadansoddiad o'r ymatebion a'r canfyddiadau o broses werthuso'r cynllun peilot darpariaeth amgen, rydym yn credu bod lle i archwilio i ddefnyddio darpariaeth amgen ar gyfer y mathau canlynol o wrandawiadau:

- gellir ei defnyddio ar gyfer gwaith sy'n cael ei gategoreiddio'n risg-isel, megis rhai gwrandawiadau sifil, tribiwnlysoedd, a gwrandawiadau teulu a gwrandawiadau ynadon diwrthwynebiad. Gellir parhau ei defnyddio ar gyfer achosion tribiwnlys lle mae darpariaeth amgen eisoes yn weithredol. Ni ystyrir yn addas ar gyfer achosion lle mae'r diffynnydd yn y carchar

Gan ystyried y mathau o wrandawiadau lle all darpariaeth amgen fod yn briodol, byddwn yn ystyried ei defnyddio yn yr amgylchiadau canlynol:

- gall ddarparu cefnogaeth i lysoedd a thribiwnlysoedd sy'n profi cynnydd dros dro yn y baich gwaith
- gellir ei defnyddio at ddibenion cadw'r busnes yn weithredol e.e. pan fydd llifogydd; a
- gellir darparu mynediad at gyfiawnder i gymunedau mewn ardaloedd lle mae mynediad at y llys neu'r tribiwnlys agosaf yn broblemus neu lle mae cysylltiadau trafndiaeth yn wael..

3.28. Wrth asesu p'un a yw darpar leoliad amgen yn addas i'w ddefnyddio yn unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir uchod, dylai ein hasesiad edrych ar dystiolaeth sy'n ystyried yr hyn a ganlyn:

- **Priodoldeb:** dylai unrhyw leoliad a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth amgen fod yn gallu cynnal unplygrwydd y broses o weinyddu cyfiawnder a chynnal urddas y llys yn briodol;
- **Diogelwch:** rhaid i unrhyw leoliadau amgen a ddewisir fodloni'r safonau diogelwch gofynnol a lle cynigir defnyddio lleoliad ar gyfer darpariaeth amgen, dylai GLITEM sicrhau bod mecanwaith llywodraethu mewn lle i gynnal y safonau hynny. Byddwn yn parhau i ddefnyddio lleoliadau GLITEM ar gyfer yr achosion hynny sy'n peri'r risgiau diogelwch mwyaf;
- **Ystyriaethau am y safle penodol:** mae profiad yn awgrymu, tra bod yna wersi cyffredin i'w dysgu wrth sefydlu darpariaeth yn llwyddiannus, nid oes un model ar gyfer darpariaeth amgen y gellir ei rhoi ar waith ar draws pob safle yn union yr un ffordd. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn sefydlu 'arfer gorau' safonol ar gyfer gwasanaethau o'r fath i sicrhau eu bod yn fuddiol i ddefnyddwyr. Felly, wrth sefydlu darpariaeth byddwn yn adnabod darpar gyfleuster a gweithio gyda rheolwyr safle i'w wneud yn addas ac yn ddiogel ar gyfer cynnal gwrandawiadau llys.
- **Cost-effeithiolrwydd:** gall darpariaeth amgen fod yn ffordd gost-effeithiol i ddarparu mynediad at gyfiawnder mewn lleoliad lle mae llys neu dribiwnlys yn cau a lle bydd yn fwy cynnil gwneud hyn na pharhau i redeg adeilad llys sy'n cael ei danddefnyddio. Fodd bynnag, efallai na fydd y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio amser barnwyr, os na fydd achosion yn mynd yn eu blaenau fel y'u trefnwyd. Efallai na fydd defnyddio darpariaeth amgen mewn ardaloedd anghysbell wastad yn gost-effeithiol o ran dyddiau eistedd, oherwydd diffyg yn y galw, a dylid ystyried hyn wrth gymharu opsiynau gwahanol ; a
- **Hygyrchedd:** sicrhau ein bod wastad yn ystyried anghenion defnyddwyr gydag anabledau yn ofalus iawn wrth asesu darpar leoliadau ar gyfer darpariaeth amgen.

3.29. Mae ein hegwyddor newydd ar gyfer darpariaeth amgen, a bennir ar ddechrau'r bennod hon, yn cynnwys ein bwriad i'w hystyried fel ffordd ychwanegol i gefnogi defnyddwyr a mynediad at gyfiawnder. Mae'r arweiniad a bennir uchod hefyd yn cyfarwyddo sut y byddwn yn ystyried ei rhoi ar waith, a'r cyfyngiadau a esboniwyd gennym.

Gwrandawiadau fideo a gwrandawiadau dros y ffôn

3.30. Er bod gwrandawiadau sydd gyfan gwbl trwy gyswllt fideo (a elwir yn wrandawiadau 'rhith' yn flaenorol) y tu hwnt i gwmpas cwestiwn 2, roedden ni'n dymuno cydnabod yr ymatebion a gafwyd i'r maes hwn a'r amrywiaeth o faterion a godwyd.

3.31. Rydym yn y camau cynnar o ddatblygu gwasanaethau gwrandawiadau fideo ar gyfer y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, ac

ym mis Medi 2018, bu inni gyhoeddi gwerthusiad o gynllun peilot bach yn y tribiwnlys treth a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn [gellir gweld rhagor o fanylion am ganfyddiadau'r cynllun peilot hwn: <<https://www.gov.uk/government/publications/implementing-video-hearings-party-to-state-a-process-evaluation>>]. Rydym yn cynllunio i gynnal rhagor o gynlluniau peilot i gefnogi ein prosesau datblygu.

- 3.32. Ar ôl ystyried nifer o achosion i'w cynnal trwy gyswllt fideo fel rhan o'r cynllun peilot, cynhaliwyd wyth gwrandawriad fideo. Roedd hwn yn gynllun peilot eithaf bach o ran nifer y gwrandawriadau, ac roedd y profi yn canolbwyntio ar brofiadau unigolion o gymryd rhan yn y gwrandawriad. Roedd canlyniadau'r cynllun peilot yn awgrymu bod lefelau bodlonrwydd defnyddwyr yn gyffredinol yn uchel, yn enwedig oherwydd y fantais ymarferol o beidio â gorfod teithio i adeilad llys. Adroddodd cyfranogwyr fod y gwrandawriad ei hun yn eglur, yn hawdd i'w ddeall, yn hwylus, ac yn ddigon ffurfiol fel nad oedd yn effeithio ar fawredd y llys. Er bod y gwrandawriadau wedi profi oedi a mân fethiannau technolegol (e.e. colli'r cysylltiad Wi-Fi), cafodd y mwyafrif o'r problemau eu datrys yn gyflym ac roedd defnyddwyr yn parhau i ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan yn effeithiol.
- 3.33. Ein casgliad o'r profi hyn yw, pan fydd yn gweithio'n dda a phan fydd yn addas ar gyfer y math o achos, mae gan wrandawriadau fideo y potensial i gynnig opsiwn mwy cyfleus i bobl allu mynychu eu gwrandawriad. Mae ein cynlluniau peilot yn ein helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r gwasanaethau ychwanegol mae angen inni eu darparu ar gyfer cyfranogwyr a barnwyr ac i ddeall gofynion seilwaith yn well. Yn y cynllun peilot, roedd yr holl gyfranogwyr yn mewngofnodi i alwad fideo o leoliad o'u dewis, gan ddefnyddio porwr gwe safonol. Cyn y gwrandawriad, roedd GLITEM yn cynnal galwadau prawf gyda chyfranogwyr i brofi cyflymder y we ar eu cyfrifiaduron a sicrhau bod yna gapasiti ar gyfer y gwrandawriad. Yn union cyn y gwrandawriad byddai GLITEM yn profi cyflymder y rhyngwyd unwaith eto i sicrhau bod y cysylltiad yn ddigon cryf i gynnal gwrandawriad. Fel rhan o'n Rhaglen Ddiwygio, rydym yn uwchraddio'r Wi-Fi ym mhob un o'n hadeiladau, i sicrhau bod y dechnoleg yn gweithio fel y mae angen iddi weithio, gan gefnogi defnyddwyr a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer.
- 3.34. Rydym yn deall yn iawn na fydd gwrandawriadau fideo yn addas ar gyfer pob gwrandawriad na phob cyfranogwr. Rydym wedi canolbwyntio ein hymchwil defnyddwyr yn fwriadol ar y bobl sydd â gallu amrywiol o ran sgiliau digidol, ynghyd â'r rhai hynny sydd ag agweddau gwahanol tuag at wasanaethau digidol. Gofynnir i'r unigolion sy'n rhan o'r achos ddarparu gwybodaeth berthnasol i gynorthwyo'r barnwr i benderfynu ar y dull addas ar gyfer y gwrandawriad. Mae disgrisiwn barnwrol wrth wraidd y broses o wneud gwrandawriadau gyfan gwbl trwy fideo yn llwyddiannus, a phenderfyniad y barnwr bydd dewis i gynnal gwrandawriadau yn gyfan gwbl trwy gyswllt fideo ai peidio, yn ôl beth fydd er budd cyfiawnder. Bydd Gweinyddwyr Gwrandawriadau Fideo ar gael ar ddiwrnod y gwrandawriad i ddarparu cefnogaeth rheng flaen gydag unrhyw fethiannau technolegol a chynorthwyo i sicrhau bod y gwrandawriad yn mynd yn ei flaen..
- 3.35. Mae'r ymchwil hyd yma ar y cyswllt rhwng y math o wrandawriad a chanlyniadau gwrandawriad yn gymysg, a hefyd mae'n gyfyngedig, gan fod gwrandawriadau gyfan gwbl trwy gyswllt fideo heb gael eu treialu'n flaenorol. Mae'n hanfodol fod gwrandawriadau fideo yn cefnogi proses lle mae barnwyr yn gwneud penderfyniadau teg a bod defnyddwyr yn ymddiried ynddynt. Felly, rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'n profion cynnar, gan academydd o brifysgol yn Llundain sy'n arbenigo mewn technoleg mewn amgylchedd llys. Bydd hyn yn rhoi mewnwelediad i'r ffordd y mae pobl yn ymwneud â'r system, gan adnabod beth sy'n gweithio'n dda wrth ddefnyddio'r gwasanaeth, ac edrych ar brofiadau defnyddwyr.
- 3.36. Mae'r ymchwil cyfredol yn canolbwyntio ar wrandawriadau fideo, h.y. lle mae un cyfranogwr yn ymuno trwy gyswllt fideo tra bod cyfranogwyr eraill yn bresennol yn yr ystafell llys traddodiadol. Er mwyn deall yr ymchwil cyfyngedig hyd yma ar wrandawriadau gyfan gwbl trwy gyswllt fideo, rydym wedi ymrwymo i gynnal profion ar draws amrywiaeth eang o wrandawriadau ac awdurdodaethau ac i ddatblygu rhaglen sy'n eu rhoi ar waith yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn raddol. Mae hyn yn galluogi i'r rhai hynny sy'n dylunio'r gwasanaeth newydd i weithio mewn partneriaeth â'r farnwriaeth i bennu priodoldeb a graddfa gwrandawriadau fideo ar gyfer pob awdurdodaeth.

4. Asesu capasiti a defnydd

Summary

- 4.1. Roedd y ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys amlinelliad o'n dull arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer asesu capasiti, sy'n ffactor allweddol wrth bennu sut byddwn yn defnyddio ein hystad yn fwy effeithlon, gan gynnig gwerth am arian a diogelu mynediad at gyfiawnder. Bu inni esbonio sut mae ein dadansoddiad yn defnyddio'r data beichiau gwaith cyfredol ar draws yr awdurdodaethau, gan ein galluogi i fodelu'r capasiti sydd ei angen nawr, ond ystyried hefyd y newidiadau i feichiau gwaith a ragwelir yn y dyfodol, ac asesu'r cynllun wrth gefn sydd ei angen ar gyfer ystod o newidiadau annisgwyl i'r beichiau gwaith.
- 4.2. Gall dadansoddiad capasiti penodol ystyried y baich gwaith cyfredol, rhagweld newidiadau yn y baich gwaith, rhagdybiaethau o ran moderneiddio ac effaith y gwaith a wneir i wella'r defnydd o'n gwasanaethau. Bu inni ddisgrifio'r prosiect Optimeiddio Capasiti Ystafelloedd Gwrandawriadau (OHC), sy'n berthnasol i'r ffactor olaf. Cynhaliwyd y gwaith

hwn yn 2017, ac roedd yn golygu cael tîm bach yn gweithio ar draws 14 safle gyda staff gweithredol rhanbarthol a rhannu arferion da i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n ystafelloedd gwrandawiadau drwy weithredu gwell arferion rhestru a ffyrdd newydd o weithio. Mae'r prosiect wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol a byddwn yn parhau i werthuso ei effaith a'r potensial i wella effeithlonrwydd o ran ein defnydd o'n hystad.

- 4.3. Mae ein rhagolygon o ran y galw yn y dyfodol yn ystyried y defnydd o wrandawiadau ar-lein, gwrandawiadau fideo a gwrandawiadau dros y ffôn yn y dyfodol, a fydd yn ein galluogi i gynllunio ar gyfer beth fydd y gofynion capasiti mewn system ddiwygiedig. Mae'r proses modelu hwn yn ein galluogi i ddiogelu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol i sicrhau eu bod yn alinio â'r newidiadau sy'n mynd rhagddo..
- 4.4. Bu inni fanylu yn y ddogfen ymgynghori ar sut y byddwn yn asesu capasiti. Rydym wedi ymestyn yr ail o'r pedwar maen prawf a bennwyd yn yr ymgynghoriad (mae'r testun newydd mewn ysgrifen italig) i gynnwys, yn benodol, ein hystyriaeth o ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, fel yr awgrymwyd gan nifer o'r ymatebwyr. Yn benodol, byddwn yn:
 - defnyddio'r hyn a ddysgwyd o brosiect OHC i sicrhau ein bod wedi llwyr ddeall beth sydd ei angen mewn ystafelloedd gwrandawiadau
 - sicrhau fod yna ddigon o gapasiti i wrando'r llwyth gwaith disgwylidig, cynnal ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, a darparu gofod addas ar gyfer y staff, y farnwriaeth a defnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd;
 - alinio newidiadau i'r ystad gyda gofynion capasiti llai sy'n digwydd o ganlyniad i foderneiddio'r ystad; a
 - sicrhau fod yna ddigon o hyblygrwydd i gynnal capasiti petai'r llwyth gwaith yn amrywio.
 - Yn y bennod hon, ceir dadansoddiad o'r barnau a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 4, ynghyd â'n ymateb

Cwestiwn 4

A ydych chi'n cytuno mai'r meini prawf hyn yw'r rhai cywir i'w defnyddio wrth asesu capasiti? A oes yna unrhyw rai eraill dylem eu hystyried?

- 4.5. O'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, bu i 184 ohonynt ymateb i'r cwestiwn hwn yn benodol.
- 4.6. Roedd yna rywfaint o gefnogaeth i'r meini prawf asesu fel y'u cyhoeddwyd (roedd 39 o'r ymatebion yn gadarnhaol), gydag ymatebwyr yn nodi eu bod yn ymddangos yn briodol, ac, os oeddynt yn cael eu rhoi ar waith yn gyson, byddant yn gwella ein defnydd o'r ystad. Bu i Wasanaeth Hawliau Lles Cyngor Redcar a Cleveland nodi eu bod "yn cytuno â'r...ystyriaethau o ran capasiti". Yn yr un modd, bu i Ynad a oedd yn Ddirprwy Gadeirydd Mainc wneud y sylw ei fod yn "cytuno â'r meini prawf" a dywedodd Cymdeithas yr Ynadon:

Mae Cymdeithas yr Ynadon yn cytuno bod y meini prawf a amlinellwyd yn synhwyrol, ac nid oes gan y gymdeithas unrhyw awgrymiadau pellach.

Cymdeithas yr Ynadon
- 4.7. Roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu bod ein dadansoddiad o gapasiti yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r gofod oedd ar gael ac nid oedd yn ystyried effaith beichiau gwaith cynyddol yn ein hadeiladau ar y gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Roedd ymatebion eraill yn ystyried na fyddai unrhyw gyfrifiadau a oedd yn deillio o'n system rheoli gwybodaeth fewnol yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa. Roedd nifer o ymatebwyr wedi crybwyll pwysigrwydd cynnal gwasanaeth effeithiol o safon.
- 4.8. Er bod nifer o ymatebwyr yn gweld y potensial y byddai rhoi'r meini prawf hyn ar waith yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o'n hadeiladau, roedd pryderon bod angen adnoddau barnwrol a gweinyddol digonol i wrando rhestrau neu achosion ychwanegol. Bu i Resolution wneud sylw penodol am adnoddau barnwrol:

Yn ôl profiad ein haelodau, mae dyrannu, rhestru a phryd mae dyddiadau a barnwyr ar gael i gynnal gwrandawiadau yn broblem fwy na'r defnydd o'r llysoedd. Byddai rhagor o lysoedd yn cael eu defnyddio fwy petai rhagor o farnwyr ar gael a phetai trefniadau rhestru yn fwy effeithiol.

Resolution
- 4.9. 5.10. Roedd peth amheuaeth y byddai gwrandawiadau fideo a gwrandawiadau dros y ffôn yn lleihau nifer yr achosion a wrandewir yn y llys. Roedd yna bryder hefyd y dylai ein hasesiadau gynnwys cynllun wrth gefn digonol ar gyfer delio â sefyllfa lle gollwyd adeilad llys oherwydd digwyddiad eithriadol fel llifogydd neu dân. Cyfeiriwyd at y llifogydd yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Bryste fel enghraifft. Yn olaf, tynnwyd sylw at bwysigrwydd asesiadau cyd-destunol ehangach, a'r angen inni ddangos ein hymwybyddiaeth o newidiadau yn nemograffeg yr ardal a oedd yn cael ei hasesu.

Ymateb

- 4.10. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr a deallwn fod y ffordd rydym yn defnyddio gofodau ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd, ynghyd â'r amser rydym yn ei gymryd i wneud hynny, yn bryderon sylfaenol i'r rhai hynny sy'n gweithio yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Rydym hefyd wedi ymrwmo i sicrhau bod y data a ddefnyddir gennym i asesu capasiti yn gadarn ac yn effeithiol. Dyna pam rydym yn cynnal cynlluniau peilot a phrofi prosiectau diwygio, i sicrhau ein bod yn deall sut mae rhagdybiaethau yn gweithio yn ymarferol, wrth eu rhoi ar waith mewn sefyllfaoedd 'byd go iawn.' Yn yr un modd, wrth wneud penderfyniadau am gapasiti, byddwn yn gweithio gyda'r farnwriaeth i sicrhau bod gennym ddigon o farnwyr neu ynadon i roi'r newidiadau ar waith.
- 4.12. Cydnabyddwn na'r gred gyffredin yw, pan fyddwn yn adnabod llys sy'n cael ei danddefnyddio, nid ydym yn ystyried yr achosion allai gael eu gwrandawro petai mwy o farnwyr ar gael, neu os oedd rhagor o 'ddyddiau eistedd' yn cael eu dyrannu. Mae'r baich gwaith cyfredol yn pennu lefelau dyrannu dyddiau eistedd 'o fewn y flwyddyn' a phenderfyniadau ynghylch lleoli barnwyr. Defnyddir rhagolygon baich gwaith i siapio'r broses recriwtio barnwyr a phenderfyniadau ynghylch sut i ddefnyddio adnoddau yn y dyfodol. Er ein bod yn dyrannu dyddiau eistedd i ranbarthau penodol ac i ganolfannau penodol, gwneir hyn mewn ymateb i'r baich gwaith lleol ac unrhyw waith sydd wedi ôl-gronni. Lle mae'r capasiti lleol, p'un a yw'n ymwneud â barnwyr neu ystafelloedd gwrandawriadau, yn annigonol i ddiwallu'r galw yn lleol, a ni ellir cynyddu capasiti, yna byddwn yn symud y gwaith a'r dydd eistedd cysylltiedig draw i lys arall. Mae hyn yn golygu y byddwn yn symud gwaith i lysoedd a fyddai'n cael eu tanddefnyddio fel arall o lysoedd sy'n cael trafferthion capasiti er mwyn cynnal perfformiad a diwallu anghenion y baich gwaith lleol. Hefyd, wrth ystyried lefelau defnydd (yng nghyd-destun trafodaethau am gau llysoedd) rydym wedi defnyddio gwybodaeth leol yn y gorffennol (yn enwedig gwybodaeth am darddiad beichiau gwaith a phroblemau gyda chapasiti barnwrol) i gyfarwyddo ein prosesau gwneud penderfyniadau, er yn anffurfiol. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi amlygu'r ffaith bod angen inni wneud y dadansoddiad hwn yn fwy strwythuredig, yn fwy cyson ac yn fwy tryloyw (yn y ddogfennaeth ymgynghori yn y dyfodol), a byddwn yn defnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan wasanaethau diwygiedig a chapasiti rhagweld a dadansoddi newydd GLITEM i wneud hynny.
- 4.13. Rydym yn cydnabod y pryderon ehangach ynghylch capasiti barnwrol. Mae'r nifer o achosion a drosglwyddir i Lys Y Goron wedi amrywio'n fawr yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, roedd nifer yr achosion a anfonwyd i Lys y Goron wedi gostwng 25% rhwng 2014 a 2017 ac mae lefel y gwaith yn Llys y Goron ar ei isaf ers 2014. Cynyddodd achosion cyfraith gyhoeddus deuluol 18% rhwng 2015 a 2016 ac roedd achosion plant cyfraith breifat deuluol wedi gostwng 23% rhwng 2013 a 2014 ac maent wedi cynyddu 20% ers hynny. Mae achosion a wrandewir yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth wedi cynyddu 106% yn y 12 mis ar ôl i'r ffioedd gael eu dileu. Mae'r newidiadau mawr hyn yn peri heriau sylweddol gan fod y broses o recriwtio barnwyr yn cymryd amser. Gan weithio gyda'r farnwriaeth a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, mae GLITEM wedi cymryd camau gweithredu brys i recriwtio rhagor o farnwyr. Er enghraifft, ar hyn o bryd rydym yn recriwtio 250 o gofiaduron, 303 o ddirprwy farnwyr rhanbarth (sifil a theulu), 250 o farnwyr sy'n derbyn ffi yn y Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf, 35 o awdurdodiadau adran 9(1) i weithredu fel Barnwyr yn yr Uchel Lys, 94 o farnwyr cylchdaith, 54 o farnwyr cyflogaeth cyflogedig, 100 o farnwyr Tribiwnlys Haen Gyntaf cyflogedig a 110 o Farnwyr Rhanbarth (sifil a theulu), ynghyd â rhaglenni recriwtio eraill ar raddfa llai. Bydd hyn yn helpu i sicrhau, pan fydd y galw yn cynyddu, nid oes cyfyngiadau ar gynyddu'r capasiti barnwrol oherwydd diffyg arian. Bydd GLITEM yn parhau i weithio gyda'r Farnwriaeth a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i sicrhau capasiti barnwrol digonol a sicrhau bod gofynion ystafelloedd llys yn y dyfodol yn bodloni'r galw a ragwelir ac yn ddigon hyblyg i ddelio â newidiadau annisgwyl..
- 4.14. Rydym yn ystyried bod y meini prawf arfaethedig yn taro cydbwysedd da rhwng sicrhau effeithlonrwydd a darparu digon o gapasiti i gynnal gwasanaeth effeithiol. Hefyd, mae cynllun wrth gefn eisoes yn cael ei ystyried yn y meini prawf.
- 4.15. Rydym yn cytuno y dylai ein gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel gael ei asesu ochr yn ochr â chapasiti gweithredol adeilad a fyddai'n derbyn gwaith gan adeilad sy'n cau. I gynnwys a phwysleisio'r pwynt pwysig hwn, rydym wedi ymestyn yr ail o'r pedwar maen prawf a bennwyd yn yr ymgynghoriad, fel y nodir uchod ym mharagraff 5.4.
- 5.15. Bydd angen i ystyriaethau demograffig, lle bo'n bosibl, gael eu cynnwys mewn dadansoddiad o'r baich gwaith, a fydd yn llifo mewn i asesiad o'r capasiti ar gyfer beichiau gwaith yn y dyfodol.

5. Canllaw Dylunio ar gyfer y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd (Canllawiau Dylunio Adeiladau Llys yn y Dyfodol yn flaenorol)

Summary

- 5.1. Yn yr ymgynghoriad, bu inni amlinellu'r gwaith i addasu a gwella'r cyfleusterau o fewn adeiladau llys ac adeiladau tribiwnlys, a fydd yn cael ei ddisgrifio mewn Canllaw Dylunio newydd ar gyfer y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, fel diwygiad sylweddol i ganllaw 2010. Yn y dyfodol, mae angen i ddyluniadau llysoedd a thribiwnlysoedd sicrhau bod: technoleg yn rhan bwysig o'r dyluniad, yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu wedyn; bod gennym ystafelloedd gwrandawriadau a llefydd gweithio sy'n cefnogi ffyrdd digidol o weithio; a bod yna hyblygrwydd ar gyfer hyn lle bynnag y bydd ei angen.

- 5.2. Bu inni ddarparu egwyddorion a fyddai'n tanategu'r Canllaw Dylunio newydd, gan ddarparu fframwaith ar gyfer ein penderfyniadau dylunio pan fyddwn yn newid, yn diweddarau neu'n uwchraddio ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd. Dylai ein hadeiladau fod yn:
- Addas: mae'n rhaid i'r adeiladau ddarparu'r amgylchedd a'r gwasanaeth cywir ar gyfer pob defnyddiwr a phob gwrandawriad, ac adlewyrchu urddas ac awdurdod y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.
 - Effeithiol: mae'n rhaid i'r adeiladau fod yn amgylchedd diogel i staff ac eiddo a helpu pob defnyddiwr i gyflawni ei rôl.
 - Hygyrch: mae'n rhaid i'r adeiladau fod yn hawdd i'w defnyddio a rhaid i bawb allu darganfod eu ffordd o'u cwmpas yn rhwydd.
 - Hyblyg: mae'n rhaid i'r adeiladau fod yn hyblyg, o ran y gofynion dydd i ddydd ac o ran newidiadau yn yr hirdymor.
 - Cynaliadwy: mae'n rhaid i'r ystad fod yn fforddiadwy i'w chynnal a'i chadw.
- 5.3. Bu inni ofyn am safbwyntiau ar yr egwyddorion a'r dull mae'r Canllaw Dylunio newydd wedi'u mabwysiadu. Mae'r bennod hon yn cynnwys ein dadansoddiad o'r safbwyntiau hynny, ynghyd â'n hymateb. Mae ein pedair egwyddor ystadau newydd, a ddatblygwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, sy'n dod dan y pennawd 'sicrhau effeithlonrwydd', fel a ganlyn:
- Gwella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau cynnal a chadw yn ein hadeiladau o ddydd i ddydd trwy ddefnyddio'r pencampwyr adeiladau
 - Sicrhau bod adeiladau hanesyddol pwysig yn cael eu diogelu a'u cynnal yn briodol
 - Sicrhau bod ein hystad mor effeithiol, mor effeithlon ac mor hyblyg â phosib, ni waeth beth yw'r ffiniau awdurdodaethol, a chanolbwyntio ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau, gan gynnwys rhoi gwelliannau ar waith i gefnogi dioddefwyr a thystion oherwydd y rôl allweddol maent yn ei chwarae yn y broses o weinyddu cyfiawnder.
 - Wrth i newidiadau gael eu rhoi ar waith ar draws ein hystad, defnyddio'r Canllaw Dylunio newydd ar gyfer y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n buddsoddiadau ar draws adeiladau a bod ein dyluniadau yn cyfrannu at fodloni gofynion adeiladau llys ac adeiladau tribiwnlys modern.

Cwestiwn 5

Beth yw eich barn chi ar yr egwyddorion a'r dull arfaethedig i wella dyluniad adeiladau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd? A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliant?

- 5.4. Cafwyd 139 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer o ymatebwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion sy'n rhan o'r Canllaw Dylunio ar gyfer y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd. Roedd nifer o ymatebion i'r pum egwyddor sy'n sail i'r Canllaw Dylunio yn gadarnhaol, gan gynnwys y sylwadau canlynol:
- Rydym yn ystyried yr egwyddorion a'r dull arfaethedig yn rhai da. Rydym yn eu cefnogi.
- Y Barnwyr Llywyddol a Barnwr Cyswllt yr Adran Deulu, Cymru
- Rydym yn croesawu'r cynnig i sefydlu set o egwyddorion dylunio i sicrhau bod adeiladau llys ac adeiladu tribiwnlys yn addas i'r pwrpas.
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- 5.5. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn awyddus i weld GLITEM yn gwella darpariaeth i ddiwallu anghenion defnyddwyr a rhanddeiliaid. Ymysg yr ymatebion a oedd yn cefnogi ein cynlluniau i gyflwyno Pencampwyr Adeiladau oedd Y Cyngor Cyfiawnder Sifil:
- Bydd cyflwyno 320 o bencampwyr adeiladau yn darparu cefnogaeth ychwanegol, ac fe'u croesawir i helpu i adnabod materion cynnal a chadw ac atgyweirio yn ystad y llysoedd sydd angen sylw.
- Cyngor Cyfiawnder Sifil
- 5.6. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen i'r dyluniadau sicrhau adeiladau a oedd yn ddiogel i bobl ac eiddo, a fyddai'n creu awyrgylch urddasol priodol ar gyfer gwrandawiadau, ond byddai'n rhaid cydbwysu hyn yn erbyn sicrhau nad oedd ystafelloedd gwrandawiadau yn llethol. Bu i aelod o'r cyhoedd ddisgrifio eu profiad o fynychu'r llys a disgrifiodd y safle fel "adeilad brawychus" a dywedodd fod y profiad yn "llethol", gan ymhelaethu:
- Dylai fod yn hawdd cael mynediad at ystafelloedd, ar y llawr gwaelod, lle nad oes unrhyw goridorau gwag neu ddiffyg pobl a staff. Byddai'n well petai'n agosach i adref, gwell fyth os nad oedd yn y llys ond yn hytrach mewn amgylchedd mwy cyfforddus i ddiodefwyr fel fi.
- Aelod o'r cyhoedd
- 5.7. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos yr ystyrir fod cynnal awdurdod yr ystafell llys yn bwysig iawn, fel eglurodd un Dirprwy Farnwr Rhanbarth:
- Rhaid ystyried dyluniad mewnol y llysoedd yn ofalus iawn i sicrhau diogelwch a chynnal awdurdod y llys.
- Barnwr
- 5.8. Mae cyfleusterau addas ar gyfer diodefwyr a thystion yn flaenoriaeth, er roedd rhai ymatebwyr wedi gofyn inni ddarparu ar gyfer anghenion diffnyddion a throeddwyr hefyd.
- 5.9. Roedd rhai yn dadlau o blaid rheoli risg cymesur, i osgoi dyluniadau a fydd yn canolbwyntio ar ddiogelwch yn fwy nag anghenion defnyddwyr. Roedd ymatebwyr hefyd yn awyddus i weld y Canllaw Dylunio yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried gwaith uwchraddio (h.y. gwelliannau i adeiladau sydd eisoes yn yr ystad) ynghyd ag adeiladau hollol newydd (h.y. adeiladu adeilad o'r newydd).
- 5.10. Tynnwyd sylw yn benodol at anghenion penodol ac unigryw y llysoedd ieuenticid, a'r angen am ddarpariaeth briodol o ystafelloedd aros ar wahân::
- Mae gan y llys ieuenticid ethos unigryw a nifer o nodweddion arbennig, fel yr amlinellir yn Llyfr Mainc y Llys Ieuenticid y Coleg Barnwrol. Os bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu gwireddu, byddai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenticid [YJB] yn disgwyl y bydd y ddarpariaeth ar gyfer yr holl nodweddion sy'n arbennig i'r llys ieuenticid yn parhau, gan gynnwys mewn llysoedd a ddefnyddir gan awdurdodaethau gwahanol.
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenticid
- 5.11. 6.11. Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai fod gofynion gwahanu ar gyfer diodefwyr a thystion yn y canllaw, gan gynnwys mynedfaoedd, manau aros, ystafelloedd aros ac ystafelloedd ymgynghori ar wahân. Bu i rai ymatebwyr hefyd ofyn am ddarpariaeth o ystafelloedd ymneilltuo barnwrol penodol ac ystafelloedd i eiriolwyr. Bu i ymatebwyr dynnu sylw at safonau diogelwch eiddo a phobl ac roeddynt yn awyddus i weld ymgysylltu â staff gweithredol a staff barnwrol er mwyn cael eu safbwyntiau. Roeddynt yn gefnogol o'n bwriad i geisio cyngor proffesiynol gan benseiri. Mae effaith gosod technoleg yn bwysig i ymatebwyr, ynghyd â gosodiad cyffredinol ystafelloedd gwrandawiadau, gan ddarparu digon o le i bartïon a chynnal ffurfioldeb. Roedd dau ymateb yn holi am ddarpariaeth ar gyfer cyfleusterau parcio. Bu i rai danlinellu pwysigrwydd

rheoli tymheredd adeiladau yn effeithiol, a gwella acwstics ystafelloedd gwrandawiadau.

- 5.12. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu dyluniadau a fyddai'n gwella cyfleusterau i'r holl ddefnyddwyr, yn enwedig defnyddwyr gydag anableddau. Bu iddynt ofyn i ddyluniadau: ddarparu cyfleusterau aros a chyfleusterau cynadleda addas sydd wedi'u lleoli'n briodol yn yr adeiladau; bod lifftiau ar gael a bod cyfleusterau yn addas i'r pwrpas, a bod technoleg yn hygyrch ac yn addas ar gyfer anghenion defnyddwyr. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio bod rhaid i'r Canllaw Dylunio gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, bod cyfleusterau a dodrefn yn darparu cefnogaeth a gwelliannau ar gyfer yr holl ddefnyddwyr, a bod y Canllaw Dylunio yn cael ei ddatblygu gyda chyfraniadau gan ddefnyddwyr, yn enwedig y rhai hynny sydd ag anableddau. Rhaid bod darpariaeth ar gyfer defnyddwyr gyda namau ar y clyw, defnyddwyr gydag anawsterau llythrennedd neu rifedd a'r rhai hynny sydd â namau corfforol. Rhaid i arwyddion ddarparu'r wybodaeth hanfodol ar gyfer yr holl ddefnyddwyr, a dylai fod pawb sy'n defnyddio'r adeiladau yn gallu cymryd rhan yn y broses farnwrol. Roedd y pwyntiau uchod wedi'u cynnwys fel rhan o ymateb Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Swydd Efrog::

Dylai unrhyw gynllun yn y dyfodol sicrhau bod pob adeilad yn hygyrch a bod defnyddwyr anabl yn gallu cymryd rhan mewn gwrandawiadau yn yr un ffordd ag unigolion nad ydynt yn anabl - dioddefwyr/tystion; carcharorion; staff ar draws amrywiaeth o asiantaethau'r sector cyfiawnder troseddol [CJS] sy'n ymwneud â'r llysoedd, cefnogwyr, y Wasg a'r cyfryngau; cyfreithwyr a'r farnwriaeth – ac mae angen i'r adeiladau allu ymateb yn effeithiol i ystod eang o anableddau.

Bydd cymaint o ddibyniaeth ar dechnoleg ddigidol a chyfiawnder trwy gyswllt fideo – ni ddylai fod y cyfleusterau hyn wedi'u cyfyngu i nifer bach o ystafelloedd llys – dylai'r cyfleusterau hyn fod ar gael trwy'r adeilad llys arbenigol i gyd.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Swydd Efrog

- 5.13. Roedd ymatebwyr yn croesawu'r dull arfaethedig i gynyddu hyblygrwydd yn nyluniadau ystafelloedd, a fydd, ar y cyd â phrosiectau diwygio eraill, yn helpu i gynyddu'r defnydd o adeiladau GLITEM. Bu i un aelod staff wneud y sylw ein bod yn symud yn y "cyfeiriad iawn". Gofynnodd ymatebwyr inni ystyried anghenion pob awdurdodaeth wrth lunio dyluniadau ystafelloedd gwrandawiadau.
- 5.14. Ni ddylai hyblygrwydd olygu cyfaddawdu diogelwch pobl ac eiddo, a dylai'r dodrefn mewn ystafelloedd gwrandawiadau fod yn gadarn. Er enghraifft, meddai Cyngor ar Bopeth:
- Rydym yn croesawu'r gwaith y mae GLITEM yn ei wneud i wella'r cyfleusterau mewn adeiladau llys. Bydd y gallu i ddefnyddio ystafelloedd mewn ffordd hyblyg yn helpu i ddefnyddio'r gofod yn y ffordd fwyaf effeithlon sy'n bosib. Bydd hefyd yn gwella profiad defnyddwyr llys yn sylweddol os bydd yn lleihau'r angen i ohirio achosion. Ynghyd â chynnal asesiadau effaith cynhwysfawr, dylai gwella dyluniad cyfleusterau arwain at adeiladau sy'n fwy hygyrch a gwasanaeth sy'n fwy cynhwysol.
- Cyngor ar Bopeth
- 5.15. Roedd ymatebwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r egwyddor o gynaliadwyedd ond codwyd pryderon ynghylch a oedd yn fforddiadwy a p'un a fyddai arian ar gael i'w roi ar waith (yn eang) yn ein hystad bresennol.
- 5.16. Fodd bynnag, roedd llawer hefyd wedi gofyn i arian beidio â chael ei wario ar adeiladau a oedd yn debygol o gau yn y dyfodol. Lle mae'r ystad presennol yn addas i'r pwrpas, bu i ymatebwyr ddadlau ni ddylwn wneud unrhyw atgyweiriadau neu welliannau diangen. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r bwriad i ystyried ac adolygu contractau cynnal a chadw yn rheolaidd.
- 5.17. Yn olaf, roedd pryderon ymysg rhai bod angen rhyw fath o ymrwymiad yn y Canllaw Dylunio newydd i sicrhau bod ein hadeiladau hanesyddol yn cael eu diogelu a'u cynnal a chadw yn briodol.

Ymateb

- 5.18. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth a gafwyd ar gyfer ddatblygu Canllaw Dylunio newydd a'r egwyddorion y dylwn eu dilyn wrth addasu adeiladau yn y dyfodol, a'r awgrymiadau adeiladol ar gyfer gwelliannau pellach.
- 5.19. O ran diogelwch eiddo a phobl, rydym yn hyderus bod y Canllaw Newydd yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr, a chyhoeddir y fersiwn cyntaf o'r canllaw hwn ochr yn ochr â'r ymateb hwn. Mae diogelwch pobl ac eiddo yn ofyniad sylfaenol o ystad GLITEM ac mae'r Canllaw Dylunio yn cydymffurfio'n llawn â safonau diogelwch uwch GLITEM. Yn yr un modd, mae'r Canllaw Dylunio hefyd yn darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran dyluniadau ystafelloedd gwrandawiadau a darparu ystafelloedd aros a mynedfaoedd ar wahân i ddioddefwyr a thystion bregus.
- 5.20. Rydym wedi adnabod lle mae modd cryfhau ein dull neu gymryd camau pellach yn unol â'r ymatebion a gafwyd. Er enghraifft, mae'r glasbrintiau a gyhoeddir yn y Canllaw Dylunio yn darparu ar gyfer ystafell wrandawiadau i'w defnyddio ar gyfer llysoedd ieuenctid a hwyluso dod i mewn ac allan o'r adeilad trwy fynedfa ar wahân i ddiffynyddion ieuenctid. Gallant gael mynediad at ystafell wrandawiadau ar wahân lle nad oes unrhyw ystafelloedd gwrandawiadau eraill a gallant gael mynediad at ystafelloedd aros, ystafelloedd ymgynghori a thoiledau sydd ar wahân. Yn ein fersiwn nesaf o'r canllaw, byddwn yn sicrhau bod y rhesymeg y tu ôl i'r dyluniad hwn yn cael ei fynegi'n glir.
- 5.21. Mae'r Canllaw Dylunio rydym yn ei gyhoeddi yn pennu'r egwyddorion ar gyfer canolfannau gwrandawiadau i sicrhau'r adeilad ei hun a sicrhau bod urddas y llys yn cael ei ddiogelu. Cydnabyddwn bwysigrwydd y mater hwn, yn enwedig i aelodau o'r farnwriaeth a'r ynadaeth.
- 5.22. Mae'r Canllaw Dylunio hefyd wedi'i ddatblygu i sicrhau fod adeiladau llys ac adeiladu tribiwnlys yn fwy hygyrch i'r holl ddefnyddwyr. Drwy gynnal gweithgareddau ymgysylltu wrth ddatblygu'r canllaw, bu inni ymweld â Llys Ynadon a Llys Cyfun Croydon i gwrdd â chynrychiolwyr o grwpiau defnyddwyr cyhoeddus, gan gynnwys y Grŵp Ymgysylltu Cydraddoldeb a Chynhwysiad, i gael eu hadborth a'u safbwyntiau, yn enwedig ar hygyrchedd. Bydd yr adborth a gafwyd yn cael ei ystyried wrth inni ddatblygu'r fersiwn nesaf o'r Canllaw Dylunio, sydd wedi'i gynllunio i'w gyhoeddi yn hwyrach ymlaen yn 2019. Byddwn hefyd yn cynnwys ystyriaethau dylunio ar gyfer perimedrau adeiladau a mynd i'r afael â'r adborth a geir ar fynediad at adeiladau.
- 5.23. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus. Bwriadwn wella'r ffordd rydym yn cynnal a chadw adeiladau o ddydd i ddydd trwy ein pencampwyr adeiladau. Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr ynghylch diogelu ein hadeiladau hanesyddol yn ddigonol ac rydym yn teimlo ei fod yn bwysig tanlinellu ein hymrwymiad cryf i hyn trwy gynnwys diogelu adeiladau hanesyddol fel egwyddor ystadau. Lle mae eisoes wedi'i gytuno i gau adeilad hanesyddol, byddwn, lle bo'n briodol, yn hysbysu darpar brynwyr o statws gwarchoddedig ein hadeiladau a byddwn yn sicrhau bod prynwyr yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i gynnal ac uwchraddio adeiladau hanesyddol.
- 5.24. Rydym eisiau i'n ystad fod mor effeithiol, mor effeithlon ac mor hyblyg ag sy'n bosibl a chanolbwyntio ar ddefnyddwyr, gan roi gwelliannau ar gyfer dioddefwyr a thystion ar waith. Bydd yn bwysig defnyddio'r Canllaw Dylunio ar gyfer y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd pan fydd newidiadau yn cael eu gwneud i'n hystad. Mae'r dull a ddefnyddir yn y canllaw hwn (bydd y fersiwn cyntaf yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymateb hon) yn ein helpu i wneud y gorau o'n buddsoddiad a symud tuag at fodloni'r anghenion ar gyfer adeiladau modern. Mae hyn yn golygu, cyn belled ag y bo modd, byddwn yn defnyddio dulliau adeiladu modern i sicrhau y bydd adeiladu newydd yn elwa o arbedion effeithlonrwydd y dulliau adeiladu hyn.
- 5.25. Wrth wrando ar adborth, rydym wedi datblygu'r egwyddorion newydd, a'i lleoli dan y pennawd 'sicrhau effeithlonrwydd yn yr hir dymor'.

6. Pobl a systemau

- 6.1. Yn yr ymgynghoriad, bu inni gydnabod fod gwella dylunio a hyblygrwydd yn rhannau pwysig o'r darlun cyfan, ond nid rhain yn unig sy'n bwysig. Bu inni ddarparu manylion am sut, wrth i ni symud ymlaen gyda'r rhaglen ddiwygio, rydym am ganolbwyntio ar ddatblygu'r rolau sydd eu hangen yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd.
- 6.2. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd ein timau wedi'u strwythuro i gefnogi ein canolfannau llys a'n canolfannau tribiwnlys. Byddwn yn darparu staff rheng flaen pwrpasol a fydd yn wybodus, yn hyfforddedig ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr proffesiynol. Fel rhan o hyn, bu inni ddatgan y byddwn yn bwrw ymlaen gyda chynlluniau i hyfforddi dros 350 o'n staff i weithredu fel Swyddogion Cefnogaeth Ddigidol (DSOs) ar y safle yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Wrth i dechnoleg ddod yn rhan fwy annatod o weithdrefnau'r llys a'r tribiwnlys, bydd DSOs yn darparu cefnogaeth ar safle, yn cynnal a chadw technoleg yn lleol ac yn sicrhau bod unrhyw broblemau sy'n codi yn cael eu diagnosis a'u datrys yn brydlon ac yn gywir fel nad ydym yn dibynnu'n llwyr ar ddesg gymorth o bell.
- 6.3. Hefyd, bu inni ddarparu gwybodaeth ynghylch darpariaeth gwasanaethau digidol gyda chymorth. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at ein gwasanaethau, ni waeth beth yw lefel eu sgiliau digidol. Byddwn yn darparu llwybrau gwahanol i bobl allu cael cymorth mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw. Gwyddwn y bydd rhai pobl angen rhagor o gymorth i ddefnyddio gwasanaethau digidol na phobl eraill, a bu inni esbonio ein bod yn dylunio ystod o sianeli gwasanaethau digidol gyda chymorth a fydd ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol defnyddwyr. Felly, lle bydd gwasanaethau GLITEM yn symud i fod ar-lein, bydd cymorth ar gael i bobl sy'n cael trafferth defnyddio technoleg.
- 6.4. Ynghyd â'r gwelliannau hyn, bu inni rannu sut rydym yn buddsoddi mewn systemau digidol i gefnogi'r broses o drefnu a rhestru achosion. Mae rhestru yn, a bydd yn parhau i fod, yn swyddogaeth farnwrol, ond byddwn yn cefnogi'r broses rhestru trwy ddarparu adnoddau digidol gwell i leihau gwaith gweinyddol a defnyddio data i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth helaeth
- 6.5. Roedd y chweched cwestiwn yn ceisio barn ar ein dull tuag at bobl a systemau yn y dyfodol.
- 6.6. Yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad, ein hegwyddor newydd, yw fel a ganlyn:
 - Cefnogi defnyddwyr ein canolfannau llys a'n canolfannau tribiwnlys trwy ddarparu staff rheng flaen pwrpasol sy'n wybodus, yn hyfforddedig ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr proffesiynol. Bydd y staff hyn yn cael hyfforddiant parhaus ac yn dysgu sgiliau i reoli technolegau newydd..

Cwestiwn 6

Beth yw eich barn chi ar ein dull o warchod pobl a systemau? Beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â'r amrywiaeth fwyaf posibl o ddefnyddwyr wrth i ni ddatblygu systemau ar gyfer trefnu a rhestru achosion? Pa ffactorau dylem gymryd i ystyriaeth wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau?

- 6.7. Cafwyd 147 o ymatebion i'r cwestiwn hwn..
- 6.8. Roedd yna gefnogaeth helaeth ar gyfer cyflwyno Swyddogion Cefnogaeth Ddigidol (DSOs) i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaeth hir dymor ar gyfer gwasanaethau digidol. Bu i sawl ymateb nodi y byddai DSOs angen hyfforddiant sylweddol i fod yn effeithiol a bod yn rhan o system sydd ag adnoddau digonol. Gwnaethpwyd y pwynt hwn gan Farnwyr Cyflogaeth Rhanbarthol yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr:

Rydym yn cefnogi'r bwriad i greu swyddi ar lefel leol i ddarparu cefnogaeth ddigidol a chefnogaeth TG. Fodd bynnag, rydym eisiau sicrwydd o ran lefel y sgiliau, arbenigedd a hyfforddiant y bydd yr unigolion hyn yn eu cael ac yn meddu arnynt. Mae yna nifer o ffactorau y bydd angen eu hystyried fel bod DSOs yn gallu darparu cymorth effeithiol. Ar hyn o bryd, ni wyddwn am unrhyw ofynion cymhwysedd sylfaenol ar gyfer cael eich penodi fel DSO. Mae'n hollbwysig fod yna cymhwyseddau sylfaenol o ran gwybodaeth am galedwedd, meddalwedd ac anghenion awdurdodaethol unigol...Dylai fod yna aelod o staff gweinyddol ar y safle sydd â gwybodaeth sy'n darparu trosolwg o'r defnydd a'r dyraniad o ystafelloedd gwrandawiadau o ddydd i ddydd.

Barnwyr Cyflogaeth Rhanbarthol, Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Gogledd Ddwyrain Lloegr)
- 6.9. Roedd llawer o ymatebion yn canolbwyntio ar y canfyddiad nad oedd digon o staff ac adnoddau yng nghanolfannau gwrandawiadau y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Roedd pryder ynghylch na fyddai cyflwyno gwasanaethau digidol, a systemau trefnu amserlenni neu systemau rhestru newydd, yn effeithiol heb gael adnoddau ychwanegol, a bod angen cael staff cefnogaeth ddigidol i ddarparu cymorth technegol. Fel y dywedodd un ynad:

Os bydd agweddau wyneb i wyneb y Ddarpariaeth Gwasanaethau Digidol gyda Chymorth yn cael eu lleoli mewn eiddo nad ydynt yn adeiladau llys, yna mae'n rhaid cael arwyddbyst clir ar gyfer hynny, yn ddelfrydol o'r pwynt cyswllt cyntaf 31 gyda defnyddiwr llys. Gobeithiaf y bydd yr adnoddau ychwanegol (pobl neu offer) sydd eu hangen yn cael eu hariannu gan

GLITEM...

Ynad

- 6.10. Yn gyffredinol, croesawyd y trefniadau ar gyfer darpariaeth gwasanaethau digidol gyda chymorth. Codwyd pryder y dylai'r ddarpariaeth hon gael yr adnoddau priodol a dylai fod yn gefnogol yn enwedig ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain a phobl anabl.
- 6.11. Roedd yr ymateb i'r bwriad i wella systemau trefnu amserlenni a systemau rhestru yn fwy ceidwadol. Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried y byddai potensial i system restru fwy effeithiol leihau'r amser a wastraffir gan bartion a'u cynrychiolwyr wrth iddynt aros yn y llys. Mynegwyd pryderon y byddai cyflwyno system trefnu amserlenni a system restru yn ffordd o osod trefniant rhestru a orfodir yn ganolog a fyddai'n bygwth annibyniaeth farnwrol. Tra bod yr ymgynghoriad yn cydnabod bod rhestru yn swyddogaeth farnwrol, roedd llawer o sylwadau gan aelodau o'r farnwriaeth yn codi'r pwynt y dylai trefnu amserlenni a rhestru barhau i fod felly.
- 6.12. Roedd ymatebwyr hefyd wedi mynegi pryderon o ran sicrhau bod unrhyw systemau a sefydlwyd yn hyblyg ac yn gallu ymdopi ag amgylchiadau unigol a chymhlethdod y broses rhestru yn ymarferol.
- 6.13. Bu i rai ymatebwyr ddadlau y byddai'n rhaid i'r systemau newydd a'r ffyrdd newydd o weithio gael eu hasesu'n iawn cyn eu cyflwyno.

Ymateb

- 6.14. Rydym yn symud ymlaen gyda'r dull a bennwyd yn y ddogfen ymgynghori i hyfforddi dros 350 o'n pobl i weithredu fel Swyddogion Cefnogaeth Ddigidol (DSOs) yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant a'r adnoddau iawn i gefnogi'r broses o gyflwyno gwasanaethau digidol. Gan gydnabod y gefnogaeth helaeth a gafwyd am y cynigion o ran DSOs, byddwn yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod gennym y staff ar gael yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd sy'n wybodus ac wedi'u hyfforddi i gefnogi defnyddwyr ac aelodau eraill o staff. Felly, rydym wedi ychwanegu egwyddor i'n egwyddorion ystadau dan y pennawd 'sicrhau effeithlonrwydd yn yr hir dymor, a nodir ym mharagraff 7.6 uchod.
- 6.15. Bydd rhestru wastad yn parhau i fod yn swyddogaeth ac yn gyfrifoldeb barnwrol. Rydym yn cyflwyno systemau a fydd yn gwella'r ffordd mae rhestru'n cael ei gyflawni, a chynnal rheolaeth barnwyr o'r broses.
- 6.16. Bydd pob un system trefnu amserlenni a rhestru yn cael eu profi'n drylwyr cyn eu rhoi ar waith.

7. Dod â'n gwaith dadansoddi ynghyd

- 7.1. Yn y ddogfen ymgynghori, bu inni drafod sut byddai'r amrywiaeth o ffactorau rydym yn credu sydd angen eu hystyried pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i'r ystad, yn cael eu tynnu ynghyd i'w hasesu gyda'i gilydd. Bu inni nodi y byddai hyn yn cymryd ffurf matricsau gwerthuso
- 7.2. Mae'r matricsau hyn yn dod â'r holl ffactorau perthnasol ynghyd (yn seiliedig ar yr egwyddorion a gytunwyd arnynt), fel gwybodaeth am: y baich gwaith a hygyrchedd; cyflwr a chapasiti adeilad; a chostau gweithredu a chostau cynnal a chadw, er mwyn inni allu asesu pob safle, gan ystyried pob un o'n hegwyddorion.

Ymgynghori ar ddiwygio'r ystad yn y dyfodol

- 7.3. Yn Rhan 4 o'r ymgynghoriad, bu inni esbonio ein dull arfaethedig ar gyfer ymgynghori ar newidiadau i'r ystad yn y dyfodol. Bu inni gydnabod bod y broses ddiwygio yn golygu y disgwyliwn y bydd angen nifer llai o ystafelloedd yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn y dyfodol ac felly bydd cynigion pellach ar gyfer cau neu gyfuno adeiladau yn cael eu gwneud yn y dyfodol.
- 7.4. Yn hytrach nag un ymgynghoriad mawr, byddwn yn ymgynghori ar safleoedd penodol neu grwpiau o safleoedd yn unigol, fel rhan o raglen dreigl. Byddwn yn egluro pam fod ein tystiolaeth o'r rhaglen ddiwygio ehangach yn cefnogi'r cynnig/cynigion a pham ein bod yn credu bod modd cyfiawnhau cyfuno ein hystad. Bydd y rhaglen dreigl hon yn golygu y byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriadau pan fydd gennym dystiolaeth sy'n cefnogi argymhelliad i gyfuno'r ystad mewn lleoliad penodol, yn hytrach nag aros nes bydd y rhaglen ddiwygio gyfan wedi'i chyflawni cyn ceisio barn a symud cynigion yn eu blaenau, a fydd yn cynyddu'r gwerth am arian i'r trethdalwr.
- 7.5. Bydd y rhaglen dreigl hon yn golygu y byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriadau pan fydd gennym dystiolaeth sy'n cefnogi argymhelliad i gyfuno'r ystad mewn lleoliad penodol, yn hytrach nag aros nes bydd y rhaglen ddiwygio gyfan wedi'i chyflawni cyn ceisio barn a symud cynigion yn eu blaenau, a fydd yn cynyddu'r gwerth am arian i'r trethdalwr.
- 7.6. Bu i'r ymgynghoriad fanylu ar y meini prawf rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith wrth asesu safleoedd yn erbyn ein hegwyddorion ystadau, yn benodol, i sicrhau ein bod yn deall:
 - y defnydd a wneir o'r adeilad, a'i gyflwr;
 - lle allai achosion gael eu rhestru petai'r llys neu'r tribiwnlys yn cau;
 - hygyrchedd y llys neu'r tribiwnlys fyddai'n ymgymryd â'r gwaith;
 - capasiti presennol unrhyw lys neu dribiwnlys fyddai'n ymgymryd â'r gwaith ychwanegol;
 - amcan bris o gostau gwireddu hyn; a
 - manteision cyffredinol a chostau cau'r adeilad.
- 7.7. Bu inni nodi na fyddwn yn gwneud unrhyw gynnig i gau safle hyd nes bod gennym dystiolaeth i'w gefnogi.
 - Wrth wrando ar yr adborth a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi datblygu egwyddor newydd:

I gefnogi cynigion ystadau, byddwn yn casglu tystiolaeth o'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth i'r rhaglen ddiwygio fynd yn ei blaen. Byddwn yn defnyddio ein profiadau blaenorol pan fyddwn yn profi prototeipiau neu'n asesu rhaglenni treigl cychwynnol.
- 7.8. Yn y bennod hon rydym wedi dod â chrynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 7 ac 8 at ei gilydd, o ystyried y gorgyffwrdd yn y themâu a godwyd.

Cwestiwn 7

A oes gennych farn ar ein dull ni o werthuso cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i'r ystad neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gallwn wella hyn?

- 7.9. Cafwyd 112 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- 7.10. Roedd ymatebwyr wedi croesawu ac wedi'u plesio gan y cynnig i gynnal adolygiad annibynnol. Honnwyd rhai o'r ymatebwyr mai'r farnwriaeth oedd yn y sefyllfa orau i'w gynnal ac wedi holi pwy fyddai'n ymgymryd â'r gwaith hwn. Er enghraifft, datganodd Cymdeithas yr Ynadon:

Mae Cymdeithas yr Ynadon yn croesawu'r adolygiad annibynnol arfaethedig, ond mae cwestiynau pwysig yn parhau i gael eu gofyn o ran pwy fydd yn cynnal yr adolygiad a phwy fydd yn cyfrannu at y broses werthuso.

Cymdeithas yr Ynadon

- 7.11. Roedd nifer o ymatebion yn annog GLITEM i ohirio cau unrhyw lysoedd eraill hyd nes bod y cynlluniau peilot cyfredol wedi dod i ben, neu hyd nes bod y rhaglen ddiwygio gyfan wedi dod i ben. Bu i un aelod o'r cyhoedd ddadlau y dylwn "rhoi'r gorau i gau'r llysoedd a gwrthdroi cau llysoedd", tra bod defnyddiwr proffesiynol wedi dadlau "ni ddylai fod unrhyw lysoedd eraill yn cau". Awgrymodd un ynad:

Rhaid bod lleoliadau neu ddulliau amgen mewn lle cyn i gam nesaf cau'r llysoedd ddigwydd ac yna rhaid ei werthuso.

Ynad

- 7.12. Y canfyddiad oedd nad oedd digon o dryloywder o ran y broses werthuso. Felly, roedd yr ymateb i'n cynnig i gyhoeddi matricsau gwerthuso yn y broses ymgynghori yn gadarnhaol. Dywedodd Gwasanaeth Erlyn y Goron:

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cefnogi'r cynnig yn yr ymgynghoriad i gyhoeddi'r matricsau gwerthuso. Bydd yr angen i fod yn dryloyw yn hollbwysig o ran hygredd yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Cwestiwn 8

Beth yw eich barn chi ar sut fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau ar yr ystad yn y dyfodol?

- 7.13. Cafwyd 124 o ymatebion i'r cwestiwn hwn..
- 7.14. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn honni bod penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud pan gyhoeddwyd yr ymgynghoriadau, tra bod eraill yn dadlau gan ein bod wedi dweud y bydd angen llai o lysoedd arnom yn y dyfodol ei fod yn anochel y bydd cynigion i gau llysoedd yn digwydd. Roedd cefnogaeth gyffredinol am y syniad o gynnwys defnyddwyr a rhanddeiliaid yn gynharach yn y broses wrth ddatblygu cynigion i newid yr ystad, gan gynnwys barnwyr lleol. Bu i Fainc Gorllewin Llundain wneud y pwynt canlynol:

...byddwn yn gofyn am hysbysiad cynnar am unrhyw adeilad llys / maes busnes GLITEM a fydd yn destun newid, ni waeth os bydd cau llys ynteu gyfuno llys yn cael ei ystyried. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod yn y cam o'r broses lle mae GLITEM yn ystyried un neu fwy o opsiynau, fel bod modd i gyfraniadau gan yr holl ddefnyddwyr proffesiynol, yn enwedig yr Ynadaeth a Barnwyr Rhanbarth, gael eu hystyried fel rhan o benderfyniad neu fatrics gwerthuso cyn taflu opsiynau o'r neilltu neu cyn i benderfyniadau gael eu gwneud

Mainc Gorllewin Llundain

- 7.15. Roedd rhai ymatebwyr wedi pwysleisio pwysigrwydd seilio ymgynghoriadau ar dystiolaeth a bod data yn gywir ac yn gyfredol. Roedd yna gefnogaeth ar gyfer ymgynghoriad a arweinir yn lleol, gydag un ynad yn gwneud y sylw:

Croesawir ymgynghoriad a wneir yn lleol ac sy'n seiliedig ar gynnydd, tystiolaeth a manylion lleol.

Ynad

- 7.16. Er bod yr ymateb i'r cynnig i gynnal rhaglen dreigl o ymgynghoriadau yn gadarnhaol ar y cyfan, awgrymwyd hefyd ei fod yn anodd deall yr effaith posib heb ddeall pa safleoedd eraill all fod yn cael eu cynnig i'w cau bellach ymlaen. Roedd ymatebion eraill yn ein hannog i ganolbwyntio ein hymdrechion ar gyfuno gwasanaethau yn ein hadeiladau presennol, gan gynnal awdurdodaeth leol wrth leihau ein hystad

Yn hytrach nag edrych ar gau llysoedd fel digwyddiad awdurdodaethol unigol, dylai fod cynnig i gau llys yn cael ei bennu o fewn y cyd-destun o sut byddai'n galluogi creu canolfan cyfiawnder sy'n gartref i sawl awdurdodaeth, un ai trwy integreiddio i adeilad llys lleol arall, neu integreiddio i adeilad lleol priodol arall neu ddull lleol hyblyg, neu drwy fynediad digidol.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gorllewin Mersia.

Cwestiwn 7 ac 8 – Ein hymateb

7.17. Gwerthfawrogwn y gefnogaeth i'n bwriad i gyhoeddi ein matricesau gwerthuso mewn ffordd dryloyw, gan sicrhau bod ein hymgyngoriadau yn seiliedig ar dystiolaeth a bod ein hasesiadau yn cael eu deall yn iawn. Mae ein hymatebion i gwestiynau 1,3, 4 a 7 wedi mynd i'r afael â sawl newid y bwriadwn eu gwneud i fireinio ein hegwyddorion, ein proses ddadansoddi ac ein proses gwerthuso, i gefnogi cynigion i ddiwygio'r ystad yn y dyfodol. Rydym yn hyderus bydd y newidiadau hyn yn ein cefnogi i wneud penderfyniadau cadarn. Rydym hefyd yn croesawu'r gefnogaeth a fynegwyd gan rai ymatebwyr ar gyfer rhaglen dreigl o ymgynghoriadau sy'n cael eu harwain yn lleol, ac, ar wahân i hynny, y gefnogaeth ar gyfer ystyried cyfleoedd i gyfuno gwasanaethau yn ein hadeiladau presennol. Bydd chwilio am gyfleoedd i gyfuno ein gwasanaethau mewn nifer llai o adeiladau o fewn ardal leol, lle bo'n bosibl, yn ein helpu i leihau costau rhedeg ein hystad a darparu gwasanaethau yn fwy effeithlon..

Adolygiad Annibynol

7.18. Rydym yn hapus bod ymatebwyr wedi croesawu ein bwriad i gynnal adolygiad annibynnol. Mae'r adolygiad bellach wedi cael ei gynnal, gan Yr Athro Martin Chalkley, economegydd academiaidd ac Athro Economeg ym Mhrifysgol Efrog. Awgrymwyd Athro Chalkley i gynnal yr adolygiad annibynnol gan aelodau o'r uwch farnwriaeth sy'n eistedd ar Fwrdd GLITEM. Mae gan Athro Chalkley arbenigedd mewn modelau economegol mathemategol ac mae ganddo'r sgiliau ymchwil empirig i archwilio'r model trwy ddefnyddio dulliau ystadegol. Ers 1996, mae wedi rhoi cyngor a gweithredu fel ymgynghorydd ar nifer o agweddau o ddarparu cyfiawnder, gan gynnwys: Cymorth Cyfreithiol, cymhellion i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel, a materion sy'n ymwneud â chynyddu amrywiaeth yn y proffesiwn cyfreithiol.

7.19. Roedd yr adolygiad yn archwilio i'r cwestiwn o adnabod a gwerthuso cynigion i gau llysoedd. Bu i'r adolygiad, sydd ynghlwm yn Atodiad C, wneud nifer o awgrymiadau, gyda dau brif thema:

- *Pennu'r defnydd priodol o adeiladau yn ôl capasiti – yr argymhelliad craidd cyntaf oedd y dylwn ddatblygu dealltwriaeth well o beth fyddai'r gyfradd defnydd optimaidd ar gyfer gwahanol safleoedd, gan adlewyrchu'r ffaith, trwy ddefnyddio'r GIG fel enghraifft, nad yw defnydd 100% wastad yn bosibl neu'n ddymunol ym mhob achos. Mae gwaith nawr yn mynd rhagddo i edrych ar hyn, fel bod cynigion i gau llysoedd yn y dyfodol yn cael eu cyfarwyddo gan safbwynt cliriach o beth ddylai'r gyfradd defnydd targed fod yn y safleoedd a fyddai'n derbyn gwaith y safleoedd sy'n cau. Er ein bod yn ystyried fod yna gwahaniaethau mawr rhwng sut mae ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ac ystad y GIG yn cael eu defnyddio – yn benodol, mae defnydd o ystad y GIG yn edrych ar y defnydd o adeiladau 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, tra bod ystadegau ar y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn edrych ar ddiwrnod sy'n para 5 awr – credwn fod yna resymau dilys i archwilio ymhellach i ddefnydd optimaidd. .*

- *Cydbwyso ystyriaethau ariannol ac ystyriaethau eraill yng nghyswllt cau llysoedd – roedd yr ail brif argymhelliad yn ymwneud ag ein methodoleg ar gyfer pwyso a mesur ffactorau amrywiol a oedd yn cael eu hystyried (fel gwybodaeth ariannol, cyflwr y safle, lleoliad a ffactorau yn ymwneud â'r baich gwaith) wrth adnabod safleoedd posib i'w cau. Bu i adolygiad Athro Chalkley wneud awgrymiadau o ran sut gellir 'cwmpo' data ariannol i mewn i un mesur. Rydym nawr yn gweithio i ddatblygu proses gwerthuso a fydd yn cyflawni hyn..*

7.20. Bu i rai ymatebwyr awgrymu y dylwn roi'r gorau i gynnal ymgynghoriadau ar unrhyw gynigion i gau llysoedd hyd nes bod y rhaglen ddiwygio wedi'i chyflawni. Roedd rhai eraill yn dadlau y dylai'r farnwriaeth a rhanddeiliaid eraill gael eu hysbysu'n gynharach am unrhyw gynlluniau i gau llysoedd.

7.21. 8.21. Ni fyddwn yn cyflwyno cynnig i gau unrhyw lys hyd nes bod gennym dystiolaeth ddigonol i ddangos y byddai gyfuno'r ystad yn gweithio yn y lleoliad hwnnw. Lle rydym yn gweld dystiolaeth fod patrymau yn newid, a ni fydd angen adeilad mwyach, a gellir ei gau heb leihau mynediad at gyfiawnder, rydym eisiau ymateb i'r dystiolaeth honno yn amserol gan ymgynghori arni cyn gynted ag y bo modd, gan gasglu safbwyntiau ar yr achos i gau'r adeilad. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cau adeiladau wrth ragweld lleihad yn y baich gwaith, byddwn ond yn ystyried cau pan fo dystiolaeth glir i gefnogi cau'r adeilad sy'n destun ymgynghoriad. Mae angen taro cydbwysedd rhwng ymgynghori'n "rhy gynnar", pan nad oes dystiolaeth ddigonol o effaith y rhaglen ddiwygio i allu cyflwyno cynnig eglur ac ymarferol, ac ymgynghori'n "rhy hwyr", gan gymryd y risg na fyddai defnyddwyr y llys yn cael eu hysbysu'n ddigon buan o'r newidiadau i'r ystad sydd wedi'u cynllunio na chael y

cyfle i gyfarwyddo ein hystyriaethau mewn ffordd adeiladol.

- 7.22. Wrth wrando ar yr ymatebion ar fanteision darparu cyfleoedd cynnar i ddylanwadu ar ein hystyriaethau, rydym wedi ymrwymo i ymgynghori mor gynnar ag sy'n bosibl unwaith mae gennym dystiolaeth ddigonol i ddangos y bydd ein cynnig yn bodloni ein hegwyddorion diwygio'r ystad a chynnal capasiti digonol; ystyried capasiti yw'r elfen fwyaf perthnasol o ran "tystiolaeth o'r broses ddiwygio". Bydd yr union fath o dystiolaeth i gefnogi cynnig i gau adeilad yn ddibynnol ar asesiad fesul safle, a bydd yn cael ei heffeithio gan natur y gwaith a wrandewir yn y safle sy'n cau a'r safleoedd a fydd yn ymgymryd â gwaith y safle sy'n cau. Bydd ein dadansoddiad yn cynnwys y dadansoddiad capasiti "safonol" cyfredol, gan ddefnyddio'r math o wybodaeth rheoli sydd wedi cyfarwyddo cynigion blaenorol i gau safleoedd, a bydd yn cael ei wella trwy ystyried y newidiadau yn y fethodoleg rydym wedi ymrwymo iddynt yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad. Ond, bydd rhaid iddo hefyd ystyried yr effaith disgwylidig o'r rhaglen ddiwygio yn dilyn llwyddiant prototeipiau neu raglenni treigl cychwynnol, lle bo hyn yn berthnasol i hyfywedd cynnig o ran cynnal capasiti digonol².
- 7.23. Cyn lansio cynnig i gau safle, a lle bo cynnig arfaethedig yn ddibynnol ar fuddion a ragwelir (trwy gynlluniau peilot/proffion cynnar) sy'n deillio o'r rhaglen ddiwygio, bydd angen inni ddangos bod newidiadau mewn lle a'u bod yn gweithio'n effeithiol. Bydd yr ymgynghoriad yn nodi'n glir y byddai'n rhaid i fuddion y rhaglen ddiwygio fod yn effeithiol ar gyfer y safleoedd sy'n cael eu heffeithio cyn i'r cynnig i gau safle fynd yn ei flaen, a bod y cynnig hefyd ond yn cael ei roi ar waith pan fydd dystiolaeth yn dangos y bydd safleoedd eraill yn gallu ymdopi â gwaith y safle sy'n cau. Cyn cau llys neu driwiwnlys, bydd unrhyw amodau ar gyfer cau safle, sydd wedi'u nodi yn yr ymateb i'r ymgynghoriad sy'n cyhoeddi'r penderfyniad i gau safle, yn cael eu bodloni, gyda Bwrdd GLITEM yn rhoi cadarnhad i'r Arglwydd Ganghellor fod hyn wedi digwydd.
- 7.24. Rydym wedi cynnwys egwyddor, sydd wedi'i ddisgrifio ar ddechrau'r bennod hon, sy'n nodi y byddwn yn casglu dystiolaeth o ganlyniadau'r rhaglen ddiwygio wrth iddi fynd rhagddi. Yn ei dro, bydd hyn yn ein galluogi i ymgynghori ar gynigion cyn gynted ag sy'n bosibl.
- 7.25. Rydym hefyd wedi ystyried y pryderon a godwyd ynghylch peidio â darparu cyd-destun strategol ehangach, sef, cynlluniau ar gyfer safleoedd cyfagos eraill sy'n cael eu hystyried i'w cadw ynteu eu cau. Mae yna ddatl o blaid adnabod y safleoedd hynny lle tybiwn fod achos strategol cryf i gadw adeiladau yn y tymor canolig i'r tymor hir (10 mlynedd neu fwy). Fodd bynnag, trwy gyhoeddi safbwynt o ran pa adeiladau byddwn yn disgwyl eu cadw, mae perygl mae'r casgliad a wneir yw bod unrhyw safleoedd nad ydym yn cyfeirio atynt yn safleoedd rydym yn ystyried i'w cau, a all beri pryder ymysg unrhyw staff neu ddefnyddwyr lleol. Mae yna ddwy ystyriaeth bellach:
- Yn gyntaf, byddai'n rhy gynnar dweud fod safleoedd penodol am gael eu cadw a rhai eraill am gael eu cau; mae angen dystiolaeth glir arnom am leihad yn y baich gwaith o ganlyniad i'r broses foderneiddio cyn cyhoeddi cynigion penodol, i alluogi trafodaeth briodol a theg..
 - Yn ail, gall amgylchiadau a ffeithiau newid dros amser. Gall hyn olygu nid oes modd cadw safle sy'n ddymunol i'w gadw ar lefel strategol oherwydd, er enghraifft, bod landlord y safle yn dymuno dod â phrydles i ben ar yr eiddo sy'n cael ei brydlesu gan GLITEM.
- 7.26. Fodd bynnag, wrth ystyried yr adborth ar yr ymgynghoriad, byddwn, cyn belled ag y bo modd, yn nodi ein bwriadau a'n disgwyladau ehangach ar gyfer yr ystad o fewn yr ardal leol dan sylw pan fyddwn yn ymgynghori ar gau safle penodol, er mwyn darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i gefnogi trafodaeth agored a chasglu safbwyntiau.
- 7.27. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r pwynt a wnaed i sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y safleoedd hynny rydym yn bwriadu eu cadw, ac nid y rhai hynny y disgwylid yn byddwn yn eu cau yn y dyfodol agos. Yn gyffredinol, byddwn wastad yn ceisio buddsoddi yn y ffordd hon, gan gadw mewn cof bydd angen gwario rhywfaint o arian ar waith cynnal a chadw hanfodol mewn rhai safleoedd a fydd o bosib yn cael eu cau yn y tymor canolig, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr yn effeithiol, hyd nes bod proses ymgynghori wedi dod i ben
- 7.28. Wrth gyhoeddi ymgynghoriadau, byddwn yn cynnwys manylion o'r broses rydym wedi'i dilyn i ddatblygu'r cynigion, gan gynnwys pa ymgynghoriad sydd eisoes wedi'i gynnal gyda fforymau barnwrol a chyfraniadau rheolwyr a staff lleol. Byddwn yn gweithio gyda'r uwch farnwriaeth ar bennu'r lefel ymgysylltu briodol gydag aelodau o'r farnwriaeth o ran cynigion sydd ar y gweill, wrth ymateb i'r ddatl a wnaed o blaid ymgysylltu mor gynnar ag sy'n bosibl.

² Some proposals for estates changes may continue to be put forward without requiring reform, based on current spare capacity.

8. Gwerthuso effaith gwneud newidiadau i'r ystad ar y gwasanaethau a ddarperir

- 8.1. Wrth ddatblygu ein cynigion ystadau strategol, rydym wedi ystyried effeithiau ar gydraddoldeb yn ofalus. Er enghraifft, rydym wedi trafod yr angen am ddarpariaeth amgen i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd, ac rydym wedi ystyried hygrychedd o ran cyfleusterau a nodweddion dylunio ein hadeiladau; hygrychedd yw un o egwyddorion craidd ein Canllaw Dylunio newydd. Rydym wedi nodi'n benodol yn ein canllaw newydd y bydd rhaid i unrhyw waith adeiladu ac adnewyddu gydymffurfio â rheoliadau adeiladu a chyda Deddf Cydraddoldeb 2010; mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys o fewn y dyluniadau. Rydym wedi ymgysylltu â'r Grŵp Ymgysylltu Cydraddoldeb a Chynhwysiad a'r Comisiwn Hawliau Dynol, ac mae Strategydd Hygrychedd a Chynhwysiad GLITEM wedi adolygu'r canllaw i sicrhau ei fod yn cydymffurfio.
- 8.2. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi ystyried yr effeithiau posib ar gydraddoldeb ar ddechrau a thrwy gydol y broses o ddatblygu ein cynigion polisi. Rydym wedi cynnwys cwestiynau am faterion cydraddoldeb yn yr ymgynghoriad hwn ac wedi cyflwyno ein dadansoddiad mewn datganiad cydraddoldeb, sydd ynghlwm yn Atodiad D.
- 8.3. Roedd y nawfed cwestiwn yn ceisio barn am sut all y cynigion effeithio ar ddefnyddwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae ein dadansoddiad o'r safbwyntiau hynny, ynghyd â'n hymateb, wedi'u nodi isod.

Cwestiwn 9

Beth yw eich barn chi ar sut mae'r cynigion hyn yn debygol o effeithio ar grwpiau o ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? A oes yna unrhyw ffynonellau tystiolaeth neu waith ymchwil ddylem eu hystyried?

- 8.4. Cafwyd 159 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y prif faterion a godwyd yn gorgyffwrdd â phryderon a godwyd mewn ymatebion eraill ynghylch amseroedd teithio a mynediad at gyfiawnder. Mewn rhai achosion, roedd ymatebwyr yn crybwyll materion cydraddoldeb mewn atebion i gwestiynau eraill; rydym wedi ystyried y rhain hefyd.
- 8.5. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn canolbwyntio ar yr angen i GLITEM ymgysylltu â defnyddwyr bregus, neu'r rhai hynny sydd â nodwedd warchoddedig fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Roedd rhai ymatebwyr wedi ailadrodd pwysigrwydd ceisio gwybodaeth am brofiadau go iawn defnyddwyr ac ystyried defnyddio'r wybodaeth hon mewn ffordd ragweithiol wrth ddatblygu cynigion i ymgynghori arnynt. Mae GLITEM yn ystyried profiadau defnyddwyr ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r dystiolaeth gyfredol gan ymchwil blaenorol i'n cyfarwyddo o ran sut fath o brofiadau mae defnyddwyr yn eu cael. Er bod llawer o sefydliadau trydydd sector wedi ymateb i'r ymgynghoriad, teimlwyd byddai modd cael gwybodaeth bellach gan sefydliadau elusennol sy'n gweithio gyda grwpiau bregus. Bu inni adnabod y sefydliadau penodol isod fel rhai y dylem geisio gwybodaeth fanylach ganddynt (er bod rhai ohonynt wedi ymateb i'r ymgynghoriad):
 - Cymorth i Ferched
 - Shelter
 - Cyngor ar Bopeth
 - Mencap
 - Age Concern
 - RNIB (Cymdeithas Genedlaethol Frenhinol dros Bobl Ddall)
 - Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- 8.6. Dadleuodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) y byddai'n fuddiol petai'r dystiolaeth ar gydraddoldeb a ddarparwyd yn y strategaeth yn fwy cynhwysfawr ac yn cael ei chynnwys mewn datganiad cydraddoldeb. Bu i'r EHRC wneud y sylw pellach y byddai'n parhau i fod yn anodd i GLITEM asesu effeithiau'r cynigion ar gydraddoldeb heb gael data manylach ar ddefnyddwyr y llys, gan honni nad oedd digon o dystiolaeth o ran nodweddion gwarchoddedig, a dylai corff cyhoeddus gymryd camau i geisio gwybodaeth o'r fath. Roedd yr ymateb i'r prosesau lliniaru a manylwyd arnynt yn ffafriol, ond byddai angen rhagor o fanylion i allu rhoi unrhyw sylwadau pellach. Mynegwyd pwyntiau tebyg gan yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS):

Er na all GLITEM gasglu'r holl ddata ei hun, mae data cydraddoldeb ar droseddwyr a dioddefwyr troseddau ar gael. O'r data hyn a'r data a gesglir ar ganlyniadau achosion troseddol, siŵr o fod mae'n bosibl un ai casglu'r wybodaeth ar y nodweddion gwarchoddedig yn uniongyrchol neu gael gafael ar yr wybodaeth honno gan ffynonellau eraill. Hefyd, gall fod yn bosibl adnabod y gwasgariad ar lefel ranbarthol ac alinio hyn â'r ystadegau a gasglwyd am ddemograffeg gymdeithasol-economaidd ardaloedd yng Nghymru a Lloegr. Byddai hyn yn darparu darlun eithaf cywir o ddemograffeg troseddwyr a

dioddefwyr ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol.

Undeb PCS

- 8.7. Roedd llawer o ymatebwyr yn gofyn inni ddarparu datganiad cydraddoldeb manwl, fel y darperir ar gyfer dogfennau sy'n ymwneud â chau llysoedd unigol. Bu i rai ymatebwyr roi eu barn o ran pa grwpiau byddai'n cael eu heffeithio, fel arfer oherwydd amseroedd teithio hirach. Grwpiau penodol a grybwyllwyd oedd unigolion ag anableddau, yr henoed, merched beichiog, unigolion ar incwm isel, unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Grwpiau Ethnig Lleiafrifol (BAME) a phobl ifanc. Roedd llawer yn cwestiynu p'un a fyddai'r effaith lliniarol o dechnoleg fodern yn ddigonol ar gyfer y rhai hynny nad oes ganddynt fynediad iddi, y rhai hynny sy'n dioddef anawsterau iechyd meddwl, y rhai hynny'n sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau, unigolion gyda phroblemau cyfathrebu a phobl awtistig. Bu i Gymdeithas y Gyfraith wneud y sylw isod

Mae'r asesiad yn canolbwyntio'n benodol ar effaith uniongyrchol cau safleoedd ar bobl anabl a merched beichiog. Fodd bynnag, bydd yna oblygiadau pellgyrhaeddol ar grwpiau eraill nad ydynt yn cael eu crybwyll yn yr asesiad. Yn benodol, bydd amseroedd teithio hirach i'r llys ac yn ôl yn cael effaith negyddol ar yr henoed a phobl sy'n gofalu am blant ifanc iawn neu blant oed ysgol.

Cymdeithas y Gyfraith

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

- 8.8. Mae materion cydraddoldeb yn destun pryder mawr i'n rhanddeiliaid a'n defnyddwyr. Tra roedd rhai yn bryderus ynghylch sut all cau llysoedd effeithio ar fynediad at gyfiawnder i'r grwpiau a ddisgrifiwyd uchod, roedd cydnabyddiaeth hefyd y byddai'r rhaglen foderneiddio yn fuddiol i'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Mewn rhai achosion, byddai darparu rhagor o wasanaethau digidol ac ar-lein yn gwella'r cyfleoedd cyfartal ar gyfer y rhai hynny sy'n ei chael yn anodd teithio, fel y nodwyd gan Age UK:

Mae Age UK yn cydnabod y cynilion a'r buddion posib i ddefnyddwyr llys o ganlyniad i symud tuag at gynnal gwrandawiaidau llys a thribiwnlys ar-lein. Wrth ystyried y materion trafndiaeth a drafodwyd...mae darparu gwasanaethau digidol yn debygol o gael ei groesawu gan ddefnyddwyr sy'n ei chael yn anodd teithio i adeilad llys neu adeilad tribiwnlys.

Age UK

- 8.9. Ynghyd ag amlygu'r grwpiau amrywiol y byddai angen eu hystyried yn fanwl ac effeithiau tebygol y strategaeth ar y grwpiau hyn, roedd y sylwadau yn canolbwyntio'n gyffredinol ar y pwynt bod gan wahanol ddefnyddwyr anghenion gwahanol. Yn yr un modd, byddai gwahanol fathau o wrandawiaidau ac awdurdodaethau yn golygu byddai angen lefelau gwahanol o gymorth ar gyfer ein defnyddwyr.

Ymateb

- 8.10. Rydym wedi ystyried yn ofalus safbwyntiau ymatebwyr ynghylch effeithiau ar gydraddoldeb. O ganlyniad i hyn, rydym wedi cynnal asesiad cydraddoldeb llawn o'n cynigion strategol, sydd wedi'i bennu isod, ac mae'n cynnwys y dystiolaeth sydd ar gael a dadansoddiad o'r effeithiau posibl. Yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd, rydym wedi adnabod ffynonellau data dirprwyol amgen i gyfarwyddo'r datganiad cydraddoldeb hwn. Mae hyn yn cynnwys data ar ddiodeffwyr troseddau personol a gwybodaeth ddemograffeg defnyddwyr posibl y llys sifil a'r llys teulu. Mae'r datganiad cydraddoldeb yn esbonio ein casgliadau ynghylch ein cynigion strategol lefel uchel (h.y. nid llysoedd penodol) yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfredol.
- 8.11. Rydym yn cydnabod natur parhaus ein rhwymedigaethau tuag at y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchodedig. Wrth inni drafod prosiectau neu gynigion unigol yn y strategaeth, byddwn yn ystyried pa wybodaeth rydym ei hangen i gyfarwyddo'r effeithiau unigol ar gydraddoldeb, i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried mewn ffordd gymesur ac ein bod yn asesu'r goblygiadau tebygol ar gydraddoldeb yn seiliedig ar unrhyw dystiolaeth newydd neu dystiolaeth sy'n ymddangos.
- 8.12. Byddwn hefyd yn archwilio sut mae modd inni wella ein gwybodaeth o ran demograffeg ein defnyddwyr gyda nodweddion gwarchodedig, gan ddatblygu ein dealltwriaeth o ddefnyddwyr bregus. Er ein bod yn credu bod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi rhoi cyfle i'r holl sefydliadau allweddol ymateb yn llawn i'n cynigion a darparu dystiolaeth inni ynghylch yr effaith ar y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchodedig, byddwn yn ystyried beth fydd y ffordd orau inni ymgysylltu yn rhagweithiol gyda rhanddeiliaid allweddol i wella ein gwybodaeth am ddefnyddwyr a'u hanghenion.
- 8.13. Rydym wedi darparu'r Datganiad Cydraddoldeb yn Atodiad D.

9. Unrhyw sylwadau eraill

- 9.1. Roedd y cwestiwn olaf yn gofyn am unrhyw sylwadau eraill gan ymatebwyr ynghylch ein strategaeth ystadau. Rydym yn eu dadansoddi ac yn ymateb iddynt isod.

Cwestiwn 10

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w nodi ar ein strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol?

- 9.2. Cafwyd 118 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Bu i lawer o ymatebwyr gymryd y cyfle i ailadrodd dadleuon a wnaed yn rhannau eraill yr ymgynghoriad. Bu i rai ganmol natur agored y cwestiynau a oedd yn galluogi ymateb mewn ffordd fwy pen agored. Bu i un ynad ganmol yr ymgynghoriad oherwydd bod:
- ...y cwestiynau yn fwy agored ac yn rhoi gwell cyfle i'r ymatebydd fynegi ei safbwyntiau a'i farnau, yn hytrach na gofyn iddo gefnogi'r cynnig. Gobeithiaf y bydd ymgynghoriadau yn y dyfodol o'r un ansawdd
- Ynad
- 9.3. Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar wrando ar ddefnyddwyr ac yn pwysleisio pwysigrwydd mynediad at gyfiawnder. Roedd rhai wedi dadlau mai prif gymhelliad y strategaeth oedd ffactorau ariannol ac roedd rhai yn teimlo nad oedd digon o eglurder o ran sut byddai llwyddiant yn cael ei fesur. Un canfyddiad oedd bod newidiadau yn cael eu gwneud yn seiliedig ar ragdybiaethau am dechnoleg a seilwaith yn y dyfodol a'r hyn byddant yn ei gyflawni, a bod gwneud hyn yn annoeth. Mynegwyd un safbwynt y dylai'r cynlluniau gael eu rhoi ar waith yn raddol fel rhan o raglen dreigl. Bu i rai ymatebwyr fynnu na ddylai unrhyw safleoedd eraill gael eu cau hyd nes bod y prosiectau a thechnoleg newydd wedi cael eu profi'n llawn, tra bod eraill yn dadlau bod y dechnoleg yn agor drysau a mynegwyd safbwynt cadarnhaol o ran y gwaith rydym yn ei wneud i'w chynnwys yn y system gyfiawnder. Yn olaf, roedd yna sylwadau gan rai yn gofyn i'r farnwriaeth chwarae rhan fwy ym mhob agwedd ar ddiwygio.

Ymateb

- 9.4. Rydym yn hapus bod yr ymateb gan rai ymatebwyr i'r broses ymgynghori ei hun yn un gadarnhaol. Mae ein strategaeth ar gyfer ystad y llysoedd yn rhan bwysig o ddarparu'r math o system gyfiawnder y teimlwn sydd ei hangen yn yr 21ain ganrif. Felly, rydym yn ddiolchgar i'r rhai hynny a wnaeth yr ymdrech i ymateb a gwerthfawrogn yr amser a'r ymdrech a roddwyd wrth ystyried y cwestiynau a ofynnwyd.
- 9.5. Cydnabyddwn fod llawer o bobl yn teimlo'n anhapus, yn anghyfforddus neu'n flin ynghylch y ffaith ein bod yn cau llysoedd: mae llawer yn ystyried ein hadeiladau llys a thribiwnlys fel cynrychiolaeth ffisegol o reolaeth y gyfraith - sy'n rhan sylfaenol o gymdeithas. Credwn y bydd ein hegwyddorion newydd ar gyfer ystyried cynigion i ddiwygio'r ystad yn y dyfodol yn sicrhau asesiadau cytbwys, gwrthrychol a theg o'r holl ffactorau perthnasol wrth i ni wneud penderfyniadau ynghylch cau safleoedd yn y dyfodol.
- 9.6. Mynegodd rai ymatebwyr bryder mai ein prif gymhelliad oedd ffactorau ariannol. Nid arbed arian yw ein nod - ein nod yw darparu cyfiawnder - ond mae'n iawn ein bod yn meddwl yn ofalus ynghylch sut byddwn yn gwario'r arian sydd gennym i wneud hynny. Bydd yna wastad benderfyniadau i'w gwneud o ran sut byddwn yn defnyddio'r adnoddau sydd gennym i ddarparu'r mynediad orau bosib at gyfiawnder. Bydd hyn yn golygu cydbwysu gwario arian ar adeiladau (yn enwedig y rhai hynny nad ydynt yn cael eu defnyddio llawer) yn erbyn ffyrdd eraill o gael mynediad at gyfiawnder, a fyddai o bosib yn gwneud mwy o wahaniaeth i nifer fwy o bobl. Credwn y bydd y prosesau diwygio rydym yn eu rhoi ar waith yn gwella mynediad at wasanaethau i'n holl ddefnyddwyr, gan olygu bydd ein harian yn mynd ymhellach i helpu ein defnyddwyr.
- 9.7. 10.7. Gwyddwn fod ein proses foderneiddio, er ei bod yn mynd rhagddo, heb ddangos graddfa effaith y newidiadau sydd fwyaf tebygol o wneud gwahaniaeth i'r galw yn yr ystad. Mae'n bwysig pwysleisio nid yw unrhyw un o'r penderfyniadau i gau llysoedd hyd yma wedi bod yn ddibynnol ar ein cynlluniau moderneiddio. Fodd bynnag, mae'n briodol ein bod yn datblygu egwyddorion ar gyfer newidiadau i'r ystad yn y dyfodol sy'n ystyried ein gweledigaeth a'n cynlluniau i foderneiddio ein gwasanaethau; gan fod y rhaglen ddiwygio wedi dechrau arwain at lwyddiannau. Er enghraifft, ym mis Mai 2018, bu inni gyflwyno gwasanaeth sy'n galluogi unigolion i wneud cais am ysgariad ar-lein. Mae'r gwasanaeth hwn wedi lleihau cyfraddau camgymeriadau mewn ffurflenni cais o 40% i lai na 1%, gan arbed amser i ddefnyddwyr a lleihau dryswch ac ansicrwydd. Mae 85% o ddefnyddwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gwasanaeth ysgariad ar-lein newydd - mae'n darparu gwasanaeth sy'n well i ddefnyddwyr sy'n llai costus i'w rhedeg, ac mae'n haws cael popeth yn iawn y tro cyntaf gan ei fod yn symlach ac yn gliriach.
- 9.8. Gan ymateb i'r sylw y dylai ein cynlluniau gael eu cyflwyno'r raddol, rydym yn cytuno, ac mae hyn yn rhan o'r cynllun; bydd newidiadau arfaethedig yn cael eu profi a byddwn yn cynnal cynlluniau peilot cyn eu cyflwyno'n genedlaethol. Bydd unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r ystad yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth glir bod ein prosesau diwygio yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus a ni fydd y llys yn cau hyd nes bydd yna dystiolaeth i gefnogi gwneud hyn, fel yr esboniwyd uchod yn Rhan 8.
- 9.9. Credwn fod ein hegwyddorion ystadau diwygiedig, sy'n seiliedig ar yr adborth a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i wneud y penderfyniadau gorau posibl ynghylch ein hystad, wrth inni barhau i gyflwyno ein rhaglen ddiwygio yn raddol.
- 9.10. Hefyd, rydym wedi gwrandao ar yr adborth i'r ymgynghoriad, sydd wedi dweud tro ar ôl thro bod rhaid inni ystyried

anghenion gwahanol ddefnyddwyr, ynghyd â sut all yr anghenion hyn amrywio yn ddibynol ar y math o wrandawriad. Byddwn yn gwneud hyn pan fyddwn yn ystyried newidiadau i ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn y dyfodol. Felly, byddwn yn ystyried yn ofalus yr effaith ar awdurdodaethau arbenigol, er enghraifft, y llys ieuencid, fel yr amlygwyd gan sawl ymateb..

- 9.11. Yn olaf, o ran cynnwys y farnwriaeth yn gynnar yn y broses ddiwygio, mae GLITEM wedi sefydlu grwpiau ymgysylltu â'r farnwriaeth i drafod yn fanwl yr holl brosesau diwygio mae GLITEM yn eu datblygu. Mae'r grwpiau hyn wedi bod yn weithredol ers mis Rhagfyr 2015. Mae'n bwysig nodi bod y farnwriaeth yn llywio ac yn arwain ar y broses ddiwygio, gan weithio ar y cyd â GLITEM. Mae GLITEM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, ond mae hefyd yn atebol i'r Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Mae barnwyr unigol yn cyfrannu ar draws y rhaglen, mewn gweithgorau a thrwy'r Grwpiau Ymgysylltu â'r Farnwriaeth, sy'n cael eu goruchwyllo gan farnwyr arweinyddiaeth. Mae'r farnwriaeth yn cael ei chynrychioli ledled strwythur llywodraethu y Rhaglen Ddiwygio, ac mae 'rhwydwaith diwygio'r farnwriaeth' yn cysylltu'r fforymau barnwrol amrywiol sy'n rhoi safbwynt barnwrol ar ddyluniad y rhaglen ddiwygio neu unrhyw gwestiynau ynghylch sut bydd yn cael eu rhoi ar waith.
- 9.12. Ymysg pethau eraill, bwriedir i'n hegwyddorion sicrhau ein bod yn rheoli ystad y tribiwnlysoedd yn effeithiol, a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â barnwriaeth y tribiwnlysoedd, gan ystyried arweiniad gan yr Uwch Lywydd ar yr ystyriaethau penodol ynghylch symud gwaith sy'n ymwneud â'r tribiwnlysoedd. Cydnabyddwn fod angen inni ddeall safbwyntiau'r farnwriaeth wrth fynd i'r afael â'r amrywiaeth eang o waith, ac arferion gwaith, mewn ystad tribiwnlysoedd lle mae'r mwyafrif o'r adeiladau yn cael eu prydlesu
- 9.13. Cyflawnwyd gwaith helaeth i ymgysylltu â'r farnwriaeth ehangach yng Nghymru a Lloegr, a ariennir gan y rhaglen ond sy'n cael eu rhoi ar waith gan y farnwriaeth ei hun. Er enghraifft, yn 2018, darparodd pedair dogfen awdurdodaethol ar 'Dulliau Gwaith Barnwrol' sail ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu, a chafwyd adborth gan lawer o aelodau o'r farnwriaeth, sydd wedi cyfarwyddo trafodaethau dilynol rhwng yr uwch farnwriaeth a GLITEM. Mae'r ffaith bod y farnwriaeth a'r Llywodraeth yn cefnogi'r rhaglen ddiwygio yn allweddol ar gyfer ei llwyddiant..
- 10.14. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cyfarwyddo ein dull strategol ar gyfer diwygio ein hystad yn y dyfodol. Felly, hoffwn ddiolch unwaith eto i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Casgliad a'r camau nesaf

Bydd ein hegwyddorion ystadau newydd yn llywio ein penderfyniadau wrth inni asesu ein hystad gweithredol ac ystyried gwneud unrhyw newidiadau pellach iddo.

Our assessments will:

- seiliedig ar ddatblygu matricesau gwerthuso a fydd yn edrych ar wybodaeth berthnasol am: hygyrchedd; beichiau gwaith; cyflwr a chpasiti adeilad; a chostau gweithredu a chostau cynnal a chadw;
- rhoi methodoleg newydd ar waith ar gyfer asesu effeithiau amseroedd teithio;
- darparu esboniad o'r cynnydd gyda'r rhaglen ddiwygio sy'n tanategu ein hasesiad o gapasiti, lle bo'n berthnasol i'r cynnig dan sylw.

Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydym yn cyhoeddi ein Canllaw Dylunio newydd ar gyfer y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd. Bydd y canllaw hwn yn sicrhau bod technoleg yn rhan annatod o'r broses ddylunio, yn hytrach na chael ei hychwanegu bellach ymlaen, ac yn sicrhau bod gennym ystafelloedd gwrandawiaadau a gofodau gweithio sy'n cefnogi ffyrdd digidol o weithio ac ein bod yn dylunio ystafelloedd fel eu bod yn hyblyg, gan alluogi defnydd gwell o'n hystad a fydd yn fuddiol i ddefnyddwyr.

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a wnaeth yr ymdrech i ymateb a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn i ddatblygu ein dull strategol ar gyfer diwygio'r ystad yn y dyfodol. Mae diwygio a moderneiddio'r gwasanaethau rydym yn eu darparu yn gyfle na welwyd erioed o'r blaen yn ein hanes. Wrth roi ein hegwyddorion ystadau newydd ar waith, byddwn yn sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn ynghylch ein hadeiladau yn alinio â'r trawsnewidiad ehangach hwn.

Impact assessment

The consultation does not include any specific proposals for estates change and therefore it is not possible to complete an impact assessment. As in previous consultations for individual court closures we will in future publish impact assessments to go alongside those proposals.

Equality statement

We have completed an equality statement to accompany our estates strategy, which is included as Annex D and which is introduced in Section 9. We also outline the approach we will take when assessing equalities impacts arising from future specific proposals for reforming our court and tribunal estate.

A Welsh language response paper can be found at [\[link\]](#).

A list of respondents is provided at [Annex A](#). Summary of responses

Egwyddorion Ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u pennu yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad, bu i'r unigolion a'r sefydliadau penodol hyn ymateb i'r ymgynghoriad hefyd:

12CP Barristers Chambers	Gweithredwyr Cyfreithiol	Mainc Dwyrain Kent
187 Fleet Street	Cyngor Tref Chippenham	EBR Attridge LLP
3PB Barristers	Cyngor ar Bopeth	eCOURT Limited
Age UK	Cyngor ar Bopeth - Gwasanaeth Tystion - Llys Ynadon Caergrawnt	Cymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth
Aitken Harter, Solicitors	Cyngor ar Bopeth – Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf	Y Tribiwnlys Cyflogaeth, SSEC a JP
APAC EMEA & Auscript	Corfforaeth Dinas Llundain	Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Gogledd Ddwyrain Lloegr)
Rheolwr Rhanbarthol y Tîm Troseddau leuenticid, Gwasanaeth Troseddau leuenticid Swydd Stafford	Cymdeithas Defnyddwyr y Llysoedd Sifil	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi	Clarke Willmott	Evening Standard
Cymdeithas Barnwyr Cymru	Commons Law CIC	Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Eiddo, Eiddo Preswyl
Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol (APIL)	Consultations SEL Bench	Cyng-gadeirydd Mainc Manceinion Fwyaf
Cymdeithas Prif Weithredwyr Plismona a Throsedd	Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Mawrhydi	Uned Gynrychiolaeth Am Ddim
Bank House Chambers	Cyngorydd - Banbury	Gwasanaeth Eiriolaeth Lawrydd
Bargyfreithwyr	CPR LP - Cosmetic Practitioner Register	Cyfreithiwr Llawrydd
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydeinig (BASW England)	Y Gynghair Cyfiawnder Troseddol	Barnwr yr Uchel Lys – Barnwr Llywyddol leuaf, Cylchdaith Gorllewin Lloegr
British Naturism, Cymdeithas Genedlaethol i Noethlymunwyr yn y Deyrnas Unedig	Cymdeithas Cyfreithwyr Troseddol	Staff GLITEM
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	Gwasanaeth Erllyn y Goron	Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai
Ynadon Mainc Swydd Buckingham	Dirprwy Gadeirydd Mainc, QEII Lerpwl	Cyngor Corfforedig Adrodd am y Gyfraith dros Gymru a Lloegr
Gwasanaeth Anableddau Swydd Buckingham, BuDS	Dirprwy Gadeirydd Mainc, Sefton	Y Farnwriaeth
Mainc Canol Caint	Dirprwy Gadeirydd Mainc, Wirral	Adran Cyfreithwyr leuaf
Cadeirydd Mainc Ynadon Gogledd a Dwyrain Dyfnaint	Barnwr Teulu Dynodedig dros Swydd Hertford	Ynad Heddwch
Sefydliad Siartredig	Barnwr Rhanbarth, Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Caerdydd	Kenworthy Chambers
	Barnwyr Rhanbarth sy'n eistedd yn Llys Sirol Kingston upon Thames	LawWorks a'r Partneriaid Strategaeth Cefnogi Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain
	Doughty Street Chambers	

Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol (LAPG)

LLG (Troseddol) dros Gymru (nid yw safbwyntiau swyddogion GLITEM sy'n aelodau o'r LLG yn cael eu cynrychioli)

London Napo

Ynadon

Gweithgor Rheoli Gwrandawiadau Fideo

MOPAC

Mainc Gogledd a Gorllewin Cymbria

Fforwm Cadeiryddion Meinciau Cenedlaethol (NBCF)

Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC)

Rhwydwaith Cenedlaethol Troseddau Cefn Gwlad

Needham Poulter, Solicitors

Cymdeithas y Gyfraith Newcastle upon Tyne

Ynadon Gogledd Hampshire

Panel Ieuentid Sirol Swydd Northampton

Mainc Gogledd Swydd Derby

Nsandi

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Gaerloyw

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Northumbria

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Swydd Efrog

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gorllewin Mersia

Parklane Plowden Chambers

Payton's Solicitors

PCS

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Northampton

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Swydd Efrog

Comisiynydd Heddlu, Trosedd a Dioddefwyr Durham

Powell Spencer and Partners, Solicitors

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Llywydd y Goruchaf Lys

Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai

Public Law Project

Mainc Gorllewin Llundain

Queen Square Chambers, Bryste

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac
Ymyrraeth Gynnar Western Bay

Barnwr Tribiwnlys Rhanbarthol (SSCS)
dros Gymru a De Orllewin Lloegr

Wiseman Lee Solicitors

Resolution

Gwasanaeth Tystion

Robert James Worley and Frances Day Charity

Cymorth i Ferched

Gwasanaeth Hawliau Lles a Chyngor ar Ddyledion, Salford

Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Cyfreithiwr Hunangyflogedig sy'n Adfocad

Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Sifil Dynodedig
dros Avon, Gwlad yr Haf a Swydd Gaerloyw

Uwch Ddarlithydd yn Adran Astudiaethau
Newyddiaduriaeth Prifysgol Sheffield

Serco PLC

Shaw Graham Kersh, Solicitors

Cyfreithwyr

St James Solicitors

Canolfan Gyngor St Pauls

Pwyllgor Sefydlog dros Gyfiawnder Ieuencid

Hawliau Lles Tameside

Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi, Pwyllgor Cymru

Cyngor y Bar

Cyngor y Barnwyr Cyflogaeth

Cyngor Barnwyr yr Uwch Dribiwnlys

Cymdeithas y Gyfraith

Cymdeithas yr Ynadon

Y Barnwyr Llywyddol a Barnwr Cyswllt Yr Adran Deulu, Cymru

Cylchdaith Gorllewin Lloegr

Thomas More Chambers

Transform Justice

Transparency Project

War Pensions and Armed Forces Compensation Chamber

Hawliau Lles, Cyngor Redcar a Cleveland

Fforwm Cadeiryddion Meinciau Cymru

Atodiad B – Rhestr o’r cwestiynau

- Q1. Beth yw eich barn chi ar ein meincnod arfaethedig y dylai bod y mwyafrif yn gallu mynychu gwrandawriad ar amser a dychwelyd o fewn diwrnod, a gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen?
- Q2. Beth yw eich barn chi ar ddarparu gwasanaethau’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd tu allan i adeiladau llysoedd a’r tribiwnlysoedd traddodiadol? A oes gennych chi farn ar y dulliau yr ydym yn bwriadu eu mabwysiadu ac a oes yna gamau eraill y gallwn eu cymryd i wella hygyrchedd ein gwasanaethau?
- Q3. Beth yw eich barn chi ar sut fydd ein dadansoddiad o’r amseroedd teithio yn cael effaith ar ein cynigion? A oes yna unrhyw ddulliau eraill dylem eu hystyried?
- Q4. A ydych chi’n cytuno mai’r meini prawf hyn yw’r rhai cywir i’w defnyddio wrth asesu capasiti? A oes yna unrhyw rai eraill dylem eu hystyried?
- Q5. Beth yw eich barn chi ar yr egwyddorion a’r dull arfaethedig i wella dyluniad adeiladau’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd? A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliant?
- Q6. Beth yw eich barn chi ar ein dull o warchod pobl a systemau? Beth yw’r ffordd orau o ymgysylltu â’r amrywiaeth fwyaf posibl o ddefnyddwyr wrth i ni ddatblygu systemau ar gyfer trefnu a rhestru achosion? Pa ffactorau ddylem gymryd i ystyriaeth wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau?
- Q7. A oes gennych farn ar ein dull ni o werthuso cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i’r ystad neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gallwn wella hyn?
- Q8. Beth yw eich barn chi ar sut fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau ar yr ystad yn y dyfodol?
- Q9. Beth yw eich barn chi ar sut mae’r cynigion hyn yn debygol o effeithio ar grwpiau o ddefnyddwyr y llysoedd a’r tribiwnlysoedd sydd â nodweddion gwarchodedig penodol fel y’i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? A oes yna unrhyw ffynonellau tystiolaeth neu waith ymchwil ddylem eu hystyried?
- Q10. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i’w nodi ar ein strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol?

Atodiad C – Adolygiad Annibynnol o'r Dadansoddiad o Strategaeth Ystadau GLITEM

Yr Athro Martin Chalkley, Prifysgol Efrog

Gofynnwyd i mi ddarparu adolygiad annibynnol o'r dadansoddiad sy'n tanategu Strategaeth Ystadau GLITEM yng nghyswllt y posibilrwydd o gau llysoedd yn y dyfodol. Mae'r dadansoddiad hwnnw wedi datblygu ac esblygu wrth i'r Strategaeth Ystadau fynd yn ei blaen, ond, yn fras, pwrpas y dadansoddiad yw (i) pennu a oes modd i lysoedd eraill ymdopi â gwaith y llysoedd a all fod yn cau, a (ii) darparu arweiniad o ran pa lysoedd y dylid eu cau, gan ystyried cost ac ystyriaethau eraill.

Rwy'n economegydd academiaidd ac yn Athro Economeg ym Mhrifysgol Efrog. Mae gen i arbenigedd mewn modelau economegol mathemategol ac rwy'n meddu ar y sgiliau ymchwil empirig sydd eu hangen i archwilio'r model trwy ddefnyddio dulliau ystadegol. Ers 1996, rwyf wedi rhoi cyngor a gweithredu fel ymgynghorydd ar nifer o agweddau o ddarparu cyfiawnder, gan gynnwys: Cymorth Cyfreithiol, cymhellion i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel, a materion sy'n ymwneud â chynyddu amrywiaeth yn y professiwn cyfreithiol.

Rwyf wedi cynnal yr adolygiad hwn ar sail Pro Bono a heb unrhyw rwymedigaeth, yn amodol yn unig ar lythyr oedd yn pennu'r cylch gorchwyl. Rwy'n ddiolchgar iawn i GLITEM am ddarparu briffiau, data, dogfennaeth gefndirol a chymorth i ddehongli'r deunyddiau hyn. Mae'r ddogfen hon at ddibenion trafod yn unig.

Modelu capasiti

Lluniwyd nifer o fodelau i ddeall y defnydd o capasiti'r ystad ac i ddarparu gwybodaeth ynghylch goblygiadau cau llysoedd. Rwy'n gwneud sylwadau yma ar rai o'r materion sy'n codi o ganlyniad i'r ymarfer modelu hwnnw.

Mae colli adeilad neu ofod llys yn awgrymu y byddai'n rhaid i'r llysoedd sy'n weddill gael eu defnyddio mwy. Mae'r dadansoddiad a gyflawnwyd wedi cynnwys gwerthusiad manwl a thrylwyr o nifer y sesiynau llys a oedd eu hangen yn y gorffennol agos a'r nifer y mae'n debygol y bydd eu hangen yn y dyfodol. Felly, y ffocws yw p'un a oes modd cynnal y sesiynau hynny un ai mewn adeiladau llys cyfagos neu drwy ddefnyddio ystad y llysoedd mewn lleoliadau pellach i ffwrdd, gyda rhagdybiaethau amrywiol o ran beth fyddai'r defnydd posibl o'r gofod llys yn ymarferol. Roedd y senarios amrywiol a ystyriwyd yn gwneud rhagdybiaethau gwahanol o ran gallu'r llysoedd i ymdopi â'r baich gwaith achosion - yn y bôn, y graddau y gall ystad y llysoedd weithredu ar lefel uchaf, neu'n agos iawn at lefel uchaf ei gapasiti o ran defnyddio adeiladau.

Mae cywirdeb y model hwn yn ddibynnol ar amcangyfrif yn gywir y rhan o ystad y llysoedd (yr ystafelloedd) a fydd ar gael, dehongli'r cysylltiad rhwng y baich gwaith (achosion) a'r hyn sydd ei angen mewn ystafelloedd a mesur beichiau gwaith hanesyddol yn briodol a pharatoi yn briodol ar gyfer beichiau gwaith uwch yn y dyfodol.

O'r hyn gallaf weld, mae'r modelau yn gywir o ran y ffactorau hyn. Cafwyd nifer o awgrymiadau o ran gwneud y modelau yn haws i'w dehongli. Er enghraifft, gan mai'r mesur naturiol o'r llysoedd yw nifer y sesiynau, efallai byddai'n synhwyrol i gyflwyno canlyniadau ar ffurf nifer y sesiynau sydd eu hangen a'r nifer fydd ar gael yn hytrach nac adrodd am ddiffyg ystafelloedd neu ystafelloedd dros ben, ond gellir ystyried hyn fel mater o sut i gyflwyno'r wybodaeth yn unig.

Fodd bynnag, cywirdeb yw dim ond un maen prawf ar gyfer asesu model. Mewn llawer o achosion, mae perthnasedd y model yn bwysicach. Felly, mae gweddill fy sylwadau yn cyfeirio at asesu perthnasedd y modelau i brosesau llys yn y byd go iawn, a byddaf yn gwneud nifer o awgrymiadau o ran sut gellir gwneud y modelau yn fwy perthnasol.

Perthnasedd cyfyngiadau capasiti A key element of the cElfen allweddol o'r modelau capasiti yw cyfrifo p'un a fydd diffyg o ran nifer yr ystafelloedd llys sydd ar gael yn y llysoedd eraill. Mae'n bwysig i mi nodi bod diffyg o'r fath yn codi yn sawl un o'r senarios.

Mae'r nodwedd hon, sef pan fydd cyfyngiad capasiti yn digwydd, yn gyffredin ymysg llawer o fodelau gweithgaredd busnes. Er enghraifft, mae'r hyn a elwir yn ddadansoddiad rhestr eiddo, yn canolbwyntio ar faint o stoc y dylai cwmni gadw wrth gefn. Os yw'r galw am ei gynnyrch yn parhau i aros ar lefel uwch, mae yna risg y bydd y cwmni yn wynebu "stock out" gan na fydd stoc ddigonol a gallant golli cwsmeriaid. Gyda modelau rhestr eiddo, mae'r risg yn allweddol ar gyfer cynlluniau'r cwmni i brynu stoc, ac ystyrir "stock out" fel digwyddiad ofnadwy y dylid ei osgoi.

Mae'r gyfatebiaeth hon yn fy arwain at y cwestiwn canlynol - a yw dull model capasiti yn ddigonol ac yn briodol o ran ei allu i ystyried nodweddion perthnasol gweithredu system y llysoedd? A yw'r model yn cynnwys costau rhedeg posibl y llysoedd petai'r lefelau defnydd o adeiladau yn uwch? A yw'n adlewyrchu sefyllfaoedd byd go iawn, er enghraifft pan fydd baich gwaith eithafol yn golygu bod rhaid i lysoedd eraill gymryd gwaith ychwanegol? Rwy'n credu mai'r ateb i'r ddau gwestiwn yw "na."

Dechreuaf gyda'r dull o bennu defnydd o'r capasiti "ex ante" (h.y. yn seiliedig ar ragolygon yn hytrach na chanlyniadau go iawn). Mae lefelau defnydd o gapasiti fel arfer yn cael eu pennu yn ôl beth gafodd ei gyflawni'n hanesyddol neu'r hyn sy'n ymarferol bosib. Cwestiwn sylfaenol yw, beth yw'r goblygiadau gweithredol byd go iawn o ganlyniad i'r llysoedd yn rhedeg ar y lefelau capasiti hyn? Gwyddwn o astudiaethau o ysbytai y gall defnydd uchel o wlâu mewn ysbytai arwain at gynnydd mewn heintiau, triniaeth lefel is ac, yn y pen draw, gweithgaredd is. Mae'r elfen olaf hon o ddefnydd uchel o gapasiti yn niweidiol. Gall system sy'n cael ei rhedeg yn "boeth" gael trafferthion i gyflawni mewn cyd-destun lle mae'r baich gwaith yn parhau i gynyddu ac mae risg go iawn o fethiannau; mae baich gwaith eithafol yn arwain at ordddefnydd, sy'n lleihau cyfraddau prosesu,

sy'n arwain at ragor o ddefnydd, ac ati.

Nid wyf wedi gweld na chlywed unrhyw drafodaeth o ran beth all y lefel briodol neu'r lefel ddymunol o ddefnyddio capasiti'r llysoedd fod. O fewn cyd-destun model, dylid defnyddio hyn i asesu costau rhedeg y llysoedd ar lefelau capasiti amrywiol. Rwy'n bryderus y gall yr ymgais i leihau costau'r ystad arwain at gynydd mewn costau gweinyddu cyfiawnder. Gall hyn ddigwydd mewn sawl ffordd; trwy ddriswch o ran trefniadau sy'n arwain at oedi a cholli amser llys, colli amser barnwyr gan fod rhaid i farnwyr ailddyrranu eu beichiau gwaith, trwy gostau cynyddol ar gyfer cynrychiolaeth gan fod cyfreithwyr yn codi tâl am eu hamser ac amseroedd teithio ar gyfer achosion sy'n cael eu hailddyrranu...ac ati. Rwy'n trafod y pwynt ymhellach dan y pennawd Pennu'r defnydd priodol o adeiladau yn ôl capasiti.

Mae arsylwad arall yn codi o hyn. Mae'r dull presennol yn rhagdybio, mewn ffordd fecanistig, y gellir rhestru achosion i'r gofod llys sydd ar gael. Yn ôl y dull hwn, mae'r cyfyngiad capasiti ond yn berthnasol i'r system yn ei chyfarwydd. Fy nghyfatebiaeth unwaith eto yw'r model rhestr eiddo. Mae'r dull presennol i weld yn rhagdybio y gellir dyrannu unrhyw achos i unrhyw lys sydd ar gael. Mae hyn fel rhagdybio mai un cynnyrch yn unig sydd, a byddai unrhyw gwsmer yn hapus gyda'r cynnyrch hwnnw. A yw'r dull hwn yn adlewyrchu proses y llysoedd? Os ddim, gall rhywbeth sy'n gyfwerth â "stock out" ddigwydd ar lefelau defnydd llawer is na'r lefelau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. Unwaith eto, mae hyn yn faes lle all y model fod yn gywir ond nid yw'n cynnwys agweddau perthnasol o'r system gyfiawnder.

Yn dilyn trafodaeth gyda'r tîm, rwyf hefyd wedi gwneud nifer o awgrymiadau o ran sut mae modd mynd i'r afael â'r amcanion cystadleuol o leihau costau ar yr un pryd â chynyddu ansawdd ystad y llysoedd. Mae'r ymarferion gwerthuso amrywiol a gyflawnwyd hyd yn hyn un ai wedi cyflwyno nifer fawr o ddangosyddion ariannol (cost) a rhai nad ydynt yn ariannol (ansawdd) ar gyfer pob safle sy'n cael eu hystyried i'w cau, neu maent yn ceisio casglu'r rhain at ei gilydd a'u rhestru yn ôl safle, sy'n awgrymu rhoi pwysau mympwyol ar wahanol agweddau ar berfformiad yr ystad. Fy nghynnig i yw casglu mesurau perfformiad ariannol yn unig mewn un mesur, ac yna agor trafodaeth ehangach o ran sut gall gwahaniaethau yn y mesur gael eu cydbwysu â mesurau perfformiad eraill (megis ansawdd yr ystafelloedd llys, pa mor agos yw'r llysoedd i'r boblogaeth maent yn ei gwasanaethu, ac ati). Mae'r drafodaeth ar y dull hwn yn parhau i ddigwydd, ond rwyf wedi nodi fy meddyliu cychwynnol dan y pennawd Cydbwysu ystyriaethau ariannol ac ystyriaethau eraill yng nghyswllt cau llysoedd.

Pennu'r lefel defnydd priodol o adeiladau yn ôl capasiti

Elfen gyffredin yn y dull sydd wedi'u mabwysiadu ar gyfer cau llysoedd yw targedu lefelau defnydd uchel o gapasiti. Mae'n cael ei gymryd yn ganiataol fod defnydd uchel o gapasiti'r llysoedd yn ddymunol. Y rhagdybiaeth yw y dylid rhedeg llysoedd ar y lefel uchaf o gapasiti ag sy'n bosibl er mwyn lleihau costau. Rwy'n cwestiynu'r rhagdybiaeth hon yn gryf.

Wrth i llysoedd redeg ar lefel capasiti uwch, mae costau'r llysoedd wedi'u rhannu rhwng nifer fwy o achosion, felly mae'n ymddangos bod yna leihad yng nghostau'r ystad fesul achos. Ond mewn llawer o gyd-destunau eraill, cydnabyddir gall yr arbediad hwn gael ei drechu gan gynydd mewn costau

eraill o ganlyniad i ddefnydd uwch o gapasiti. Mae yna lawer o enghreifftiau o'r math yma o effaith. Byddaf yn defnyddio enghraifft sy'n gyfarwydd i mi - goblygiadau cynyddu'r cyfraddau defnyddio gwllau mewn ysbytai. Wrth i'r gyfradd defnyddio gwllau gynyddu, mae'n wir bod y gost fesul pob claf sy'n cael triniaeth yn lleihau i ddechrau, gan fod yna gostau ystadau a chostau cyfalaf cynnal a chadw ynghlwm wrth bob unigolyn mewn gwely y mae staff yn gofalu amdanynt. Fodd bynnag, mae hefyd wedi'i nodi bod cyfraddau uwch o ddefnyddio gwllau yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o heintiau, a bod cyfraddau uwch o ddefnyddio gwllau yn arwain, yn anuniongyrchol, at gostau uwch am bob claf sy'n cael ei drin. Mae ysbytai sy'n agos at gyrraedd eu capasiti uchaf yn diweddu'n canslo llawdriniaethau, gwastraffu amser ac adnoddau yn symud cleifion o un ward i'r llall neu o un ysbyty i'r llall, ac wrth gyrraedd y terfyn gallant roi'r gorau i weithredu yn gyfan gwbl (h.y. nid ydynt yn gallu derbyn unrhyw gleifion newydd).

Y pwynt allweddol i'w gydnabod yw hwn - nid yw lefelau defnyddio capasiti uchel o reidrwydd yn ddymunol na'n "gost-effeithiol". Ar gyfer unrhyw system cynhyrchu a'r costau cysylltiedig mae yna lefel uchaf briodol ar gyfer defnyddio capasiti. Tu hwnt i'r lefel hon ni fydd arbedion - bydd costau yn cynyddu. Felly, mae'n ymddangos i mi ei fod yn gamgymeriad sylfaenol i fwrw ymlaen â'r Strategaeth Ystadau (a fwriedir i arbed arian) heb archwilio i'r berthynas rhwng costau cyffredinol a defnyddio capasiti. Pwrpas ymchwiliad o'r fath fydd darparu arweiniad o ran beth fyddai'r lefel briodol o ddefnyddio capasiti, ac yna byddai'r wybodaeth hon yn cyfarwyddo unrhyw waith werthuso o ran opsiynau i gau safleoedd. Yn syml iawn, yn hytrach na gwerthuso ar sail pa ffurf o ystad y llysoedd a fyddai'n arwain at lefel uchel o ddefnyddio capasiti, y dull y dylid ei ddefnyddio yw pa ffurf dylai ystad y llysoedd ei gymryd i sicrhau lefel briodol o ddefnyddio capasiti.

Mae trafodaeth bellach am sut i bennu lefel defnyddio capasiti briodol y tu hwnt i gwmpas y papur cychwynnol hwn, ond byddaf yn rhoi fy sylwadau ar un goblygiad tebygol.

Mae llawer o'r costau sy'n gysylltiedig â lefelau defnyddio capasiti uchel yn digwydd pan fydd digwyddiadau yn codi sy'n gorlwytho'r system. Mae'r lefel briodol o ddefnyddio capasiti yn mantoli'r risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â gorlwytho o'r fath, gyda'r arbedion ariannol sy'n cael eu rhagdybio trwy redeg ar lefel gapasiti uwch. Mae'r costau diwethaf fel arfer yn gymesur â chostau rhentu llawn adeiladau ac mae'n dilyn o hyn y dylai lefel defnyddio capasiti fod yn isel mewn ardaloedd lle mae costau rhentu yn isel. Yn yr un modd, mewn ardaloedd lle mae costau rhentu yn uchel, bydd y lefel defnyddio capasiti yn uchel - mae'n werth wynebu'r risg o orlwytho (a fydd yn gostus) er mwyn arbed arian o ran costau rhentu. Felly, dylwn ni fod yn edrych ar lefelau defnyddio capasiti ar lefel ranbarthol yn hytrach na defnyddio un dull ar gyfer pob safle.

Cydbwysu Ystyriaethau Ariannol ac Ystyriaethau eraill yng nghyswllt Cau Llysoedd

Mae yna lawer o faterion i'w hystyried wrth geisio trefnu ystad y llysoedd yn y ffordd orau. Mae llysoedd wedi'u lleoli yn benodol fel eu bod yn agos at y poblogaethau maent yn eu gwasanaethu. Ganddynt bresenoldeb penodol yn eu cymunedau. Mae'r llysoedd yn amrywiol o ran y gofodau a'r cyfleusterau maent

yn eu cynnig. Hyd yma, mae'r gwaith gwerthuso un ai wedi ceisio disgrifio'r nodweddion hyn i gyd, yn aml gyda mesurau amrywiol o berfformiad ariannol neu drwy gwmpo'r holl feini prawf at ei gilydd mewn rhestr o ddewisiadau amgen. Mae'r ail ddull yn golygu pennu pwysau mympwyol ar gyfer nodweddion amrywiol iawn.

Rwyf wedi dadlau y dylai fod modd cynnwys yr holl faterion ariannol mewn un mesur o berfformiad llys. Yn benodol, byddwn yn disgwyl y byddai modd casglu'r ffactorau ariannol at ei gilydd; ond yn hytrach na chael eu cynrychioli gan un rhif, bydd un berthynas neu un ffwythiant mathemategol yn eu cynrychioli, sy'n cynnwys yr holl amrywiaeth o ran perfformiad ariannol yng nghyswllt lefelau defnydd y llysoedd. Fodd bynnag, at ddibenion trafod yn y ddogfen hon byddaf yn gweithio gydag un rhif – sef y gost fesul pob sesiwn llys.

Dylai'r rhif hwnnw - sydd o bosib yn wahanol ar gyfer pob llys ac yn amrywio yn ôl sut mae ystad y llys wedi'i drefnu - adlewyrchu costau cyffredinol darparu'r cyfleusterau ffisegol y mae adeilad llys eu hangen. Mae'r dull perthnasol ar gyfer gwerthuso'r dull hwnnw yn cydnabod p'un a yw adeilad yn eiddo'r llys, adeilad sy'n cael ei brydlesu ar sail tymor hir neu adeilad ar osod, mae natur y gost waelodol yn dod o'r llif gwariant, un ai'r gwir wariant neu'r gwariant damcaniaethol, dros amser. Ar gyfer yr achos mwyaf syml - eiddo sy'n cael ei osod - mae'r rhent yn elfen sylweddol o'r llif gwariant hwnnw. Yr elfennau eraill yw costau cynnal a chadw'r adeilad, y costau llif sy'n gysylltiedig â rhedeg yr adeilad (TG, trydan, costau dwr, ac ati) y llif gwariant sydd ei angen i atgyweirio ac adnewyddu'r adeilad, ac ati. Ar gyfer eiddo lle mae GLITEM yn berchen arno, mae'r un cyfrifiadau yn berthnasol, ond rhaid amcangyfrif beth fyddai'r rhent. Mae hyn yn broses gysyniadol eithaf syml. Gellir cyfrifo gwerth yr adeilad petai'n cael ei werthu, gan fuddsoddi'r arian a geir o'r gwerthiant i greu llif incwm. Bydd hyn yn cyfateb i'r gost rhentu tybiedig. Mae yna lawer o fanylion yn y dull hwn sy'n fwy anodd i'w hasesu, ond yn bendant mae modd eu gwneud.

Budd y dull hwn yw ei fod yn hawdd ei gyffredinoli - byddai rhai yn dweud bod bodd gwneud hyn mewn ffordd gain iawn. Os y disgwylir y byddai angen gwneud gwariant cyfalaf mawr ar gyfer adeilad mewn 2 flynedd, gellir trosi hwn i lif gwariant tybiedig hefyd. Er enghraifft, dychmygwch gymryd benthyciad mewn dwy flynedd i dalu am y gwariant hwnnw. Y llog a godir ar y benthyciad yw'r llif gwariant o'r pwynt hwnnw, ac ati. Mae yna hyd yn oed modd i gynnwys costau mawr sy'n gysylltiedig â phrynu allan ymrwymiad dan gytundeb yn y cyd-destun hwn. Os byddai cau'r llys yn destun cosb ariannol fawr, yna gellir ei drosi'n llif gwariant, (y llog ar y benthyciad sydd ei angen i dalu'r gosb) sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad i redeg y llys hwnnw ar lefel defnyddio capasiti o sero (0).

Y pwynt hanfodol yw, mae'n bosibl cynnwys yr holl oblygiadau ariannol yn y mesur cost hwn. Bydd yn darparu mesur perfformiad cymaradwy, mesuradwy a chlir ar gyfer pob llys ym mhob senario cau. Petai cost oedd yr unig ystyriaeth, yna'r mesur ei hun byddai'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau. Byddai modd dewis y ffurf o'r ystad a fyddai'n lleihau'r gost gyffredinol o ddarparu gwasanaethau. Mae'n bwysig nodi, yn

fy esiampl i, mae'n berffaith bosibl y byddai lleihau costau yn golygu talu cosbau mawr i adael trefniadau dan gytundeb.

Fel y mynegwyd yn y Strategaeth Ystadau, mae yna lawer o ystyriaethau heblaw am gost. Fodd bynnag, nid yw cydbwysu'r rhain yn erbyn cost yn hawdd i'w gyflawni trwy ddefnyddio fformiwla algorithmig. Fodd bynnag, mae yna ffyrdd o asesu a beirniadu mewn ffordd ansoddol. Rwy'n dadlau nad pennu dadleuon o'r fath yw rôl dadansoddi. Mae dadansoddiad yn gallu canolbwyntio ar ddarparu ffordd i sefydlu beth yw cost ariannol dewis "A" yn erbyn y dewis cost isaf, sef dewis "B". Mae angen dadansoddiad arall i benderfynu p'un a yw'r gwahaniaeth rhwng y rhain yn gost sy'n werth ei dalu (e.e. cadw adeilad hanesyddol ar agor neu sicrhau bod poblogaeth yn agos at adeilad llys).

Martin Chalkley

11 Hydref 2018

Atodiad D – Datganiad Cydraddoldeb

Datganiad Cydraddoldeb

- 1.1. Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 ("y DdC") yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion a'r Adran, wrth iddynt ymgymryd â'u swyddogaethau, i roi ystyriaeth deg i'r angen i:
 - Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y DdC;
 - Mwyhau cyfleoedd cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (y rhai hynny sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig); a
- 1.2. Meithrin perthnasau da rhwng grwpiau gwahanol (y rhai hynny sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig).
- 1.3. Wrth feddwl am roi ystyriaeth deg rhaid ei ystyried yn erbyn y naw nodwedd warchoddedig dan y DdC - sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd a beichiogrwydd a mamolaeth.
- 1.4. Mae gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) a'i gweinidogion ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut bydd polisiau arfaethedig yn debygol o effeithio ar y nodweddion gwarchoddedig a chymryd camau cymesur i liniaru neu gyfiawnhau'r effeithiau negyddol a mwyhau'r effeithiau buddiol.

Gwahaniaethu uniongyrchol

- 1.5. Ein hasesiad yw nad yw'r strategaeth a amlinellir yn y ddogfen hon yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr y DdC, gan nad oes unrhyw beth i awgrymu y byddai'r cynigion yn trin unigolion mewn ffordd llai ffafriol oherwydd unrhyw nodwedd warchoddedig.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

- 1.6. Bydd y strategaeth yn golygu newidiadau i'r ffordd y mae cyfiawnder yn cael ei ddarparu a sut byddwn yn penderfynu ar ddyfodol ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd; lle bo'r penderfyniadau yn golygu cyfuno adeiladau llys a thribiwnlys (er enghraifft, cau safleoedd sy'n cael eu tanddefnyddio a chanolbwyntio ar ganolfannau strategol) yna bydd yna botensial i benderfyniadau o'r fath effeithio ar y rhai hynny a fydd yn gorfod teithio'n bellach i ddod i'r llys o ganlyniad i hynny. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn asesu'r effaith ar y grwpiau canlynol sydd â nodweddion gwarchoddedig, sef pobl gydag anableddau, yr henoed a merched beichiog. Ein hasesiad yw bod gan y polisi botensial i wahaniaethu'n anuniongyrchol wrth i ni ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb o ganlyniad i gau'r llysoedd dan ystyriaeth. Felly, bydd dadansoddiadau pellach o unrhyw effeithiau o'r fath yn cael eu cynnal fesul achos. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall a yw'r newidiadau dan ystyriaeth yn debygol o roi unrhyw un gyda nodwedd warchoddedig dan anfantais, a gweld sut mae modd lliniaru unrhyw effeithiau o'r fath. Gweler paragraff 1.34 am drosolwg o sut byddwn yn ystyried effeithiau ar gydraddoldeb ar gyfer unrhyw gynigion i gau'r llysoedd yn y dyfodol..
- 1.7. Wrth i'n gwasanaethau symud tuag at fod yn ddigidol, gyda mwy a mwy o wybodaeth a gwasanaethau ar gael ar lein, credwn ni fydd angen i lawer o bobl deithio i'r llys ac yn ôl mor aml, gan gynnwys y bobl hynny sydd ag anableddau neu'r rhai sy'n cael trafferth teithio'n bell am resymau eraill (e.e. oed, beichiogrwydd). Fodd bynnag, cydnabyddwn fydd yna dal unigolion a fydd angen bod yn bresennol mewn adeilad llys a gall fod unigolion a fydd yn profi rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau ar-lein neu adnoddau digidol. Gallwn ddarparu lliniariadau o ran teithio i'r llys a chael mynediad at wasanaethau i'r rhai hynny sy'n parhau i wynebu anawsterau wrth ddefnyddio TG; mae'r rhain yn cael esbonio'n fanylach yn y rhan lliniariadau. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn y datganiad cydraddoldeb ar gyfer unrhyw gynigion unigol i gau llys, i asesu'r effaith cyffredinol ar gydraddoldeb..
- 1.8. Er nad yw incwm na thlodi yn agweddau sy'n dod dan gwmpas y Ddeddf Cydraddoldeb yn uniongyrchol, mi fydd yna unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig sydd hefyd ar incwm isel. Mae gennym brosesau lliniaru mewn lle i helpu'r rhai hynny sydd ar incymau isel, a all ei chael yn anodd teithio'n bell i ymweld â llys gan ei fod yn rhy ddrud. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, dod o hyd i leoliadau amgen os bydd angen, neu, gydag achosion priodol, cynnig darpariaeth amgen. Bydd ein hegwyddor amseroedd teithio newydd yn ystyried ffactorau megis cost a chymhlethdod y daith i adeilad llys neu adeilad tribiwnlys.

Aflonyddu ac erledigaeth

1.9. Nid ydym yn ystyried bod yna risg o aflonyddu neu erledigaeth o ganlyniad i'r cynigion hyn..

Mwyhau cyfleoedd cyfartal

- 1.10. Rydym wedi ystyried sut byddai'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i fwyhau cyfleoedd cyfartal trwy fodloni anghenion defnyddwyr y llys sy'n rhannu nodwedd benodol, lle bo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion y rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno. Bydd lleihau ein dibyniaeth ar adeiladau sydd â chyfleusterau gwael i fanteisio ar ystad sydd wedi'i foderneiddio a dulliau cyfathrebu gwell yn fuddiol i'r holl ddefnyddwyr, yn enwedig pobl gydag anableddau, yr henoed a merched beichiog.
- 1.11. Rydym hefyd wedi nodi sylwadau rhai o'r ymatebwyr, sy'n dangos bod y symudiad tuag at ddefnyddio gwasanaethau digidol a gwasanaethau ar-lein yn cynrychioli cam cadarnhaol o ran mwyhau cyfleoedd cyfartal, yn enwedig i'r rhai hynny sy'n gyfyngedig o ran symudedd (gweler y sylw gan Age UK ym mharagraff 9.8). Bydd y gallu i gael mynediad at wasanaethau heb orfod teithio i lys neu driwiwnlys ac yn ôl, yn golygu y bydd yn haws i lawer o bobl gael mynediad at gyfiawnder nag y mae ar hyn o bryd.

Meithrin perthnasau da

1.11. Mae'r amcan hwn wedi cael ei ystyried, a'r casgliad yw na fydd yn debygol o fod yn berthnasol iawn i'r cynigion.

Ffynonellau data

- 1.12. Rydym wedi ystyried y dystiolaeth gyfredol o ran nodweddion gwarchoddedig defnyddwyr llys. Gan mai data cyfyngedig sydd ar gael am ddefnyddwyr llys go iawn, mae ein ffynonellau data yn darparu data procsi, sy'n rhoi syniad o'r lefel posibl o bobl gyda nodweddion gwarchoddedig a fydd yn ddefnyddwyr llys.
- 1.13. I wella ein dealltwriaeth o'r effaith posibl ar nodweddion gwarchoddedig, rydym wedi archwilio i ffynonellau data a all ein helpu i ddeall demograffeg darpar ddefnyddwyr llys a'r rhai hynny a all ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.
- 1.14. Mae'r wybodaeth a ddarperir isod (Tabl 1) wedi'i darparu i roi syniad o ddefnyddwyr posibl y llysoedd troseddol.

Tabl 1: Nodweddion gwarchoddedig dioddefwyr troseddau personol (2014/15)³

Tabl: Nodweddion oedolion a oedd yn ddiodefwyr CSEW a throedd personol, 2014/15 CSEW

Cymru a Lloegr	Oedolion 16 oed neu'n hŷn - Dioddefwyr Troseddau Personol (%)	Poblogaeth gyffredinol (%)
Oed		
16–24	28	14
25–34	24	17
35–44	17	16
45–54	16	17
55–64	8	14
65–74	4	12
75+	3	10
Statws Anabledd/Salwch		
Dim anabledd/salwch	76	79
Anabledd/salwch nad yw'n gyfyngus	5	5
Anabledd/salwch cyfyngus	19	16
Statws priodasol		
Priod/mewn partneriaeth sifil	31	50

³ Ffynhonnell: Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Cymru a Lloegr	Oedolion 16 oed neu'n hŷn - Dioddefwyr Troseddau Personol (%)	Poblogaeth gyffredinol (%)
Cyd-fyw	14	12
Sengl	42	25
Wedi gwahanu	4	2
Wedi ysgaru/Partneriaeth sydd wedi'i diddymu'n gyfreithiol	6	5
Gŵr gweddw/Gwraig weddw	3	6
Ethnigrwydd		
Gwyn	84	87
Heb fod yn wyn	16	13
<i>Cymysg</i>	3	1
<i>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig</i>	7	7
<i>Du neu Du Prydeinig</i>	5	3
<i>Tseiniaidd</i>	2	2

Crefydd		
Dim crefydd	46	33
Cristnogol	45	58
Mwslim	4	5
Hindw	2	2
Arall	4	2

Rhyw		
Benyw	56	49
Gwryw	44	51

- 1.14. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn Nhabl 1 yn ein galluogi i adnabod nodweddion y rhai hynny oedd yn ddioddefwyr troseddau yn 2014/15. Mae'r tabl yn awgrymu bod pobl hŷn wedi'u tangynrychioli ymysg dioddefwyr troseddau. Tra bod pobl gydag anableddau wedi'u cynrychioli ychydig yn fwy o'u cymharu â'r boblogaeth genedlaethol (+3% o'u cymharu â'r boblogaeth genedlaethol), mae gwybodaeth ddiweddarach yn awgrymu mai'r gyfran o'r boblogaeth gydag anabledd yw 22%, sy'n cymharu â'r 21% a restrir yn y tabl uchod. O'r rhain, mae 11% o'r bobl hyn yn ystyried bod ganddynt nam symudedd hirdymor sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd-i-ddydd. Er bod yna gynnydd bach yn y gyfran o bobl gydag anableddau yn gyffredinol, nid ydym yn ystyried bod yr amrywiant hwn yn cael effaith ar yr asesiad o'r gyfran o ddefnyddwyr llys sy'n ymwneud â'r llysoedd troseddol. Ein hasesiad yw nid oes nifer anghymesur o ddefnyddwyr sydd ag anabledd na nifer anghymesur o bobl hŷn sy'n ymwneud â'r llysoedd troseddol, ac felly rydym yn ystyried bod effaith posibl y strategaeth yn gymesur o ystyried ei hamcanion ehangach.
- 1.15. Mae'r data uchod hefyd yn awgrymu bod y gynrychiolaeth o bobl sengl yn uchel ymysg dioddefwyr troseddau o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol (42% yn erbyn 25%). Nid oedd modd i ni adnabod data i'n galluogi i asesu'r effaith ar y nodwedd warchoddedig, aibennu rhywedd. Ar ôl ystyried effaith y cynnig ar grwpiau lle mae data cyfyngedig ar gael amdanynt, nid ydym wedi adnabod unrhyw wahaniaethu uniongyrchol sy'n codi o'r strategaeth a amlinellir yn y ddogfen hon. Rydym eisoes wedi adnabod y potensial ar gyfer gwahaniaethu anuniongyrchol ar y rhai a fydd yn ei chael yn anodd teithio'n bellach mewn ardaloedd lle bydd llysoedd yn cau. Byddwn yn ystyried unrhyw effeithiau o'r fath yn fanylach wrth ddatblygu cynigion i gau llysoedd.
- 1.16. I ychwanegu at yr wybodaeth a deall demograffeg defnyddwyr llys yn well - ac yn enwedig eu nodweddion gwarchoddedig - rydym wedi archwilio'r wybodaeth yn Nhabl 2 isod, sy'n nodi'r nifer o bobl sydd wedi profi problem cyfiawnder sifil, cyfiawnder teulu neu broblem cyfiawnder gweinyddol. Mae hyn yn helpu i ddarparu syniad o ddefnyddwyr tebygol y llys sifil a'r llys teulu.

Tabl 2: Cyffredinrwydd problemau cyfiawnder sifil, cyfiawnder teulu neu gyfiawnder gweinyddol yn ôl nodweddion ymatebwyr: % o ymatebwyr a adroddodd eu bod wedi profi problem yn y 18 mis diwethaf⁴



Mae'r siart bar hwn yn dangos pa mor gyffredin oedd 'problemau' cyfiawnder yng nghyswllt y llys sifil, llys teulu a'r llys gweinyddol ymysg yr ymatebwyr i'r Arolwg Cyfiawnder. Mae problemau yn cyfeirio at faterion a oedd angen gwneud iawn amdanynt trwy'r system gyfiawnder..

- 1.17. Mae data o Adroddiad Cryno o Ail Ran Arolwg Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol Cymru a Lloegr (Balmer, 2013) yn dangos bod 'problemau' sy'n gysylltiedig â'r llys sifil, llys teulu neu'r llys gweinyddol yn gyffredin ymysg ymatebwyr yr Arolwg Cyfiawnder. Mae problemau yn cyfeirio at faterion a oedd angen gwneud iawn amdanynt trwy'r system gyfiawnder.
- 1.18. Nid yw'n glir p'un a oedd y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn cynrychioli'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd ai peidio, ac felly gallwn ond ddod i gasgliadau cyfyngedig yn seiliedig ar y data hwn. Mae'r data yn awgrymu bod gan dros 50% o'r unigolion a ymatebodd i'r arolwg a oedd yn dioddef anawsterau iechyd meddwl wedi profi problem yn gysylltiedig â chyfiawnder. Fodd bynnag, nid yw'n dweud wrthym os yw'r cynigion dan ystyriaeth yn debygol o effeithio ar y grŵp hwn yn fwy neu'n llai na defnyddwyr llys eraill. Mae'r data yn awgrymu bod 15% o'r unigolion yn y grŵp 75 mlwydd oed neu'n hŷn wedi profi problem o ran y gyfraith. Fel y pennwyd uchod, mae'r henoed yn un grŵp o ddefnyddwyr rydym yn ystyried y gallant gael eu heffeithio gan y cynnig. Fodd bynnag, roedd maint y sampl yn isel ac felly mae'n anodd dod i gasgliadau cadarn am effaith y cynnig ar y grŵp oedran hwn. Lle bo'n briodol, bydd GLITEM yn rhoi prosesau lliniaru ac addasiadau rhesymol ar waith i sicrhau bod y grŵp hwn yn parhau i gael mynediad at gyfiawnder.
- 1.19. Mae maint y samplau yn amrywio yn ôl nodweddion penodol; mae gan ethnigrwydd yn enwedig maint sampl bychan, felly mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau cadarn am effaith y cynnig ar y nodwedd warchoddedig hon. Wrth edrych ar y data, nid yw'n ymddangos bod yna unrhyw effaith o ran rhyw; o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg, roedd ychydig dros 30% o ddynion a merched wedi profi problem cyfiawnder. Mae hyn yn dangos ni ddylai'r cynigion gael unrhyw effaith anghymesur o ran rhyw.
- 1.20. Rydym hefyd wedi ystyried tystiolaeth o Arolwg Defnyddwyr y Llys Sifil 2014-15 (CCUS) a gynhaliwyd gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Roedd yr arolwg yn cynnwys holiadur a anfonwyd trwy'r post at hawlwr unigol ynghyd ag ymarfer proffilio hawlwr busnes. Darparodd rhywfaint o wybodaeth am nodweddion a phrofiadau hawlwr llys sifil yng Nghymru a Lloegr, yng nghyswllt hawliadau am arian a hawliadau meddiannu yn bennaf.
- 1.21. Mae'r data yn awgrymu, o gymharu â'r proffil poblogaeth oedolion cenedlaethol, mae hawlwr unigol yn y system sy'n cychwyn hawliadau am arian neu hawliadau meddiannu yn fwy tebygol o fod: yn wryw, yn 45 oed neu'n hŷn, yn dod o gefndir Asiaidd, yn hunangyflogedig, a heb unrhyw broblemau iechyd
- 1.22. Roedd y proffiliau oedran a rhyw yn debyg yn gyffredinol ar draws y gwahanol fathau o hawliadau, er roedd oedran hawlwr meddiannu ychydig yn uwch o'i gymharu â hawlwr unigol
- 1.23. Roedd traean (34%) o hawlwr arian amhenodol yn nodi bod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu gyflwr iechyd meddwl. Roedd hyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer grwpiau eraill o hawlwr unigol. Mae'r data hwn yn rhoi cipolwg o fath penodol o hawlwr, ac felly mae'n anodd ffurfio barn ar yr effaith bydd y strategaeth hon yn ei chael ar y grwpiau hyn yn gyffredinol. Nid yw'r data yn nodi pa hawlwr oedd wedi dod i adeilad llys neu dribiwnlys yn bersonol, dim ond dau fath o wrandawriad

4 Data collected between 2006 and 2009.

sydd wedi'u cynnwys, ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth am ddiffynyddion yr hawliadau hyn, a all fod â phroffil gwahanol iawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried cyffredinrwydd unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl yn y data hwn. Mae'n bosibl y bydd y grŵp hwn yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at wasanaethau ar-lein.

- 1.24. Er gwaethaf cyfyngiadau'r data, rydym yn cymryd pwysigrwydd mynediad at gyfiawnder o ddirif, gan gynnwys mynediad at wasanaethau digidol. Bydd gwerthusiad o'r rhaglen yn cael ei gynnal i geisio deall unrhyw effeithiau posib..
- 1.25. Mae dangosyddion cynnar o dreial ar raddfa fach yn y tribiwnlys haen gyntaf, lle'r oedd yr holl bartïon yn gallu bod yn bresennol trwy gyswllt fideo am y tro cyntaf, wedi bod yn gadarnhaol. Cynhaliwyd gwrandawliadau dros y rhyngwrwyd, gyda phob parti yn mewngofnodi o leoliad o'u dewis, gan ddefnyddio offer ei hunain ac, at ddibenion y cynllun peilot, roedd y barnwr mewn ystafell llys. Mae gwerthusiad annibynnol gan Ysgol Economeg Llundain yn dangos bod y treial wedi bod yn llwyddiannus ymysg apelwyr, a oedd yn croesawu'r cyfle i beidio â gorfod teithio i ystafell llys. Roedd un unigolyn a oedd yn byw dramor wedi adrodd ei fod wedi osgoi gorfod hedfan i'r DU ac roedd unigolyn arall, a oedd newydd gael babi, yn croesawu'r cyfle i ymuno â'r gwrandawliad o'i chartref. Bu i'r ymchwil amlygu bod pobl yn teimlo bod y gwrandawliadau yn glir, yn hawdd i'w deall ac yn hwylus. Fodd bynnag, roedd yna broblemau wedi codi o ran effeithiolrwydd y dechnoleg, gyda'r cysylltiad wi-fi yn torri neu'n diflannu. Roedd yna hefyd bosiblirwydd o fias oherwydd dim ond y defnyddwyr rheiny a oedd yn ffafrio defnyddio technoleg fideo oedd wedi llenwi a dychwelyd yr holiadur roedd GLITEM wedi anfon atynt cyn y gwrandawliad. Mae hefyd yn bosibl bod y broses o ddethol achosion wedi'i gynnal mewn ffordd geidwadol iawn o ran pa fath o achos yr ystyriwyd yn briodol.
- 1.26. Yn gyffredinol, credwn fod unrhyw effeithiau anuniongyrchol a all fod yn gwahaniaethu yn erbyn y grwpiau a ddisgrifir uchod yn gymesur o ystyried bwriad y polisi. Mae'r ffaith bod safleoedd GLITEM yn agos at ei gilydd yn golygu y bydd cau llysoedd neu dribiwnlysoedd yn debygol o effeithio ar nifer bychan o bobl a bydd y cynilion a'r effeithiolrwydd a geir o ganlyniad i gau safleoedd yn cyfrannu at ddarparu gwasanaeth gwell ar y cyfan i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn bwysig ein bod yn gwneud addasiadau rhesymol i'r rhai hynny sy'n cael anawsterau dilyn teithiau hir i sicrhau bod y gefnogaeth briodol yn cael ei darparu. Mae'r rhain yn cael eu hesbonio'n fanylach yn y rhan lliniariadau isod.

Diffynyddion, dioddefwyr a thystion

- 1.27. Mae'r adroddiad Hil a'r System Cyfiawnder Troseddol (CJS) diweddaraf yn 2016 yn dangos bod gan unigolion o gefndir du a grwpiau ethnig lleiafrifol eraill (BAME) gynrychiolaeth uchel ymysg diffynyddion yn y mwyafrif o'r camau gwahanol trwy gydol y CJS. Mae data am ferched a'r CJS yn 2015 yn dangos cynrychiolaeth fawr iawn o ddynion ymysg diffynyddion mewn achosion troseddol. Mae data am y rhai hynny a gafodd eu dedfrydu yn Llys y Goron a'r Llys Ynadon yn 2012 a 2013 yn cadarnhau:
 - Roedd dynion yn fwy tebygol o gael dedfryd o garchar ar unwaith ac yn fwy tebygol o gael dedfryd o garchar am gyfnod o chwe mis na merched gyda hanes troseddol tebyg; a chydabyddwn fod yna gyfraddau uwch o ddiffynyddion gyda nodweddion gwarchoddedig penodol - er enghraifft, o ran oedran, hil a rhyw, o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.
 - O'i gymharu â'r boblogaeth, roedd cyfraddau troseddu ymysg troseddwyr o gefndir ethnig du tair gwaith yn fwy na'r grŵp ethnig gwyn ac roedd y cyfraddau ar gyfer troseddwyr o gefndir ethnig cymysg yn ddwywaith yn fwy na'r grŵp ethnig gwyn; roedd y patrwm hwn hefyd yn bresennol yn y data ar gyhuddiadau.
- 1.28. Nid oes ffynhonnell ddata gynhwysfawr ar nodweddion gwarchoddedig dioddefwyr a thystion a all fod yn ymwneud â'r llysoedd troseddol. Fodd bynnag, mae Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr (2014/15) yn dangos bod cynrychiolaeth rhy fawr o'r grwpiau canlynol o bobl fel dioddefwyr troseddau personol o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol:
 - unigolion sydd rhwng 16 - 24 mlwydd oedd (28% o'r holl dioddefwyr, o'u cymharu â 14% o'r boblogaeth gyffredinol);
 - unigolion o gefndiroedd BAME (Du, Asiaidd a Chefnidir Ethnig Lleiafrifol) (16% o'r holl dioddefwyr, o'u cymharu â 13% o'r boblogaeth gyffredinol); a
 - dynion (56% o'r holl dioddefwyr, o'u cymharu â 49% o'r boblogaeth gyffredinol).
- 1.29. Tra bod cynrychiolaeth fawr o grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol ymysg troseddwyr, nid ydym yn gallu canfod rhif pendant sy'n dangos os yw'r cynrychiolaeth fawr hon yn codi oherwydd y dioddefwyr a thystion sy'n defnyddio'r llysoedd troseddol. Darparwyd y data yn Nhabl 1 fel ffordd o asesu effeithiau, ond rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o gyfyngiadau hyn am ei fod yn ddata procsi.

Yr effaith ar ynadon

- 1.30. Mae data Adnoddau Dynol GLITEM yn dangos bod ynadon yn tueddu bod yn hynach ac yn fwy tebygol o ddod o gefndir ethnig gwyn o'u cymharu â phoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr. Mae'r data ar gyfer 2018 yn dangos yr hyn a ganlyn:

- Roedd yna nifer isel iawn o ynadon dan 40 mlwydd oed (4%), o'u cymharu â 55% o ynadon a oedd yn 60 mlwydd oed neu'n hŷn. Mae yna nifer fach iawn iawn o ynadon dan 30 oed (1%), tra bod 85% o ynadon yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn. Oed ynadon ar gyfartaledd oedd 58.8 mlwydd oed, ac mae wedi parhau i fod ychydig dan 60 oedd ers 2012 (y cyfnod o amser lle mae data ar gael).
- Roedd y rhai hynny o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Ethnigrwydd Lleiafrifol (BAME) wedi'u tangynrychioli ychydig ymysg ynadon: roedd 12% o ynadon yng Nghymru a Lloegr wedi nodi eu bod yn dod o gefndir BAME. Mae hyn yn cymharu â'r amcangyfrif diweddaraf fod grwpiau BAME yn cynrychioli 14% o'r boblogaeth gyffredinol (pob oedran).
- Roedd dros hanner yr ynadon yn fenywod (55%)
- Mae ffigyrau o 2011 yn dangos bod ynadon gydag anableddau hefyd wedi'u tangynrychioli: mae 5% o ynadon yng Nghymru a Lloegr yn ystyried bod ganddynt anabledd, tra bod 18% o'r boblogaeth gyffredinol (pob oedran) yn ystyried bod ganddynt broblem iechyd hirdymor neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgaredd o ddydd i ddydd yn fawr, neu'n effeithio arnynt ychydig. Cydnabyddir y gwahaniaethau yn y diffiniadau o anabledd.

Grwpiau eraill a all gael eu heffeithio

- 1.31. Gall grwpiau eraill a all o bosib cael eu heffeithio gan gynigion i gau llysoedd gynnwys y farnwriaeth a gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith. Mae ystadegau gan y Swyddfa Farnwrol yn dangos bod cynrychiolaeth rhy fawr o ddynion, unigolion o darddiad ethnig gwyn ac unigolion sydd dros 50 mlwydd oed ymysg barnwyr o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae poblogaethau ymarferwyr y bar a chyfreithwyr sy'n ymarfer yn fwy amrywiol, ond mae cynrychiolaeth fwy o ddynion yn parhau i fodoli yn y dda broffesiwn.⁵
- 1.32. O ran staff GLITEM, bydd datganiadau cydraddoldeb yn cael eu cwblhau gan adran Adnoddau Dynol GLITEM ar lefel yr Uned Fusnes a bydd yr effaith ar nodweddion gwarchoddedig yn cael ei asesu'n llawn unwaith y byddwn yn deall effaith cynnig arfaethedig i gau safle ar unigolion. Pan fydd llys yn cau, byddwn yn ymgyssylltu â staff trwy gynnal sgysiau un i un cyfrinachol a thrafod yr opsiynau o ran eu hail-leoli.

Cynigion i gau llysoedd yn y dyfodol - asesu effeithiau ar gydraddoldeb

- 1.33. Ar gyfer pob cynnig i gau llys a'r ymgynghoriadau cysylltiedig, byddwn yn drafftio datganiad cydraddoldeb. Bydd y datganiad yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am ddefnyddwyr llys a phennu'r effaith debygol ar ddefnyddwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- 1.34. Yn y dogfennau diweddaraf sy'n ymateb i'r cynigion i gau llysoedd, bu inni gynnal dadansoddiad o'r poblogaethau lleol ger y llysoedd oedd yn cael eu cynnig i'w cau, gan ddefnyddio data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol. Bu inni gymharu'r wybodaeth hon gyda data rhanbarthol ONS i gael syniad o'r garfan o ddefnyddwyr llys sydd â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol – rhyw, oedran, anabledd, hil a chrefydd – mewn ardaloedd oedd yn amgylchynu llysoedd oedd yn cau a'u cymharu â'r boblogaeth ranbarthol. Roedd modd i ni ddadansoddi p'un a oedd cynrychiolaeth rhy fawr neu gynrychiolaeth rhy fach ymysg y grwpiau gwarchoddedig hynny ym mhob ardal. Byddwn yn parhau i adolygu'r data hwn wrth inni ddatblygu cynigion i newid ystad y llysoedd.
- 1.35. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn Nhabl 1 yn seiliedig ar ddadansoddiad o wybodaeth a gafwyd o Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr (CSEW) 2014/15. Byddwn yn parhau i adolygu'r wybodaeth gyfredol ynghylch nodweddion gwarchoddedig sy'n deillio o'r CSEW wrth wneud penderfyniadau yngylch ystad y llysoedd yn y dyfodol
- 1.36. Mae'r ffynonellau data a ddisgrifir uchod yn beth rydym yn eu galw'n data 'procsi' ac fe'u defnyddir yn lle data am ddefnyddwyr llys go iawn. Gan ymateb i nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn cynnal ymchwil pellach i weld pa ddata all fod ar gael am ddefnyddwyr llys go iawn ac adolygu'r broses hwn. Bydd ein data procsi yn parhau i fod yn ddefnyddiol ar gyfer cymharu data am ddefnyddwyr go iawn, ac i ategu data'r hwnnw pan fydd y data am ddefnyddwyr go iawn yn brin.
- 1.37. Fel y nodwyd ym mharagraff 1.25, rydym yn datblygu cynlluniau ar gyfer dadansoddi'r rhaglen yn ei chyfarwydd.

Lliniaradau

- 1.38. Byddwn yn parhau i roi addasiadau rhesymol ar waith i sicrhau bod mynediad at gyfiawnder yn cael ei gynnal. Mae yna nifer o brosesau lliniaru rydym un ai'n eu hystyried neu eisoes wedi'u rhoi mewn lle a fydd yn helpu lleihau effaith cau'r llysoedd ar

5 <http://www.lawsociety.org.uk/representation/research-trends/annual-statistical-reports/>

ddefnyddwyr llys, gan gynnwys y prosesau canlynol:

- Bydd yr holl ddeunydd canllaw, ynghyd â gwybodaeth am brosesau penodol, ar gael ar-lein trwy GOV.UK a'r wefan Justice. Byddai hyn yn cynnwys lleoliad y safle, cyfarwyddiadau am sut i deithio i'r safle, y cyfleusterau sydd ar gael yn y llys neu dribiwnlys perthnasol, arweiniad ar y broses cyfryngu, sut i gychwyn hawliad, sut i apelio, a sut i wneud cwyn
- Hefyd, mae'r gwefannau hyn yn cynnwys dolenni defnyddiol ac yn cyfeirio defnyddwyr at wefannau cysylltiedig fel: Resolution, National Family Mediation, Community Legal Advice, Cyngor ar Bopeth, Consumer Direct, Ofcom ac Ofgem, ymysg eraill. Mae'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.
- Darparu canolfannau busnes a chanolfannau cyswllt ar gyfer rhai gwasanaethau (e.e. Canolfan Hawliadau Arian yn y Llys Sirol), sy'n golygu bod modd cael mynediad at wasanaethau trwy'r post neu dros y ffôn hyd nes bod y gwrandawriad yn digwydd (os bydd angen gwrandawriad).
- Gwasanaethau ar-lein, fel Hawliadau Arian Ar-lein a Hawliadau Meddiannu Ar-lein, sy'n galluogi defnyddwyr i gael mynediad ar-lein i fyny at y gwrandawriad (os bydd angen).
- Mae addasiadau rhesymol ar gyfer anabledau yn cael eu rhoi ar waith yn y llysoedd yn unol â'r polisi addasiadau rhesymol presennol. Mae arweiniad ar gael i'r holl staff, gan gynnwys pwynt cyngori canolog.
- Mae enghreifftiau o addasiadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwn yn cynnwys:
 - adnabod ardal parcio bathodyn glas sy'n agos i'r llys a fydd yn derbyn y gwaith ar gyfer y rhai hynny sydd ag anawsterau symudedd;
 - caniatáu i ddefnyddwyr gydag anabledau ddefnyddio'r maes parcio staff lle bo angen;
 - ystyried lleoliadau amgen lle bo cael mynediad yn broblemus; a
 - gellir ystyried amseroedd cychwyn hwyrach ar gyfer gwrandawriadau os bydd cwsmer yn rhoi gwybod i'r llys neu dribiwnlys bod teithio i'r safle yn broblemus.
- Mae cysylltiadau fideo ar gyfer llysoedd troseddol yn cael eu defnyddio fel a ganlyn:
 - mae cysylltiadau fideo o'r carchar i'r llys yn galluogi diffynyddion i ymddangos yn y llys ynadon o'r ddalfa;
 - mae cysylltiadau fideo ychwanegol o fewn y llys yn galluogi tystion bregus i roi tystiolaeth heb orfod wynebu'r diffynnydd; a
 - bydd y llys wastad yn penderfynu a yw'n briodol i gynnal gwrandawriad mewn ffordd benodol ai peidio, a bydd y partïon hefyd yn gallu rhoi eu safbwyntiau. Wrth wneud ei benderfyniad, dylai'r llys ystyried p'un a oes gan unrhyw un o'r partïon neu'r tystion anabled (e.e. nam ar y golwg neu nam clyw) neu a ydynt yn fregus, a p'un a fyddant yn elwa o wynebu'r diffynnydd er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn yr achos yn iawn. Mae penderfyniadau o'r fath yn seiliedig ar ddisgresiwn y barnwr.
- Gellir cynnig darpariaeth amgen mewn achosion penodol i sicrhau bod mynediad at gyfiawnder yn cael ei gynnal mewn ardaloedd mwy anghysbell neu ardaloedd sydd â chysylltiadau trafniadaeth gwael. Bydd yr angen ar gyfer darpariaeth o'r fath yn cael ei asesu ar sail fesul achos.
- Bydd darpariaeth Gwasanaethau Digidol gyda Chymorth yn cefnogi anghenion digidol unigolion nad ydynt yn gallu ymwneud â gwasanaethau digidol yn hawdd, i sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith. Dylai'r llys ystyried p'un a yw'r partïon yn meddu ar y sgiliau digidol angenrheidiol i allu cymryd rhan mewn gwrandawriad fideo neu wrandawriad dros y ffôn, a gallant roi cyfarwyddiadau i gynnal achos mewn ystafell llys o ganlyniad i hyn. Hefyd, byddwn yn ystyried y prosesau lliniaru canlynol ar gyfer y rhai hynny sy'n cael trafferth cael mynediad at wasanaethau digidol neu wasanaethau ar-lein:
 - Rhoi addasiadau rhesymol ar waith i ddefnyddwyr gydag anabledau trwy ddefnyddio sianelau amgen, gan gynnwys gwasanaeth wyneb yn wyneb, gwasanaeth dros y ffôn a sianelau eraill (yn enwedig ar gyfer unigolion gyda nam ar y golwg, nam medrusrwydd neu nam clyw).
 - Byddwn yn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am y gwasanaeth perthnasol a Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth yn monitro ein systemau yn gyson ar gyfer effeithiau ar gydraddoldeb i sicrhau bod y safon yn cael ei chynnal a bod gwasanaethau yn cael eu gwella tro ar ôl thro.
- Byddwn, lle bo'r angen, yn hyrwyddo mynediad am ddim i'r rhyngwrwyd ar gyfer y defnyddwyr hynny (e.e. pobl ar incymau isel) sydd heb fynediad at y rhyngwrwyd ei hun neu sy'n debygol o allu cael mynediad, e.e. darparu gwybodaeth am lyfrgelloedd lleol.
- Gellir rhoi cyfleusterau a darpariaethau ar waith yn y safleoedd a fydd yn derbyn gwaith, gan gynnwys: mynediad i'r anabl, cyfleusterau cymorth clyw, cyfleusterau newid clytiau babanod, cyfleusterau fideo gynadledda a chyfleusterau i gysylltu â carchardai trwy gyswllt fideo. Ceir gwybodaeth am yr union gyfleusterau sydd ar gael mewn safle llys penodol ar ein gwefan: <https://courttribunalfinder.service.gov.uk/search/>. Os na fydd cyfleusterau addas ar gael, gellir gwneud trefniadau trwy

gysylltu â'r llys i bennu'r addasiadau rhesymol y gellir eu rhoi ar waith, gan gynnwys, lle bo angen, defnyddio lleoliad amgen.

Casgliadau

- 1.39. Ein hasesiad yw na fydd y strategaeth a amlinellir yn y ddogfen hon yn gwahaniaethu yn uniongyrchol yn erbyn y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig fel y'i ddiffinir gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Rydym wedi adnabod nifer o effeithiau posib ar y rhai hynny sydd â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oedran (yr henoed), anabledd (problemau symudedd, anawsterau iechyd meddwl, nam ar y golwg neu anawsterau'n cael mynediad at wasanaethau digidol) a merched beichiog. Byddai'r effeithiau posib hyn yn rhai anuniongyrchol ac maent yn debygol o godi o ganlyniad i gau llys yn y dyfodol, oherwydd cynnydd mewn amseroedd teithio i safleoedd llys amgen. Byddwn yn ystyried p'un a fydd effeithiau o'r fath yn codi wrth ddatblygu cynigion i gau llysoedd ac, os byddant yn codi, p'un a ydynt yn cynrychioli anfantais i unrhyw ddefnyddwyr llys sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol. Rydym wedi amlinellu prosesau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith lle bydd effeithiau o'r fath yn digwydd ac ystyriwn y byddai'n debygol y bydd y rhain yn sicrhau bod ein cynigion yn gymesur o ystyried amcanion y strategaeth.
- 1.40. Rydym yn rhagweld y bydd y broses o foderneiddio'r system gyfiawnder yn golygu bydd yr angen i deithio i adeilad llys yn lleihau. Hefyd, teimlwn y bydd ein diwygiadau yn ei wneud yn haws i'r mwyafrif o bobl gael mynediad at ein gwasanaethau a bydd ein strategaeth arfaethedig yn cyfuno mynediad at adeiladau llys gyda gwasanaethau digidol a gwasanaethau ar-lein. O ran gwasanaethau digidol/ar-lein, rydym wedi darparu prosesau lliniaru ar gyfer y rhai hynny fydd yn cael trafferth cael mynediad at wasanaethau o'r fath. Byddwn yn darparu tystiolaeth o effeithiau'r broses moderneiddio ar deithio i adeiladau llys pan fyddwn yn datblygu cynigion i gau llysoedd yn y dyfodol.
- 1.41. Byddwn yn parhau i adolygu a gwella'r wybodaeth sydd gennym am ddefnyddwyr llys sydd â nodweddion gwarchoddedig. Byddwn yn sicrhau, lle bo cynigion i gau llysoedd yn cael eu datblygu, a lle bo prosiectau yn cael eu rhoi ar waith, bod gennym y data gorau sydd ar gael i asesu'r effaith ar unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig.



© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Gellir cael fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformat arall drwy gysylltu â'r [Gyfarwyddiaeth Eiddo, estatesconsultation@justice.gov.uk]